# DATGANIAD CYFRIFON

# 2010-11

CYNGOR SIR Y FFLINT

# C Y N N W Y S


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cyngor Sir y Fflint** | |
| **Rhagair Esboniadol** | 1-4 |
| **Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu** | 5-14 |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon** | 15 |
| **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | 16-32 |
| **Datganiadau Ariannol Craidd Endid Sengl -** | |
| Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn | 33-34 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 35 |
| Mantolen ar 31 Mawrth 2011 | 36-37 |
| Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 38 |
| **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd** | 39-89 |
| **Datganiadau Ariannol Atodol Endid Sengl -** | |
| Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 90 |
| Datganiad o Symudiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 91 |
| Nodiadau ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 92-93 |
| **Datganiadau Grŵp -** | |
| Cyfrifon Grŵp | 94-96 |
| **Cronfa Bensiynau Clwyd** | |
| Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 | 97-119 |

**Tudalen 1**

## RHAGAIR ESBONIADOL

Mae Datganiad Cyfrifon 2010/11 yn rhoi manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar dudalennau 33 i 96 yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2010/11 yw'r datganiad cyntaf i'w baratoi ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bônt yn berthnasol i Awdurdodau Lleol, ac mae wedi'i baratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 1 (mabwysiadu am y tro cyntaf). Mae'r datganiadau sydd wedi'u cynnwys fel a ganlyn :-

- Y datganiadau ariannol craidd sy'n cynnwys –
    - **y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn** – mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi'n ôl 'cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am y gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu dangos ym Malans Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai at ddibenion pennu'r dreth gyngor a rhent anheddau. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgresiwn a wnaed gan y Cyngor i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
    - **y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** – mae'r datganiad hwn yn dangos y gost yn ystod y flwyddyn, o ran cyfrifyddu, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'n unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o drethi lleol. Bydd awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hynny fod yn wahanol i'r gost o ran cyfrifyddu. Caiff y sefyllfa o ran trethi ei dangos yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.
    - **y fantolen** – mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau namyn rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y rhai hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn a glynu wrth unrhyw gyfyngiadau statudol ar y modd y cânt eu defnyddio (er enghraifft, y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf, na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori yw'r rhai na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn lle ceir enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio) lle na fyddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau oni bai bod yr asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd wrth gefn lle ceir gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau' yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.
    - **y datganiad llif arian** – mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, sy'n perthyn i'r Awdurdod, yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, drwy

ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o ran y graddau y caiff gweithrediadau'r Awdurdod eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y sawl sy'n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y darparwyd all-lifoedd arian ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i'r modd y bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu'n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifoedd arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. arian a fenthyciwyd) i'r Awdurdod.

- Y datganiadau ariannol atodol sy'n cynnwys –
    - **y datganiad o incwm a gwariant y cyfrif refeniw tai** – mae'r Datganiad o Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn dangos y gost economaidd, yn ystod y flwyddyn, o ddarparu gwasanaethau tai yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o renti a grantiau llywodraeth. Bydd awdurdodau yn codi rhenti i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hynny fod yn wahanol i'r gost o ran cyfrifyddu. Caiff y cynnydd neu'r gostyngiad yn ystod y flwyddyn, ar y sail y caiff rhenti eu codi, ei ddangos yn y Datganiad o Symudiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai.
- Y cyfrifon grŵp sy'n cynnwys –
    - datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr **y grŵp** yn unig, sy'n ymdrin â'r cyfnod hyd at 1 Hydref 2010 pan ddaeth gweithgareddau'r cwmni yn weithgareddau mewnol.

Cyflwynir cyfrifon y gronfa bensiynau ar dudalennau 97 i 119, yn unol â'r canllawiau gofynnol.

## Y GYLLIDEB REFENIW A'R SEFYLLFA ARIANNOL YN GYFFREDINOL

Cafodd cyllideb 2010/11 ei gosod yn erbyn cefndir o ddyfodol ariannol heriol pan ddisgwylir gweld gostyngiadau sylweddol mewn cyllid gan y llywodraeth ym mhob un o'r tair blwyddyn sydd i ddod (2011/12 i 2013/14); ystyriwyd mai 2010/11 oedd y flwyddyn hollbwysig o ran cynllunio i ymdopi â heriau'r blynyddoedd sydd i ddod. Dylanwadodd effaith barhaus y dirywiad economaidd ar y broses o osod cyllideb a oedd yn ofalus ac yn realistig ar gyfer 2010/11, ond cyllideb a oedd, serch hynny, yn parhau i gefnogi ysgolion, plant sy'n derbyn gofal, a phobl o bob oed sydd ag anghenion o ran gofal, boed yn cael gofal mewn lleoliad preswyl neu yn y gymuned. Mae'r Cyngor wedi parhau â'i raglen uchelgeisiol i newid y sefydliad gyda'r bwriad o sicrhau cymaint o effeithlonrwydd ag sy'n bosibl a lleihau costau gorbenion – nododd cyllideb 2010/11 dros £6m o arbedion drwy'r rhaglen ar gyfer newid.

Cyfanswm y gwariant net ar gyfer 2010/11 oedd £240,905,000 yn erbyn cyllideb o £241,890,000.

# RHAGAIR ESBONIADOL

parhad

## Y GYLLIDEB REFENIW A'R SEFYLLFA ARIANNOL YN GYFFREDINOL (parhad)

| | Cyllideb 2010/11 | Gwirioneddol 2010/11 | Amrywiant | Gwirioneddol 2009/10 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwariant net ar wasanaethau | 228,025 | 227,193 | (832) | 221,162 |
| Cyfrif benthyciadau a buddsoddiadau canolog | 13,865 | 13,712 | (153) | 13,642 |
| Cyfanswm gwariant net | 241,890 | 240,905 | (985) | 234,804 |
| **Ariannwyd gan** | | | | |
| Y Dreth Gyngor (heb gynnwys gwariant praeseptau cynghorau cymuned) | 53,196 | 53,079 | 117 | 51,318 |
| Grantiau cyffredinol | 146,458 | 146,458 | 0 | 143,293 |
| Ailddosbarthu ardrethi annomestig | 42,236 | 42,236 | 0 | 40,437 |
| **Cyfanswm adnoddau** | 241,890 | 241,773 | 117 | 235,048 |
| Amrywiad net (tanwariant) | 0 | (868) | (868) | (244) |

Gostyngodd y tanwariant net, sef £985,000, i £868,000 drwy leihau'r incwm o'r Dreth Gyngor (£117,000). Mae'r £868,000 ynghyd â symiau eraill y cytunwyd i'w trosglwyddo, a oedd yn cyfateb i £5,997,000, wedi arwain at gyfanswm yng nghronfeydd refeniw wrth gefn cronfa'r Cyngor o £34,111,000 ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cynnwys elfen o falans cronfa'r Cyngor sy'n werth £32,137,000.

| | 2011 | Tanwariant Net | Arall | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balansau heb eu clustnodi | 5,962 | 868 | (1,183) | 6,277 |
| Balansau wedi'u clustnodi | 26,175 | 0 | 6,656 | 19,519 |
| **Balans cronfa'r Cyngor** | 32,137 | 868 | 5,473 | 25,796 |
| Ysgolion dan reolaeth leol (heb fod ar gael at ddibenion cyffredinol) | 1,974 | 0 | 524 | 1,450 |
| **Cyfanswm cronfeydd refeniw wrth gefn cronfa'r Cyngor** | 34,111 | 868 | 5,997 | 27,246 |

## ASEDAU A GAFFAELWYD A RHWYMEDIGAETHAU YR AETHPWYD IDDYNT

Cafodd asedau AD Waste Limited eu prynu gan y Cyngor am y swm o £4,531,398; mae ffigur y pris prynu wedi'i gynnwys yn y ddogfen wedi'i llofnodi a'i selio sy'n dwyn y teitl ''Agreement – for the sale and purchase of the business of AD Waste Limited'', dyddiedig 28 Medi 2010.

Gwariwyd cryn dipyn o arian yn ystod y flwyddyn ar hybu'r broses o uno Ysgol Iau Custom House Lane ac Ysgol Babanod Dee Road, Cei Connah (£533,000); bydd gwaith cysylltiedig yn parhau hyd 2012/13 (£3,820,000). Darperir cyfran sylweddol o'r cyllid cyffredinol ar gyfer y cynllun gan Grant Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

## PENSIYNAU

Mae'r datgeliadau'n cydymffurfio â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 ac yn rhoi cyfrif llawn am y rhwymedigaeth o ran pensiynau. Y rhwymedigaeth a gofnodir yn y fantolen (£203,303,000) yw cyfanswm y diffygion a ragwelir yn ystod oes y gronfa. Nid yw Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn cael unrhyw effaith ar lefelau'r Dreth Gyngor na chyllid tai.

**RHAGAIR ESBONIADOL**

parhad

## CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Nid ymgymerwyd ag unrhyw fenthyciadau hirdymor newydd a oedd yn ymwneud â sefydliadau ariannol neu'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn ystod 2010/11, ac roedd y prif swm sy'n ddyledus yn parhau'n £173,613,000; mae'r Cyngor yn dal i ddefnyddio cronfeydd arian wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf yn lle benthyca arian o'r newydd. Mae cyfanswm y fantolen (£173,744,000) yn cynnwys y swm o £131,000 sy'n ymwneud â benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau gweithio ystwyth, y bydd yn rhaid ei ad-dalu yn 2012/13.

## FFYNONELLAU ARIANNU CYFALAF

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cymeradwyo rhaglen o waith cyfalaf, sy'n darparu ar gyfer buddsoddi mewn asedau megis tir, adeiladau a gwella ffyrdd. Ariennir y rhaglen trwy brosesau benthyca â chymorth, benthyca heb gymorth (darbodus), derbyniadau cyfalaf, grantiau a chyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn a chyllid o'r cyfrif refeniw.

| | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Benthyciadau a gefnogir | 7,773 | 7,759 |
| Benthyciadau nas cefnogir (darbodus) | 757 | 409 |
| Derbyniadau cyfalaf | 217 | 213 |
| Cyfraniadau a grantiau cyfalaf | 17,783 | 21,651 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn/gwariant cyfalaf a gyllidir o'r cyfrif refeniw | 3,296 | 1,035 |
| **Cyfanswm ariannu** | 29,826 | 31,067 |

## AILBRISIO ASEDAU

Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd – mae'r Cyngor yn bodloni'r gofyniad hwn drwy ailbrisio cyfran o'r portffolio asedau cyfan bob blwyddyn; yn ystod 2010/11 (blwyddyn gyntaf y cylch newydd, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2010), ailbrisiwyd 10% o'r asedau nad ydynt yn anheddau, a arweiniodd at ostyngiad yng ngwerth asedau eiddo nad ydynt yn gyfredol a gofnodwyd yn y fantolen (o £864,120,000 i £859,163,000).

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

## MATERION CYFFREDINOL

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y cawsant eu mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd, Dehongliadau'r Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gofynion Cod Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig – sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (y Cod) a gyhoeddwyd gan CIPFA, a ategir gan nodiadau cyfarwyddyd ar ddefnyddio safonau cyfrifyddu. Mae'r newid i God sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ar ôl defnyddio Datganiad o Arfer a Argymhellir sy'n seiliedig ar arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (y SORP), wedi sbarduno rhai newidiadau sylweddol ym mholisïau cyfrifyddu'r Cyngor, a newidiadau i'r prif ddatganiadau ariannol, sy'n adlewyrchu'r gofyniad ychwanegol ynghylch prosesau adrodd cylchrannol, mwy o bwyslais ar gyfrifyddu cydrannol, gwaith mesur eiddo buddsoddi ar sail gwerth teg gan gydnabod enillion a cholledion mewn Gwarged neu Ddiffyg, yr angen i golledion oherwydd amhariadau gael eu cymryd yn y lle cyntaf i'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio, a chategori newydd ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol a gedwir i'w gwerthu. Yn ogystal, caiff prydlesi eiddo eu dosbarthu a rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân fel tir ac adeiladau, bydd grantiau at ddibenion cyfalaf yn cael eu cydnabod fel incwm yn syth, a rhoddir cyfrif am fuddion gweithwyr wrth iddynt gael eu hennill. Ni fu unrhyw newidiadau yn y technegau amcangyfrif a fabwysiadwyd, ac ni chaiff unrhyw daliadau neu gredydau o bwys ac anarferol eu cynnwys yn y cyfrifon.

## SAFONAU A GYHOEDDWYD NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU

Mae'r safonau canlynol, a'r diwygiadau a'r dehongliadau canlynol yng nghyswllt safonau cyfredol, wedi'u cyhoeddi ac maent yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu'r Cyngor sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2011 neu wedi hynny neu ar gyfer cyfnodau diweddarach, ond nid yw'r Cyngor wedi eu mabwysiadu'n gynnar:

- Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 - 'Offerynnau Ariannol'. Bydd y Cyngor yn defnyddio Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Ni ddisgwylir i hynny gael effaith o bwys ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

- Safon Adrodd Ariannol 30 - 'Asedau Treftadaeth'. Bydd y Cyngor yn defnyddio Safon Adrodd Ariannol 30 o 1 Ebrill 2011 ymlaen. Ni ddisgwylir i hynny gael effaith o bwys ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

## SAFONAU SYDD WEDI EU MABWYSIADU'N GYNNAR

Nid oes unrhyw safonau wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod.

## BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth ddefnyddio'r polisïau cyfrifyddu hyn, mae'r Awdurdod wedi gorfod llunio barn mewn ambell achos am drafodion cymhleth neu drafodion sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau'r dyfodol. Mae'r achosion o lunio barn allweddol sydd yn y Datganiad Cyfrifon fel a ganlyn:

- Ar 1 Ebrill 2010, cynhaliodd prisiwr y Cyngor ailbrisiad o 10% o'r portffolio asedau cyfan, a arweiniodd at brisiad llai net o £4,957,000 ar gyfer gwerth asedau eiddo nad ydynt yn gyfredol, fel y nodir ar dudalen 4 y rhagair.

- Amcangyfrifon cyfrifyddu yw darpariaethau, lle ceir ansicrwydd ynghylch swm neu amseru unrhyw daliad (gweler darpariaethau / polisïau cyfrifyddu i gael rhagor o fanylion).

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

## RHAGDYBIAETHAU A WNAED AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O ANSICRWYDD O RAN AMCANGYFRIF

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcan sydd wedi'u seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol neu ragdybiaethau sy'n ansicr am resymau eraill. Caiff amcangyfrifon eu llunio gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir bod yn sicr wrth bennu balansau, gallai'r canlyniadau go iawn fod yn wahanol iawn i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon; mae'r eitemau lle ceir perygl sylweddol y bydd angen gwneud addasiadau o bwys yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn – y Ddarpariaeth ar gyfer Ôl-daliadau Cyflog Cyfartal, y rhwymedigaeth o ran pensiynau ac ôl-ddyledion dyledwyr.

## Y POLISÏAU CYFRIFYDDU

## COSTAU BENTHYCA

Mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r addasiad gan y Cod yng nghyswllt Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 23, sy'n caniatáu i gostau benthyca yng nghyswllt asedau cymwys gael eu troi'n dreuliau yn hytrach nag yn gyfalaf. Felly, caiff holl gostau benthyca eu cydnabod fel treuliau wrth iddynt ddigwydd.

## DERBYNIADAU CYFALAF

Mae derbyniadau cyfalaf yn codi o werthu asedau eiddo ac wrth i flaensymiau gael eu had-dalu, a rhoddir cyfrif amdanynt ar sail croniadau; caiff symiau is na £10,000 o unrhyw werthiant eu trin fel incwm refeniw, yn unol â rheoliadau cyfalaf. Cafodd y gofyniad i neilltuo 75% o dderbyniadau o werthu tai cyngor i ad-dalu dyled ei ddileu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ond mae'r Cyngor yn parhau i neilltuo'r swm yn unol â'r rhagdybiaeth yn rheolau cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Caiff y balans derbyniadau nad yw wedi'i neilltuo yn y modd hwn, ac nad yw wedi'i ddefnyddio at ddibenion ariannu cyfalaf, ei gynnwys yn y fantolen fel derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio. Caniateir defnyddio'r holl dderbyniadau cyfalaf nad ydynt yn ymwneud â thai.

## ARIAN PAROD AC ELFENNAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Caiff arian parod ei gyfleu fel arian mewn llaw. Ystyrir mai elfennau sy'n cyfateb i arian parod yw adneuon mewn sefydliadau ariannol, y gellir eu troi'n hawdd yn symiau o arian sy'n hysbys. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai buddsoddiadau llai na 3 mis o hyd gael eu hystyried yn arian parod ac yn elfennau sy'n cyfateb i arian parod.

Yn y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian, caiff arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod eu dangos heb gynnwys gorddrafftiau banc y mae'n rhaid eu had-dalu yn ôl y galw.

## CYFRIFYDDU CYDRANNOL

Rhaid gweithredu prosesau cyfrifyddu cydrannol o 1 Ebrill 2010 ymlaen, lle caiff yr holl gydrannau mewn eiddo, peiriannau a chyfarpar o bwys, y mae eu cost yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, eu dibrisio ar wahân; mae'r gofynion yn berthnasol i wariant ar welliannau, gwariant ar gaffael, ac ailbrisiadau a gynhelir. Pennwyd lefel isaf ar gyfer pwysigrwydd, sef 0.5% o werth y sylfaen asedau, ac os bydd lefel pwysigrwydd yr eiddo, peiriannau a chyfarpar unigol islaw hynny, ni fydd modd ystyried eu cydrannau; bernir mai cydrannau pwysig yw'r cydrannau y mae eu cost gyfredol yn cyfateb i 20% neu fwy o gyfanswm cost gyfredol yr ased.

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

### AD-DALU DYLEDION

Caiff dyledion eu had-dalu pan ddônt yn ddyledus. Caiff symiau a neilltuwyd o refeniw i ad-dalu benthyciadau allanol neu ariannu gwariant cyfalaf eu dangos yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn; caiff isafswm darpariaeth refeniw ei godi, sy’n cyfateb i 2% o’r ddyled sy’n weddill yn achos y cyfrif refeniw tai, a 4% yn achos cronfa’r Cyngor. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn mynnu bod y Cyngor yn darparu’n ofalus ar gyfer ad-dalu ei ddyledion (rheoliad 22).

### DYLEDWYR A CHREDYDWYR

Caiff cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod eu paratoi ar sail croniadau. Caiff symiau eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i ymdrin ag incwm neu wariant sydd i’w briodoli i flwyddyn y cyfrif yng nghyswllt nwyddau a gafwyd neu waith a wnaed, ond lle na dderbyniwyd / gwnaed tâl ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth 2011.

### DIBRISIANT

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob eiddo, peiriant a chyfarpar ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig (ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio), a sicrheir darpariaeth o’r flwyddyn ariannol lawn gyntaf yn dilyn caffael/prisio. Seilir y ffigur ar brisiadau mantolen net agoriadol 2010/11 (rhestr brisio namyn dibrisiant cronnus), gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol i bob eiddo, peiriant a chyfarpar.

Dyma’r oes ddefnyddiol fwyaf cyffredin a ddefnyddir wrth ddarparu ar gyfer dibrisiant :-

| | **Blynyddoedd** |
|---|---|
| Tir ac adeiladau eraill | 50 |
| Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar | 3 - 10 |
| Asedau seilwaith | 40 |
| Asedau cymunedol | 20 |

Os yw’r ased yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau mawr, ac os yw cost y gydran yn sylweddol o’i chymharu â chyfanswm cost yr ased, ac os yw oes economaidd ddefnyddiol y naill yn wahanol iawn i’r llall, rhoddwyd cyfrif ar wahân am bob cydran.

Caiff Anheddau’r Cyngor eu dibrisio yn ôl swm sy’n cyfateb i’r Lwfans Atgyweiriadau Mawr. Caiff asedau a drowyd yn gyfalaf dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros yr oes a bennwyd i’r ased gan y contract sydd ar waith, neu os nad yw’r wybodaeth honno ar gael, gan ymgynghorwyr annibynnol y Cyngor ynghylch prydlesi, o ganlyniad i’w hadolygiad nhw o’r brydles.

Ni chaiff asedau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes dechreuir defnyddio’r ased.

### BUDDION GWEITHWYR

Caiff cost lawn gweithwyr ei chydnabod yn y flwyddyn y ceir y gwasanaeth gan weithwyr. Caiff cost hawl i wyliau blynyddol, oriau hyblyg, ac amser i ffwrdd yn lle tâl a enillwyd ond na chymerwyd gan weithwyr ar ddiwedd y flwyddyn ei chronni yn y datganiadau ariannol.

Caiff croniad ei gynnwys hefyd os oes angen taliadau arbennig neu addasiadau ôl-weithredol, er enghraifft, drwy godiadau cyflog neu daliadau diswyddo.

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

## ASEDAU ARIANNOL

Ceir dau fath o asedau ariannol:

- benthyciadau a derbyniadau – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu ond na chânt eu dyfynnu mewn marchnad weithredol

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu.

**Benthyciadau a Derbyniadau:**

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Caiff credydau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer llog derbyniadwy eu seilio ar swm yr ased, a gaiff ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Golyga hynny mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill ac sy'n dderbyniadwy (ynghyd â llog cronnus) ac mai'r llog a gredydir i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

**Asedau sydd ar gael i'w gwerthu:**

Caiff asedau sydd ar gael i'w gwerthu eu mesur i ddechrau, a'u dwyn ymlaen, ar sail gwerth teg. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu, caiff credydau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer llog derbyniadwy eu seilio ar gost wedi'i hamorteiddio'r ased, wedi'i lluosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Os nad oes taliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu, caiff incwm (er enghraifft, difidendau) ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, pan fydd yn dod yn dderbyniadwy gan y Cyngor.

Caiff asedau eu cynnal ar y fantolen ar sail gwerth teg. Caiff gwerthoedd eu seilio ar yr egwyddorion a ganlyn:

- offerynnau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad – y pris ar y farchnad

- cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau a ddyfynnir ar y farchnad – arfarniad annibynnol o brisiadau cwmnïau.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso gan gofnod yn y gronfa wrth gefn ar gyfer asedau sydd ar gael i'w gwerthu. Yr eithriad yw sefyllfa lle cafwyd colledion oherwydd amhariadau – caiff y rhain eu debydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw elw/colled net ar gyfer yr ased a gronnwyd yn y gronfa wrth gefn.

Os nodwyd bod amhariad ar yr asedau oherwydd bod digwyddiad yn y gorffennol yn ei gwneud yn debygol na chaiff taliadau sy'n ddyledus dan y contract eu gwneud (taliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu) neu os yw gwerth teg yn disgyn islaw'r gost, bydd gwerth yr ased yn gostwng a dangosir hynny yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr.

## RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Caiff taliadau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

### RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL (parhad)

gyfer llog taladwy eu seilio ar swm y rhwymedigaeth a gaiff ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Golyga hynny mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill ac sy'n daladwy (ynghyd â llog cronnus) ac mai'r llog a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

### PERTHYNAS ARIANNOL Â CHWMNÏAU

Cyngor Sir y Fflint oedd unig gyfranddaliwr AD Waste Limited, cwmni 'hyd braich' gwaredu gwastraff awdurdod lleol, fel y caniateir dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Caiff breindaliadau a difidendau a dderbynnir gan y cwmni eu neilltuo at ddibenion gwaredu gwastraff yn y dyfodol.

Ar 28 Medi 2007, hysbysodd y Cyngor ei fod yn terfynu ei gontract a oedd yn weddill â'r cwmni. Yn dilyn adolygiad o'r gwahanol ddewisiadau a oedd ar gael, ac o ystyried y dyddiad y byddai'r contract yn dod i ben, penderfynodd yr Awdurdod ar 29 Hydref 2008 i ymdrin â gweithgareddau'r cwmni'n fewnol. Cafodd y gwaith o drosglwyddo masnach ac asedau'r cwmni ei gwblhau yn ystod 2010/11.

### CYFRANIADAU A GRANTIAU LLYWODRAETH

Rhoddir cyfrif am grantiau a dderbynnir i gefnogi gwariant cyfalaf a refeniw ar sail croniadau. Os yw ased yn cael ei ariannu'n rhannol neu'n llawn gan grant llywodraeth (neu unrhyw gyfraniad arall), caiff yr incwm ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr. Caiff grantiau ar gyfer gwariant refeniw cyffredinol (megis y grant cynnal refeniw) eu credydu hefyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr.

Os caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, cânt eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Os nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei anfon i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd. Os yw wedi'i ddefnyddio, caiff ei anfon i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio.

### CYFRIFON GRŴP

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sydd â buddiannau sylweddol, wedi'u cronni, mewn is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiedig neu fentrau ar y cyd, baratoi set gyflawn o ddatganiadau ariannol grŵp. Mae gan y Cyngor fuddiannau sylweddol o'r fath yn AD Waste Limited, y penderfynwyd ei fod yn is-gwmni ac y rhoddwyd cyfrif amdano felly. Mae'r addasiad sy'n ofynnol gan AD Waste Limited ar gyfer pob safon unigol dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn ddibwys, ac felly mae cyfrifon AD Waste, sy'n cyd-fynd ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU, wedi'u crynhoi yn y datganiadau ariannol grŵp.

### AMHARIAD

Caiff gwerth pob categori o asedau ac asedau unigol sylweddol nad ydynt yn cael eu dibrisio ei adolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i weld a oes tystiolaeth bod gwerth yr asedau wedi gostwng. Os nodir bod amhariad, yn rhan o'r broses adolygu hon neu o ganlyniad i ymarfer prisio, rhoddir cyfrif am hynny naill ai drwy fynd â'r golled i ddechrau i'r cyfrif wrth gefn ar gyfer ailbrisio, i'r graddau bod balans sy'n ymwneud â'r ased penodol yn y cyfrif hwnnw, a chaiff unrhyw swm dros ben ei ddangos yng nghyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

## ASEDAU ANNIRIAETHOL

Asedau nad ydynt yn ariannol ac nad oes sylwedd ffisegol yn perthyn iddynt yw asedau anniriaethol. Ni chânt eu cydnabod oni bai ei bod yn debygol y bydd manteision economaidd arfaethedig yn llifo i'r Cyngor, neu y bydd gwasanaethau posibl yn cael eu darparu iddo, ac os gellir mesur cost yr ased mewn modd dibynadwy. Gall gwariant ar ddatblygu, neu drwyddedau meddalwedd a brynwyd, fodloni'r diffiniad o asedau, os y Cyngor sy'n rheoli mynediad i'r manteision economaidd arfaethedig y maent yn eu cynrychioli, naill ai drwy gadwraeth neu warchodaeth gyfreithiol; ceir isafswm lefel gwariant o £10,000, ac ni fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn berthnasol i wariant sydd islaw'r lefel honno.

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl eu caffael/gweithredu. Mae'r oes ddefnyddiol fwyaf cyffredin a ddefnyddir yng nghyswllt amorteiddio fel a ganlyn:-

| | **Blynyddoedd** |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd | 5 |
| Gwariant ar ddatblygu | 7 |

## TALIADAU LLOG

Caiff llog allanol taladwy ei ddangos yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, ynghyd ag amorteiddiad yr enillion a'r colledion wrth ailbrynu benthyciad a ddygwyd ymlaen yn y fantolen neu wrth dalu benthyciad o'r fath yn ôl yn gynnar.

## STOCIAU

Caiff stociau eu prisio ar sail cost neu werth net y gellir ei wireddu, pa un bynnag sydd isaf. Caiff cost pob math o stoc ei mesur mewn modd gwahanol; mae'r dulliau mesur a ddefnyddir mewn perthynas â phrif stociau'r Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| • Y Fferi Isaf (Tanwydd) | Cyntaf i mewn, cyntaf allan |
| • Helygain | Cyfartaledd cymhwysol |
| • Alltami (Cynnal a Chadw Tir) | Cyfartaledd cymhwysol |
| • Alltami (Darnau Sbâr Cerbydau) | Cyfartaledd cymhwysol |
| • Alltami (Tanwydd) | Cyntaf i mewn, cyntaf allan |
| • Canton | Cyntaf i mewn, cyntaf allan |

## EIDDO BUDDSODDI

Eiddo buddsoddi yw eiddo a ddefnyddir dim ond er mwyn ennill rhenti a/neu sicrhau cynnydd mewn cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os caiff ei gadw i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddi a'r ystâd amaethyddol wedi cael eu prisio ar sail gwerth teg. Mewn achosion lle nad oedd tystiolaeth ar sail y farchnad o werth teg ar gyfer ased penodol, defnyddiwyd cost ased arall yn ei le, a ddibrisiwyd. Ni chaiff eiddo ei ddibrisio; yn hytrach caiff ei ailbrisio'n flynyddol yn unol ag amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn.

Caiff enillion a cholledion oherwydd ailbrisiadau ac amhariadau o safbwynt eiddo buddsoddi eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn hytrach na thrwy'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio. Caiff enillion a cholledion o werthu eu trin yn yr un modd. Nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i'r enillion a'r colledion

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

### EIDDO BUDDSODDI (parhad)

gael effaith ar Falans Cronfa’r Cyngor, ac felly cânt eu tynnu allan o’r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a’u hanfon i’r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos unrhyw elw dros £10,000 o werthu) y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf.

Caiff rhenti a geir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi eu credydu i’r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi, a byddant yn arwain at enillion ar gyfer Balans Cronfa’r Cyngor.

### BUDDSODDIADAU

Dangosir buddsoddiadau yn y fantolen ar sail gwerth teg (gwerth ar y farchnad) ar gyfer pob dosbarth o offerynnau ariannol.

Caiff buddsoddiadau ac adneuon byrdymor eu cynnwys yn yr arian parod a’r elfennau sy’n cyfateb i arian parod yn hytrach na buddsoddiadau byrdymor os byddant yn aeddfedu cyn pen 3 mis i’r dyddiad caffael, yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 7.

### PRYDLESI

#### Prydlesi cyllid

Er mwyn i brydles gael ei hystyried yn brydles gyllid, mae angen i’r Cyngor ysgwyddo rhan helaeth o’r holl risgiau a’r holl wobrau sy’n gysylltiedig â pherchnogaeth. Ceir pum enghraifft o sefyllfaoedd a fyddai, ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad, fel rheol yn arwain at ystyried prydles yn brydles gyllid. Mae’r sefyllfaoedd hynny fel a ganlyn:

- mae’r brydles yn trosglwyddo perchnogaeth o’r ased i ddeiliad y brydles erbyn diwedd tymor y brydles
- mae gan ddeiliad y brydles opsiwn i brynu’r ased ar sail pris y disgwylir iddo fod yn is na’r gwerth teg i raddau digonol fel ei bod yn eithaf pendant y bydd yr opsiwn hwnnw’n cael ei ddewis
- mae tymor y brydles yn cyfateb i ran helaeth o oes economaidd yr ased
- mae gwerth presennol taliadau isaf y brydles yn cyfateb i o leiaf ran helaeth o holl werth teg yr ased a brydlesir (mae’r Cyngor wedi penderfynu bod ‘rhan helaeth o holl’ yn cyfateb i 90%, fel y nodwyd gan ei ymgynghorwyr annibynnol ynghylch prydlesi), ac
- mae’r asedau a brydlesir mor arbenigol eu natur fel mai deiliad y brydles yn unig all eu defnyddio heb wneud addasiadau mawr.

Mewn achos lle mae’r Cyngor yn ysgwyddo rhan helaeth o’r holl risgiau a’r holl wobrau sy’n gysylltiedig â pherchnogaeth o’r ased a brydlesir, caiff yr ased ei gofnodi fel eiddo, peiriannau a chyfarpar, a chydnabyddir rhwymedigaeth gyfatebol. Y gwerth y caiff y ddau beth eu cydnabod yn unol ag ef yw gwerth teg yr ased neu werth presennol taliadau isaf y brydles, pa un bynnag sydd isaf, wedi’i ddisgowntio gan ddefnyddio’r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Y gyfradd llog sydd ymhlyg yw’r gyfradd sy’n esgor ar gyfradd llog rheolaidd cyson ar y rhwymedigaeth sydd heb ei thalu. Caiff yr eiddo, y peiriannau a’r cyfarpar a gaffaelir dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros oes yr ased yn unol â’r polisi cyfrifyddu uchod ar gyfer dibrisiant.

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

### Prydlesi cyllid (parhad)

Caiff yr ased a'r rhwymedigaeth eu cydnabod ar ddechrau'r brydles, a chânt eu datgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei chlirio neu ei diddymu neu pan fydd yn dod i ben. Caiff y rhent blynyddol ei rannu rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth a chost cyllid. Caiff cost flynyddol cyllid ei chyfrifo drwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg mewn perthynas â'r rhwymedigaeth sydd heb ei thalu.

### Prydlesi gweithredu

Rhoddir cyfrif am brydlesi nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o brydlesi cyllid drwy eu hystyried yn brydlesi gweithredu. Caiff rhenti prydlesi gweithredu eu dangos mewn cyfrifon refeniw, ar sail croniadau, ac ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

Caiff prydlesi eiddo eu hystyried yn brydlesi tir ac adeiladau ar wahân, a rhoddir cyfrif amdanynt felly.

### ASEDAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL A GEDWIR I'W GWERTHU

Mae asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a gedwir i'w gwerthu wedi'u prisio ar sail gwerth teg. Yn achos eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi eu hailgategoreiddio fel asedau 'a gedwir i'w gwerthu', rhoddir y gorau i'w dibrisio pan gânt eu hailgategoreiddio. Caiff asedau y bwriedir eu gwerthu eu hailgategoreiddio fel asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a gedwir i'w gwerthu, pan fydd pob un o'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- Rhaid bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol yn amodol ar delerau sy'n arferol ac yn gyffredin ar gyfer achosion o werthu asedau o'r fath.
- Rhaid bod y gwerthiant yn debygol iawn; rhaid bod rheolwyr ar y lefel briodol wedi ymrwymo i gynllun i werthu'r ased, a rhaid bod rhaglen weithredol wedi ei chychwyn i ddod o hyd i brynwr a chwblhau'r cynllun.
- Rhaid bod yr ased (neu grŵp gwerthu) yn cael ei farchnata'n weithredol i'w werthu am bris sy'n rhesymol o'i gymharu â gwerth teg cyfredol yr ased.
- Dylid disgwyl y bydd y gwerthiant yn gymwys i'w gydnabod fel gwerthiant a gwblhawyd cyn pen blwyddyn i'r dyddiad categoreiddio, a dylai'r camau gweithredu sy'n ofynnol i gwblhau'r cynllun ddangos ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r cynllun neu y bydd y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.

### GORBENION

Codwyd costau gwasanaethau cymorth ac adeiladau gweinyddol a ddarperir yn ganolog ar wasanaethau, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau. Dyrennir costau'r craidd corfforaethol a democrataidd ac unrhyw gostau nas dosbarthwyd i benawdau amcanion ar wahân, ac ni chânt eu dosrannu i unrhyw wasanaeth arall.

### PENSIYNAU

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol sy'n diwallu anghenion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol. Mae'r cynlluniau yn rhoi buddion diffiniedig i'w haelodau, sy'n gysylltiedig â chyflog a gwasanaeth:

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

## PENSIYNAU (parhad)

**Athrawon:**
Cynllun heb ei gyllido yw hwn a weinyddir gan yr Adran Addysg. Caiff y costau pensiwn a ddangosir yn y cyfrifon eu seilio ar gyfradd gyfrannu a bennir gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol.

**Gweithwyr Eraill:**
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi'i seilio ar gyflog terfynol, sydd â buddion diffiniedig ac a gaiff ei gyllido yw hwn. Caiff yr holl enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae'r cyfrifon yn cydnabod y rhwymedigaeth lawn sydd gan y Cyngor i dalu cost buddion ymddeol yn y dyfodol, a fydd yn codi o'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd gan weithwyr hyd at ddyddiad y fantolen, heb gynnwys y cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa a'r incwm buddsoddi a gynhyrchwyd ganddynt. Caiff y gyfradd disgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau a chyfrifo cost gyfredol y gwasanaeth ei seilio ar yr elw o adbrynu sydd ar gael ar fondiau corfforaethol o safon.

Mae'r symiau a ddangosir mewn cyfrifon refeniw gwasanaeth yn seiliedig ar gyfran o gost gyfredol gwasanaeth (y cynnydd mewn buddion yn y dyfodol sy'n codi o'r gwasanaeth a enillwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol) yn hytrach na chyfraniadau'r cyflogwr. Rhoddir cyfrif am fuddion yn ôl disgresiwn, a ddyfernir adeg ymddeoliad cynnar, yn y flwyddyn y gwnaed y penderfyniad ynghylch y dyfarniad.

## EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Caiff gwariant sy'n ymwneud â chaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar ei droi'n gyfalaf, ar yr amod bod yr ased yn esgor ar fanteision i'r Awdurdod a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, am gyfnod o dros flwyddyn; ceir isafswm lefel gwariant o £20,000, ac ni fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn berthnasol i wariant sydd islaw'r lefel honno. Caiff gwariant ar waith atgyweirio a chynnal a chadw arferol ar asedau sefydlog ei ddangos yn uniongyrchol mewn cyfrifon refeniw gwasanaeth.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu prisio ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â'r Datganiadau o Arferion Prisio Asedau a'r Nodiadau Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cânt eu categoreiddio mewn amryw grwpiau fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol.

Caiff gwerth teg anheddau'r Cyngor ei fesur gan ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol–Tai Cymdeithasol. Caiff asedau sefydlog gweithredol eraill (seilwaith ac asedau cymunedol) ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu prisio ar sail cost hanesyddol.

Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd - mae'r Cyngor yn bodloni'r gofyniad hwn drwy ailbrisio cyfran o'r portffolio asedau cyfan bob blwyddyn; yn ystod 2010/11 (blwyddyn gyntaf y cylch newydd, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2010), ailbrisiwyd 10% o'r holl asedau. Caiff newidiadau pwysig i brisiadau eu haddasu yn y cyfamser wrth iddynt ddigwydd. Bydd credydau i'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cyd-fynd ag unrhyw gynnydd mewn prisiadau, er mwyn cydnabod enillion heb eu gwireddu. Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad gweithredu'r drefn yn ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u crynhoi yn y cyfrif addasu cyfalaf. Caiff gwahanol ddosbarthiadau o asedau a gaiff eu cynnwys ar fantolen y grŵp eu mesur ar wahanol seiliau (sy'n cyd-fynd â'r fantolen).

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

parhad

### DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn darparu'n briodol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddod i'w ran, oni bai bod ansicrwydd ynghylch swm neu amseriad unrhyw daliad y mae ei angen i glirio'r rhwymedigaeth.

### CRONFEYDD WRTH GEFN

Ystyrir symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn perthyn i'r diffiniad o ddarpariaethau fel cronfeydd wrth gefn. Maent naill ai'n arian y bwriadwyd ei neilltuo i dalu am wariant annisgwyl yn y tymor byr, yn adnoddau i helpu i reoli llif arian neu'n adnoddau sydd wedi cronni na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu. Caiff trosglwyddiadau i mewn ac allan ohonynt eu dangos fel neilltuadau yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn, sy'n disodli'r datganiad o symudiadau ym malans cronfa'r cyngor.

### GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF DAN STATUD (REFCUS)

Mae gwariant yn ystod y flwyddyn y gellid ei droi'n gyfalaf dan ddarpariaethau statudol, ond nad yw'n arwain at greu asedau sefydlog, wedi'i ddangos fel gwariant yng nghyfrif y gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf cyfredol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf yn gwyrdroi'r symiau a ddangoswyd yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn, fel nad yw'n effeithio ar lefel y Dreth Gyngor.

### ADRODD YNGHYLCH CYLCHRANNAU

Mae'r cyfrifoldeb am ddyrannu adnoddau'n perthyn i'r Aelodau etholedig a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Yr Aelodau a'r Prif Swyddog perthnasol sy'n asesu perfformiad. Mae cylchrannau wedi eu nodi sy'n adlewyrchu strwythur trefniadaethol y Cyngor fel yr adroddwyd yn ei gylch wrth y Prif Benderfynwr Gweithredol (y Pwyllgor Gweithredol), ac mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Adroddir ynghylch cylchran os yw ei gwariant yn cyfateb i 10% neu fwy o'r gwariant gros o fewn cost net gwasanaethau; neu os yw ei hincwm yn cyfateb i 10% neu fwy o'r incwm gros o fewn cost net gwasanaethau. Mewn achosion lle nad yw'r cylchrannau a nodwyd y dylid adrodd yn eu cylch yn cynnwys o leiaf 75% o'r gwariant o fewn cost net gwasanaethau, caiff cylchrannau neu gyfuniadau o gylchrannau ychwanegol eu trin fel cylchrannau y dylid adrodd yn eu cylch, nes bydd y cylchrannau y dylid adrodd yn eu cylch yn cynnwys o leiaf 75% o'r gwariant o fewn cost net gwasanaethau.

Nid yw'r Cyngor yn adrodd ynghylch asedau neu rwymedigaethau'n fewnol, ac felly nid yw'n ofynnol adrodd ynghylch y rhain fesul cylchran yn y datganiadau ariannol.

### TRETH AR WERTH

Mae'r Cyngor yn cael ad-daliad am gost net y dreth ar werth y mae'n ei thalu. Paratowyd y cyfrifon heb gynnwys treth, yn unol â Datganiad Arferion Cyfrifyddu Safonol 5.

### Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon

**Awdurdodwyd Datganiad Cyfrifon 2010/11 i'w gyhoeddi ar 16 Medi 2011 gan Kerry Feather (Pennaeth Cyllid). Hyd y dyddiad hwn yr ystyriwyd digwyddiadau wedi'r fantolen.**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod :-

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a gofalu bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw.
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac er mwyn diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

**Llofnod:**

**Hilary McGuill**
**Cadeirydd y Cyngor Sir**

**Dyddiedig:**

### CYFRIFOLDEBAU'R PENNAETH CYLLID

Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ("y Cod").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Pennaeth Cyllid :-

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio'n gyson;
- wedi llunio barn ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Pennaeth Cyllid hefyd :-

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a chyfredol;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Paratowyd y datganiad cyfrifon a ganlyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010. Mae'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2011, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Yn ogystal, mae'r datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a maint ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw a'r modd yr oeddent wedi'u trefnu.

**Llofnod :**

**Kerry Feather CPFA**
**Pennaeth Cyllid**

**Dyddiedig :**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

## 1. MAES CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflawnir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am ofalu bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes, sy'n hwyluso'r broses o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / y Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef *Delivering Good Governance in Local Government: Framework.*

*Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol – Adolygiad Hunanasesu 2011 a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gael gan y Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.*

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut y mae Cyngor Sir y Fflint wedi cydymffurfio â'r Cod, ac mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010.

## 2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Cyngor a'i weithgareddau, a thrwyddynt mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gynllunio a darparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw yw'r system reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i reoli risgiau a heriau er mwyn eu cadw ar lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, y gall ei ddarparu o effeithiolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i waith cyflawni polisïau, blaenoriaethau, nodau ac amcanion y Cyngor. Mae wedi'i chynllunio hefyd i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau a'r heriau hynny'n cael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Roedd y fframwaith llywodraethu ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

## 3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Caiff prif elfennau trefniadau llywodraethu'r Cyngor eu hadlewyrchu yn y **Cod Llywodraethu Corfforaethol**. Mae'r Cod yn rhan o'r Cyfansoddiad ac mae'n berthnasol i bob agwedd ar fusnes y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Aelodau a'r gweithwyr ymddwyn yn unol â'r safon uchel a ddisgwylir

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

gan ddinasyddion Sir y Fflint a'r chwech o egwyddorion craidd a nodir yn Fframwaith CIPFA / SOLACE:

- Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned, a chreu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol a'i rhoi ar waith.
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau clir.
- Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod a dangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ran ymddygiad.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun prosesau effeithiol ar gyfer craffu a rheoli risg.
- Meithrin gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus dibynadwy.

Caiff y **Weledigaeth Sirol** a'i blaenoriaethau eu pennu gan **Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint** ar gyfer dyheadau partneriaid Sir y Fflint mewn perthynas â chyflwr y Sir a'i gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dwyn ynghyd y darparwyr gwasanaethau cyhoeddus hynny sydd yn Sir y Fflint, sy'n cynnwys: Cyngor Sir y Fflint, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Glannau Dyfrdwy, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae gan Weledigaeth bresennol y Sir bump o flaenoriaethau:-

- ffyniant economaidd
- gwella iechyd
- dysgu a sgiliau am oes
- byw'n gynaliadwy
- cymunedau diogel a chynorthwyol.

Caiff ansawdd y gwasanaethau a gaiff defnyddwyr ei fesur a'i werthuso mewn gwahanol ffyrdd yn unol â'r math o wasanaeth a'r modd y caiff ei ddarparu.  Mae'r dulliau o fesur ansawdd yn cynnwys y canlynol:-

- gwaith gwerthuso ac asesu ffurfiol gan gyrff rheoleiddio a thrwy hunanasesu
- dulliau cenedlaethol o fesur perfformiad, y gellir eu dadansoddi dros gyfnod i ddangos tueddiadau a'u meincnodi yn erbyn perfformiad sefydliadau eraill
- dangosyddion perfformiad lleol a ddatblygir i ddarparu gwybodaeth gyfredol a defnyddiol o ran rheoli
- gwaith ymgynghori ac adborth parhaus drwy arolygon, asesiadau o anghenion a systemau adborth
- y defnydd a wneir o Bwyllgorau Arolygu a Chraffu'r Cyngor i fonitro a gwirio ansawdd gwasanaethau.

Yn ogystal, mae gan y Cyngor gyfres o systemau i wella ansawdd gwasanaethau drwy nodi "**Targedau Gwella**" a adolygir yn flynyddol gan swyddogion ac aelodau'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu, a thrwy gyflawni'r Cytundeb Canlyniadau.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Cytundeb tair blynedd (â Llywodraeth Cymru) yw'r **Cytundeb Canlyniadau**, sydd wedi'i seilio ar ddeg o themâu strategol, a chaiff un canlyniad cyffredinol ei ddewis o bob thema fel sy'n briodol i anghenion Sir y Fflint fel Sir. Mae'n ofynnol i Gytundebau Canlyniadau ddangos bod cydweithredu'n digwydd a bod gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ar y themâu a'r canlyniadau, ac yn dilyn hynny cawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bodloni'r rhan honno o'r cytundeb sy'n ymwneud â chydweithredu.

Adroddir ynghylch cynnydd yn erbyn y Cytundeb Canlyniadau yn yr adroddiadau ynghylch Perfformiad Chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth, a chaiff cynnydd ei fonitro'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

*Mae'r Cytundeb Canlyniadau ar gael gan y Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau yn yr Uned Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau.*

Mae'r Pwyllgor Gweithredol, gan ymgynghori â Fforwm y Cyfansoddiad, yn gyfrifol am gymeradwyo'r **Cod Llywodraethu Corfforaethol**, a'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, drwy ei adolygu'n flynyddol. Mae'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau adolygiad blynyddol o'r modd y cydymffurfir â'r Cod, ac mae'r Adran Archwilio Mewnol yn archwilio'r broses yn annibynnol. Cynhaliwyd adolygiad hunanasesu o'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yng ngwanwyn 2011, gan nodi llwyddiannau'r Cyngor dan bob un o'r chwech o egwyddorion craidd a chan nodi, lle'r oedd hynny'n briodol, gamau gweithredu pellach yr oedd eu hangen i atgyfnerthu trefniadau'r Cyngor. Mae cynlluniau gweithredu manwl wedi eu hymgorffori yn nhrefniadau cynllunio busnes y Cyngor. Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol yn gyffredinol, ac wedi cyflwyno ambell argymhelliad i sicrhau rhagor o welliannau. Bydd yr Adran Archwilio Mewnol yn cadw golwg ar y camau gweithredu, yn rhan o'i hadolygiad parhaus o Lywodraethu Corfforaethol. Cynhelir adolygiad pellach yn 2012.

*Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol – Adolygiad Hunanasesu 2011 a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gael gan y Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau yn yr Uned Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau.*

Caiff proses gadarn o lywodraethu corfforaethol ei hategu gan y prosesau a'r disgyblaethau cynllunio busnes sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, rheoli risg a rheoli arian. Mae fframwaith cynllunio newydd ar gyfer y Cyngor wedi'i ddatblygu o amgylch Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor, a ategir gan y gwasanaethau a ddarperir gan dair Cyfarwyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus y Cyngor ac a nodir yn y cynlluniau gwasanaeth atodol a'r trefniadau arfarnu. Mae Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor yn deulu o ddogfennau sy'n cydberthyn i'w gilydd, ac mae'n datgan uchelgais, blaenoriaethau a thargedau yn erbyn fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio sut y mae'r Cyngor yn cael ei redeg a'i lywodraethu ac sy'n nodi gwerthoedd, rolau a chyfrifoldebau sefydliadol. Mae'r fframwaith llywodraethu, fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ar 17 Mai 2011, yn weithredol erbyn hyn, caiff ei adolygu'n flynyddol ac mae'n ymdrin â'r meysydd canlynol:-

**Y Cyngor a Democratiaeth**

- hunanasesiad blynyddol o lywodraethu corfforaethol
- adolygiad parhaus o'r cyfansoddiad
- adolygiad parhaus o ddirprwyo
- diweddaru rolau a chyfrifoldebau
- datblygu fframweithiau atebolrwydd ar draws strwythurau'r Cyngor

**Gweledigaeth a Gwerthoedd Sefydliadol**

- datblygu'r Weledigaeth Sirol

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

- datblygu blaenoriaethau mwy penodol ar gyfer y Cyngor
- gwerthoedd sefydliadol ar gyfer perfformiad lefel uchel

**Adnoddau**

- datblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl, y Cynllun Rheoli Asedau a'r Strategaeth TGCh fel pedwar prif adnodd y Cyngor
- dulliau o reoli rhaglenni a phrosiectau
- polisi ac arferion rheoli newid

**Prosesau Busnes**

- cynllunio gwasanaethau ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth a threfniadau cynllunio newydd ar gyfer cyfarwyddiaethau
- Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru
- adnewyddu'r model ar gyfer cyflwyno ac adolygu'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau
- categoreiddio ac adolygu targedau
- dull gweithredu cyson mewn perthynas â methodoleg pennu targedau a gwaith cynllunio camau gweithredu
- protocolau ar gyfer rheoli gwaith rheoleiddio allanol

**Partneriaethau**

- cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol
- trefniadau llywodraethu ar gyfer prosiectau cydweithredol
- trefniadau llywodraethu ac ymrwymiadau partneriaethau strategol.

Mae'r tair Cyfarwyddiaeth gwasanaethau (Gwasanaethau Cymunedol, yr Amgylchedd a Dysgu Gydol Oes) yn cynhyrchu **Cynlluniau Cyfarwyddiaeth** sy'n crynhoi'r blaenoriaethau, y perfformiad, y risg a'r gweithgarwch gwella allweddol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth ac sydd hefyd yn adlewyrchu agweddau allweddol ar ymrwymiadau cyflawni ar gyfer y partneriaethau strategol. Caiff cynlluniau eu cynhyrchu i adlewyrchu'r flwyddyn weinyddol (mis Mai i fis Mai) ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a phwysau sy'n ymddangos o ran y gyllideb, ond gan ystyried ffactorau tymor hwy. Caiff y gwasanaethau corfforaethol eu hadlewyrchu yn y **Cynlluniau Gwasanaeth** ar gyfer TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyllid, Adnoddau Dynol, a Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Mae pob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn adolygu ac yn cwblhau eu Cynlluniau Gwasanaeth ar lefel Pennaeth Gwasanaeth. Cynlluniau blynyddol yw'r rhain, ond maent yn ystyried ffactorau tymor hwy er mwyn adlewyrchu'r amcanion sy'n ymwneud â gwasanaethau cynaliadwy, parhad busnes, ac ymrwymiadau tymor hwy o ran perfformiad a gwella. Caiff cynlluniau eu hadolygu a'u hadnewyddu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, o leiaf bob chwarter, er mwyn llywio gwaith cynllunio parhaus o safbwynt y gyllideb ac adnoddau. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol ynghylch cynnydd eu paratoi a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu.

*Mae Cynlluniau Gwasanaeth ar gael gan yr Uned Polisi a Pherfformiad.*

Er mwyn sicrhau eglurder, cyfeiriad a chysondeb o ran amcanion a gaiff eu datgan a disgwyliadau ar gyfer llywodraethu da, mae'r Cyngor wedi adolygu ei **Ddatganiad Blaenoriaethau**, sy'n ymdrin â thymor y Cyngor cyfredol (hyd at fis Mai 2012). Mae'r modd y cafodd y blaenoriaethau eu dewis wedi'i arwain gan y Pwyllgor Gweithredol yn ei rôl arwain, gan gywasgu'r rhestr flaenorol o 40 o flaenoriaethau i mewn i 10 prif flaenoriaeth. Maent wedi'u seilio ar ystod o ffynonellau, gan gynnwys yr ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd i lywio'r Weledigaeth Sirol, ynghyd ag ymgynghoriadau eraill ar lefel leol a lefel gwasanaethau.

Mae'r rhestr yn gryno ac yn gynhwysfawr, ac mae'n cynnwys pedair blaenoriaeth o ran llywodraethu a chwe blaenoriaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus, fel a ganlyn:-

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

parhad

- Bod yn gorff cyhoeddus modern, effeithlon a chost-effeithiol drwy gyfrwng ein pedair strategaeth adnoddau – y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl, y Strategaeth Rheoli Asedau a'r Strategaeth TGCh – gan sicrhau ar yr un pryd bod ein trethi lleol a'n ffioedd a'n taliadau'n deg ac yn fforddiadwy.
- Sicrhau'r arbedion mwyaf posibl o ran cost drwy gydweithredu'n rhanbarthol ac yn isranbarthol i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- Bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg sy'n cynnig cyflog ac amodau a thelerau cyflogaeth teg a chyfartal dan Gytundeb Statws Sengl.
- Cynnig gwasanaethau cwsmeriaid a gofal cwsmeriaid o'r radd flaenaf drwy gyfrwng ein Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- Sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, gan roi blaenoriaeth i blant a phobl hŷn.
- Gwarchod a hybu'r economi leol a rhanbarthol er mwyn bod yn Sir ffyniannus a rhoi cymorth a chefnogaeth i'r rhai y gallai tlodi effeithio arnynt.
- Cynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol, iach a boddhaus yn y gymuned drwy gynnig gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd personol a chefnogol o'r radd flaenaf.
- Diwallu'r angen o ran tai yn y Sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o dai safonol a fforddiadwy a gwasanaethau tai ar gael yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a'r sector preifat.
- Sicrhau ystod fodern a llwyddiannus o gyfleoedd dysgu, chwarae a hamdden a chyfleoedd diwylliannol i bobl o bob oed ar y cyd â'n hysgolion, ein colegau a phartneriaid eraill.
- Gwarchod, cynllunio a datblygu amgylcheddau naturiol ac adeiledig cynaliadwy.

Caiff y 10 prif flaenoriaeth hyn eu hategu gan y blaenoriaethau eilaidd mwy manwl a nodir yn y tri Chynllun Cyfarwyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol, yr Amgylchedd a Dysgu Gydol Oes ac yn y cynlluniau llywodraethu corfforaethol. Y cynlluniau llywodraethu corfforaethol yw'r Cynllun Gwella, yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau a'r pedwar cynllun busnes ar gyfer adnoddau corfforaethol, sef y Cynllun Asedau, y Strategaethau TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid, y Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Pobl. Mae'r prif flaenoriaethau a'r blaenoriaethau eilaidd yn ategu strategaethau, ac yn cael eu hategu gan strategaethau, a fabwysiadwyd gan bartneriaethau lleol, e.e. y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Bydd y Cyngor yn gwerthuso perfformiad y 10 blaenoriaeth hyn ddwywaith y flwyddyn, a bydd yn adrodd ynghylch eu perfformiad.

Cafodd dogfen **Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau** y Cyngor ei chreu yn ystod 2007/08 a'i diweddaru yn 2010, ac mae'n cynnig asesiad manwl o risgiau a heriau'r Cyngor ac yn cynnig sail ar gyfer gweithredu.

Mae'r ddogfen Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau yn darparu'r sylfaen ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth/Busnes, Cynllun Archwilio Mewnol a Chynllun Rheoleiddio y Cyngor. Mae'n diffinio'r blaenoriaethau ar gyfer newid a gwella ac yn rhoi manylion amdanynt, a chaiff ei ategu gan ein prosesau a'n disgyblaethau cynllunio busnes sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, rheoli risg, rheoli arian, rheoli adnoddau, monitro ac adolygu.

Mae cynnwys yr adolygiad parhaus o'r asesiad strategol o risgiau a heriau yn llywio (i) Rhaglen Waith y Tîm Rheoli Corfforaethol, (ii) y Rhaglen Rheoleiddio Mewnol ac Allanol ar gyfer 2011/12 a (iii) Fframwaith Cynllunio'r Cyngor. Lluniwyd yr asesiad strategol dan y categorïau a ganlyn:

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

parhad

- Arweinyddiaeth Gymunedol – materion lleol hanfodol na all y Cyngor eu darparu ar ei ben ei hun (e.e. tai fforddiadwy)
- Cyflenwi Gwasanaethau'r Cyngor – materion yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus sydd dan reolaeth ac sy'n gyfrifoldeb y Cyngor yn bennaf (e.e. tai)
- Llywodraethu'r Cyngor – materion yn ymwneud â llywodraethu a rheoli sefydliad (e.e. cyllid).

Caiff risgiau'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau eu disgrifio yn y Cynlluniau Cyfarwyddiaeth, ceir manylion amdanynt mewn Cynlluniau Gwasanaeth, ac adroddir yn eu cylch bob chwarter yn yr adroddiad perfformiad chwarterol. Yn ogystal, cynhelir adolygiad ar wahân o holl risgiau'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau ddwywaith y flwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ac ymdriniaeth gynhwysfawr mewn perthynas â'r risgiau a chamau gweithredu i'w lliniaru. Adroddir ynghylch hynny wrth Bwyllgor Gweithredol a Phwyllgor Archwilio'r Cyngor.

*Mae copi cyfredol o'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau ar gael gan y Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau, Gwasanaethau Corfforaethol.*

Mae **Cyfansoddiad y Cyngor** yn egluro sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud, a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad wedi'i rannu'n 19 erthygl sy'n egluro'r rheolau sylfaenol sy'n ymdrin â busnes y Cyngor.

Mae'r swyddogion a'r Aelodau yn rhwym wrth **Godau Ymddygiad** sy'n cynnwys ystod eang o safonau ymddygiad y mae'n ofynnol iddynt eu cyrraedd. Mae copïau o'r Codau ar gael i'r swyddogion a'r Aelodau ar Infonet, a chânt eu hategu gan ddigwyddiadau hyfforddi rheolaidd.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint fframwaith clir o systemau a gweithdrefnau i atal, rhwystro a chanfod achosion o dwyll a llygredd ac ymchwilio iddynt. Mae'r fframwaith yn cynnwys **Strategaeth Atal Twyll a Llygredd** sy'n nodi cyfrifoldebau Aelodau a gweithwyr o ran hyrwyddo diwylliant o onestrwydd ac integriti. Mae gan y Cyngor **Bolisi Chwythu'r Chwiban** sy'n galluogi gweithwyr i fynegi unrhyw bryderon yn gyfrinachol. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adolygu'r polisïau hyn yn barhaus er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i bolisi'r Cyngor a deddfwriaeth llywodraeth. Mae'r dogfennau polisi eraill sydd ar waith ac a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd yn cynnwys: **Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Gweithdrefnau Contractau, Gweithdrefn Gwyno i Gwsmeriaid, a Chynllun Dirprwyo.**

**Swyddog Ariannol Cyfrifol (Adran 151)** penodedig y Cyngor yw'r **Pennaeth Cyllid**. Mae deiliad y swydd yn adrodd i'r Prif Weithredwr, mae'n aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, ac ef yw prif ymgynghorydd y Cyngor ynghylch cyllid. Mae ganddo fynediad uniongyrchol i bob Aelod a mynediad uniongyrchol yn benodol drwy'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor. Drwy hynny, mae'r Pennaeth Cyllid yn aelod allweddol o'r tîm arwain o ran datblygu a gweithredu strategaeth, ac mae'n chwarae rhan weithredol ym mhob penderfyniad busnes pwysig ac yn gallu dylanwadu arnynt, gan sicrhau bod risgiau a goblygiadau'n cael eu hystyried a'u bod yn cyd-fynd â'r strategaeth ariannol. **Swyddog Monitro** penodedig y Cyngor yw'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a phrif ymgynghorydd cyfreithiol y Cyngor, er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud mewn modd cyfreithlon a theg yn y Cyngor, er mwyn monitro, adolygu a chynnal Cyfansoddiad y Cyngor ac er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yn weithredol y terfynau sydd arno o ran gweithredu'n gyfreithlon, ond ar yr un pryd mae hefyd yn ceisio defnyddio pwerau er budd llawn ei gymunedau drwy'r canlynol:-

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**
parhad

- Cyngor cyfreithiol wrth baratoi adroddiadau'r Cyngor, y Pwyllgorau a'r Pwyllgor Gweithredol.
- Y ffaith bod cyngor cyfreithiol ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gweithredol a Phwyllgorau Statudol.
- Gwaith rhagweithiol Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor a'i berthynas waith agos â rheolwyr gwasanaethau.
- Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaeth i staff Gwasanaethau Plant yn benodol).
- Polisïau a phrotocolau'r Cyngor sy'n nodi'r prosesau.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu Strategaeth Datblygu Pobl newydd mewn partneriaeth â Choleg Glannau Dyfrdwy. Gellir nodi'r amryw lefelau o ddatblygu goruchwyliaeth a rheolaeth drwy gyfeirio at y diagramau trosolwg sydd yn y Strategaeth Datblygu Pobl. Caiff gofynion o ran datblygu ar gyfer y swyddogion hyn eu nodi drwy broses arfarnu Cyngor Sir y Fflint, a chaiff data ynghylch hyfforddiant ei anfon ymlaen wedyn i'r Tîm Hyfforddiant Corfforaethol er mwyn gweithredu.

Bydd Aelodau sy'n cael lwfansau oherwydd cyfrifoldebau arbennig yn cael cyfarfodydd datblygu blynyddol ynghylch datblygiad personol i nodi eu hanghenion o ran datblygu. Mae'r rhain yn llywio'r rhaglen flynyddol ar gyfer datblygiad Aelodau, a baratoir gan y Gweithgor Datblygiad Aelodau. Rhoddir hyfforddiant penodol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cynllunio, a disgwylir iddynt fynychu'r hyfforddiant hwnnw. Darperir hyfforddiant pellach hefyd ar lefel leol ar draws Cymru ar gyfer pob Aelod, drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal, caiff datblygiad uwch-swyddogion yn y sefydliad ei nodi drwy'r broses arfarnu, ynghyd ag asesiadau unigol. Ar hyn o bryd mae'r Rheolwr Hyfforddiant Corfforaethol wrthi'n ymchwilio i drefniadau a all gynorthwyo gyda'r broses hon. Byddant yn gyfuniad o'r canlynol -

- Adborth 360 gradd â gwaith dehongli drwy sgwrs hyfforddi
- Sesiynau preswyl â thrafodaethau myfyriol ynghylch arweinyddiaeth, perfformiad, effaith ac ymddygiad arweinwyr
- Sesiynau adolygu i gynyddu hunanymwybyddiaeth
- Trafodaethau a hwylusir, sy'n meithrin dealltwriaeth o arferion gorau ym maes arweinyddiaeth
- Cyfleoedd i gael sylwadau cymheiriaid ynghylch effaith ac ymddygiad arweinwyr
- Sesiynau hyfforddi yn dilyn sesiynau preswyl i atgyfnerthu'r dysgu.

Mae cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid, busnesau, sefydliadau partner ac o fewn ei weithlu ei hun yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu yn egluro egwyddorion a nodau allweddol y Strategaeth.

Mae gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau yn digwydd ar nifer o wahanol lefelau: democratiaeth gynrychiolaidd drwy ein haelodau etholedig, gwaith ymgysylltu strwythuredig drwy ein Fforwm Sirol (â Chynghorau Tref a Chymuned) er enghraifft, asesiadau ffurfiol o anghenion drwy ein partneriaethau strategol, arolygon a systemau adborth megis gweithdai a sioeau teithiol. Caiff yr ystod o ddulliau ei dewis yn unol â'r gofynion, y gynulleidfa a'r ymdriniaeth dan sylw.

Yn 2010 mabwysiadodd y Cyngor **Raglen Dyfodol Sir y Fflint** fel rhaglen i hybu rhagor o ailgynllunio a newid yn y sefydliad er mwyn sicrhau cynifer o arbedion effeithlonrwydd ariannol ag sy'n bosibl, ac mae'n ymestyn ein hymrwymiadau i gydweithredu'n rhanbarthol.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn cynnwys pedair rhan a fydd, o'u cyfuno, yn moderneiddio ac yn newid y sefydliad ymhellach, yn gwneud arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella gwytnwch ac ansawdd gwasanaethau.

Mae'r pedair rhan fel a ganlyn:-

- Newid Corfforaethol: prosiectau corfforaethol a arweinir yn ganolog, sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan, e.e. systemau, gweithio'n ddiwastraff, caffael, costau cyflogaeth
- Newid Gwasanaethau: prosiectau a arweinir gan wasanaethau, sy'n effeithio ar swyddogaethau a gwasanaethau penodol, e.e. trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion
- Cydweithredu Rhanbarthol: prosiectau cydweithredol rhanbarthol ac isranbarthol gyda chynghorau eraill a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, e.e. gwasanaethau gwella ysgolion
- Cydweithredu Lleol yn y Sir: prosiectau cydweithredol ar lefel sirol gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, e.e. lleihau carbon a chynyddu cyfleoedd/atal tlodi.

Mae nodau Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint fel a ganlyn:-

- creu sefydliad modern a hyblyg sy'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau
- cynyddu cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd / cynhyrchu incwm er mwyn cyfyngu ar effaith gostyngiadau mewn arian yn y sector cyhoeddus ar wasanaethau lleol
- gwella gwasanaethau lleol a mynediad iddynt a sicrhau'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad.

Diben Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yw:-

- cyd-fynd â rhaglenni cenedlaethol y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi a gadeirir gan Brif Weinidog Cymru
- cynyddu'r manteision a geir o gydweithredu ag eraill
- cynyddu'r manteision a geir o foderneiddio a newid y sefydliad.

Caiff Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint ei datblygu ochr yn ochr â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Llywodraethu a'r tri Chynllun Cyfarwyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfeiriad a phwrpas, sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gydlynu, a sicrhau eglurder ynghylch atebolrwydd a chanlyniadau. Adroddir ynghylch y set hon o gynlluniau ategol yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2011. Bydd amcanestyniadau ynghylch arbedion effeithlonrwydd cronnus Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn allweddol i ragweld ein gallu i reoli ein harian o 2012/13 ymlaen, o gofio'r setliadau dangosol ar gyfer llywodraeth leol, a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2012/13 a 2013/14 a'r pwysau a ragwelir ar ein cyllideb.

Mae gan Sir y Fflint ystod eang o **bartneriaethau a threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth**. Mae'r rhain yn amrywio o gyrff strategol, statudol a gweithredol a chyrff sy'n comisiynu a chontractio, i gyrff cynghori a dulliau cydweithredol o weithio mewn partneriaeth i ddatrys problemau. Partneriaethau strategol Sir y Fflint yw'r sylfaen ar gyfer trefniadau cynllunio cymunedol y Cyngor (Sir y Fflint mewn Partneriaeth) ac maent yn cynnwys: Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Bartneriaeth Adfywio a Chompact y Sector Gwirfoddol.

Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bum swyddogaeth: bod yn gorff partneriaeth i arweinwyr lleol; cyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol; adolygu arferion llywodraethu a

pherfformiad y partneriaethau strategol yn gyson ac yn effeithiol; nodi problemau cyffredin fel cyrff cyhoeddus; a hyrwyddo cydweithredu a gwneud y defnydd darbodus gorau o adnoddau partneriaid lleol.

Cafodd y gofyniad statudol i ddatblygu Strategaeth Gymunedol ar sail partneriaeth ar gyfer holl Sir y Fflint ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol ar 17 Chwefror 2009. Yna, cafodd y Strategaeth Gymunedol (y Weledigaeth Sirol) ei mabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir y Fflint ar 30 Mehefin 2010.

Mae Cynllun Gwaith y Strategaeth Gymunedol wedi'i seilio ar y materion, yr heriau a'r risgiau a nodwyd yn y 'Weledigaeth Sirol' gan Sir y Fflint mewn Partneriaeth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint wedi nodi bod lleihau carbon ac effaith tlodi a'i anfanteision cysylltiedig yn y Sir yn faterion allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy ar y cyd. Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i fynd ar drywydd ffyrdd cydweithredol o weithio.

**Ar lefel genedlaethol**
Mae Sir y Fflint yn rhan o 'deulu' llywodraeth leol Cymru. Mae'r Cyngor yn cyfrannu i waith datblygu a gwerthuso polisïau cenedlaethol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy:-

- fod yn aelod gweithredol o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – y corff sy'n cynrychioli awdurdodau unedol, parciau cenedlaethol, awdurdodau heddlu ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru
- bod yn ymgynghorai statudol a gydnabyddir gan y Llywodraeth ac asiantaethau'r Llywodraeth
- cymryd rhan mewn astudiaethau a rhaglenni gwaith cenedlaethol a byrddau, rhwydweithiau a gweithgorau cenedlaethol.

Mae Sir y Fflint yn bresennol ac yn ddylanwadol drwy'r cyrff proffesiynol cenedlaethol y mae ei uwch-swyddogion yn aelodau gweithgar ohonynt. Mae'r cyrff hynny'n cynnwys y Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r cyrff hyn yn cymryd rhan yn weithredol mewn rhaglenni cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu a gwerthuso polisi ac arferion.

Mae Sir y Fflint hefyd yn weithgar yng ngwaith cyrff cenedlaethol eraill megis Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i rhaglen o astudiaethau 'gwerth am arian' ac arloesedd cenedlaethol, a'r corff sy'n gweithio ar lefel y DU, sef y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n hyrwyddo gwelliannau drwy astudiaethau cymharu a rhannu arferion.

Mae Sir y Fflint yn cefnogi ei haelodau etholedig a'i swyddogion proffesiynol i fod yn weithgar ym mhob un o'r uchod er mwyn cynrychioli buddiannau Sir y Fflint a gwella ein henw da fel cyngor blaenllaw.

**Ar lefel ranbarthol**
Mae Sir y Fflint yn aelod gweithgar o bartneriaethau a chyrff cynrychiolaidd rhanbarthol.

- Mae'n enwebu aelodau i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Mae'n enwebu aelodau i amryw gyrff sydd â chylch gorchwyl rhanbarthol.
- Mae'n weithgar mewn rhwydweithiau rhanbarthol megis Fforwm Economaidd Gogledd Cymru.
- Mae'n aelod o gonsortia rhanbarthol megis y consortiwm trafnidiaeth ranbarthol, TAITH.
- Mae'n aelod o gyd-bwyllgorau ffurfiol sy'n goruchwylio gwasanaethau a ddarperir ar y cyd, megis Cyd-bwyllgor partneriaeth gaffael Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL



- Mae'n aelod llawn o'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sef pwyllgor rhanbarthol o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Mae'n aelod llawn o'r pedwar bwrdd portffolio rhanbarthol sy'n hyrwyddo cydweithredu mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn helpu i lunio blaenoriaethau a pholisi rhanbarthol drwy bob un o'r uchod yn ogystal â hyrwyddo a diogelu buddiannau'r rhanbarth ar lefel Cymru a'r DU a buddiannau Sir y Fflint ar lefel ranbarthol.

Mae'r Cyngor hefyd yn aelod gweithgar o Gynghrair Merswy Dyfrdwy sy'n hyrwyddo cydweithio a chynllunio strategol trawsffiniol ar gyfer datblygu economaidd a datblygu seilwaith.

**Ar lefel leol**

Mae chwech o Bartneriaethau Strategol allweddol yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, sef:

- Y Bartneriaeth a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2011 i 2014)
- Y Bartneriaeth a'r Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol (2008 i 2011)
- Partneriaeth Tai Sir y Fflint
- Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da (2011 i 2014)
- Y Bartneriaeth Adfywio
- Compact y Sector Gwirfoddol.

Gyda'i gilydd, caiff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Partneriaethau Strategol hyn eu galw'n 'Sir y Fflint mewn Partneriaeth'. Mae Partneriaethau Strategol Sir y Fflint yn hollbwysig o ran cyfrannu at ansawdd bywyd ar gyfer Sir y Fflint.

Adroddir ynghylch perfformiadau'r Partneriaethau Strategol i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor a Phwyllgor Arolygu a Chraffu Proffil a Phartneriaethau Cymunedol ddwywaith y flwyddyn.

Yn dilyn adolygiad diweddar o Bartneriaethau Gogledd Cymru, cyflwynwyd cyfres o newidiadau a oedd yn cynnwys, yng ngham 1, sefydlu Cyd-fyrddau newydd:-

- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol: Arweinwyr a Phrif Weithredwyr
- Cyd-fwrdd Lleol Diogelu Plant gyda Wrecsam
- Cyd-bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyda Wrecsam

Bydd cam 2 yn atgyfnerthu ymhellach y partneriaethau hyn er mwyn datblygu Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru a threfniadau gweithio rhanbarthol ar gyfer comisiynu, llywodraethu a sicrhau atebolrwydd Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Ym mis Hydref 2009, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol y dylid datblygu Fframwaith Llywodraethu Partneriaethau Strategol er mwyn darparu dull gweithredu cyson mewn perthynas â Llywodraethu Partneriaethau Strategol. Caiff y Fframwaith hwn ei ddefnyddio'n awr (neu bwriedir ei weithredu) gan y canlynol:

- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Partneriaeth Tai Sir y Fflint
- Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Y Bartneriaeth Adfywio
- Bwrdd Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

## 4. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am gynnal adolygiad, o leiaf bob blwyddyn, o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system reolaeth fewnol. Caiff y broses adolygu effeithiolrwydd ei llywio gan waith Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Corfforaethol a rheolwyr yn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu; adroddiad blynyddol Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol; a sylwadau a wneir hefyd gan yr archwilwyr allanol ac arolygiaethau ac asiantaethau adolygu eraill.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o gynghorwyr sy'n cynrychioli 57 o Adrannau Etholiadol yn Sir y Fflint, a chânt eu hethol yn ddemocrataidd bob pedair blynedd. Mae'r aelodau etholedig yn atebol yn ddemocrataidd i'r Cyngor Llawn ac i'r etholwyr yn eu hadrannau etholiadol.

Rôl, diben a gweithgarwch aelodau etholedig yw:

- Cynrychioli a chefnogi cymunedau
- Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol (yn amodol ar gael eu penodi)
- Ymwneud â gwaith llywodraethu, safonau moesegol a chydberthnasau mewnol
- Ymwneud â datblygiad personol a datblygu rôl.

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Bod yn agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac integriti
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

Fel rheol, y Pwyllgor Gweithredol sy'n penderfynu ynghylch pob mater, gan gynnwys materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi. Rôl gwaith Arolygu a Chraffu yw dwyn y Pwyllgor Gweithredol i gyfrif fel cyfaill beirniadol, a monitro/cynorthwyo i wella a datblygu polisïau a gwasanaethau'r Cyngor.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

parhad

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid bod gan awdurdodau lleol o leiaf un Pwyllgor Arolygu a Chraffu. Mae gan Sir y Fflint saith Pwyllgor Arolygu a Chraffu, a gefnogir gan dîm o swyddogion. Mae'r Pwyllgorau hynny fel a ganlyn:

- Tai
- Adnoddau Corfforaethol
- Amgylchedd
- Dysgu Gydol Oes
- Proffil a Phartneriaethau Cymunedol
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Cydlynu.

Mae rhai o swyddogaethau'r Cyngor llawn yn cynnwys:

- Mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad
- Cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag achos o Drosglwyddo Tir ar gyfer Tai
- Penodi Arweinydd y Cyngor
- Penderfynu ar faint a chylch gorchwyl Pwyllgorau a gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau ynghylch cydbwysedd gwleidyddol, a phenodi i Bwyllgorau yr Aelodau hynny, os oes rhai, nad ydynt yn aelodau o unrhyw grŵp gwleidyddol.

Caiff y busnes sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu a'r Cyngor cyfan ei gyhoeddi yn y flaenraglen waith. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu, y Cyngor a'r Pwyllgorau eraill ar agor i'r cyhoedd eu mynychu ac eithrio pan drafodir materion cyfrinachol neu faterion sydd wedi'u heithrio, fel y diffinnir gan y gyfraith. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gweithredol wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â chyllideb a pholisïau cyffredinol y Cyngor. Os yw am ddod i benderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid ei gyfeirio at y Cyngor cyfan.

Yn unol â chanllawiau arfer da, mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio sydd â Chylch Gorchwyl clir. Rôl a swyddogaethau'r Pwyllgor yw:

- Adolygu effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg y Cyngor
- Arolygu'r broses cynhyrchu adroddiadau ariannol i sicrhau cydbwysedd, tryloywder ac integriti'r wybodaeth ariannol a gyhoeddir
- Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol o fewn y cyd-destun rheoleiddio ehangach.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, ac mae'n sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn cyflawni'r swyddogaethau craidd a nodir yn nogfen CIPFA, *Audit Committees – Practical Guidance for Local Authorities*. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwblhau hunanasesiad yn erbyn gofynion CIPFA yn flynyddol.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**
parhad

Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel yn achos pob Cynghorydd. Mae Cod Ymddygiad sy'n ymdrin ag ymddygiad a gweithredoedd Cynghorwyr wedi'i fabwysiadu, ac mae'r holl Gynghorwyr wedi cytuno i lynu wrtho. Cytunwyd y dylai'r pwyllgor o naw gynnwys pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn swyddogion ac nad ydynt ychwaith yn briod ag un o Gynghorwyr neu swyddogion y Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y diffinnir gan y Ddeddf. Penodir y pum aelod yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Yn ogystal â'r rhain, dylai'r pwyllgor gynnwys tri chynghorydd ar wahân i'r Arweinydd neu unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, ac un aelod o gyngor cymuned.

Swyddogaeth adolygu annibynnol statudol yw'r Adran Archwilio Mewnol, sy'n darparu gwasanaeth i'r Pwyllgor Gweithredol a rheolwyr ar bob lefel. Mae'n rhaid i'r Adran Archwilio Mewnol fodloni safonau a bennir gan gyrff proffesiynol megis CIPFA a gofynion y Bwrdd Arferion Archwilio, fel y'u dehonglir gan God Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwiliadau Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn annibynnol ar y gweithgareddau y mae'n eu harchwilio er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi'r farn ddiduedd sy'n hanfodol o safbwynt ei gallu i ymddwyn yn briodol a rhoi cyngor diduedd i reolwyr. Yn y cyswllt hwn, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n caniatáu:-

- Mynediad digyfyngiad i'r holl swyddogaethau, cofnodion ac eiddo;
- Mynediad llawn a rhydd i'r Pwyllgor Archwilio;
- Mynediad digyfyngiad i uwch-reolwyr, aelodau a'r holl staff;
- Cyhoeddi adroddiadau archwilio yn ei henw ei hun.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn annibynnol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau rheoli risg, llywodraethu a sicrhau rheolaeth fewnol.

Mae Pwyllgor y Cyfansoddiad wedi llunio rhaglen waith, ond mae rhai agweddau arni a oedd yn rhedeg yn hwyr, oherwydd bod ymarfer Diagnostig Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau'n hwyr, wedi cael eu hystyried bellach gan y Pwyllgor. Yn y dyfodol agos bydd angen ystyried sut y bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd statudol newydd arfaethedig, a gyflwynwyd gan y Mesur Llywodraeth Leol diweddaraf, yn effeithio ar waith Pwyllgor y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal cysylltiadau diwydiannol effeithiol a chadarn trwy weithio mewn partneriaeth â'i undebau llafur cydnabyddedig. Yn rhan o'r trefniadau hyn, mae rheolwyr ac aelodau etholedig yn cyfarfod â'r undebau llafur yn rheolaidd. Mae Cyd-bwyllgor Undebau Llafur Sir y Fflint sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith yr uwch-reolwyr a chydweithwyr o undebau llafur, a'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol sy'n cynnwys uwch-reolwyr, aelodau etholedig ac undebau llafur, yn fframwaith ar gyfer cyfnewid syniadau a barn sy'n effeithio ar fudd y gweithlu a'r sefydliad. Mae'r pwyllgorau hyn yn galluogi'r Cyngor i ymgysylltu'n llawn â'r undebau llafur yn gynnar a chyfathrebu ac ymgynghori ynghylch cynigion a materion sydd o ddiddordeb cyffredin i bob parti. Mae'r trefniadau hyn yn bwysig o safbwynt cynnal gwaith partneriaeth rhwng cyflogwr ac undebau llafur ar gyfer y Cyngor, ac maent wedi gweithio'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

## 5. MATERION PWYSIG O RAN LLYWODRAETHU

Mae'r risgiau corfforaethol pwysig a nodwyd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau, sydd â statws 'Coch', fel a ganlyn:

- CD20 Adeiladau Ysgolion / Moderneiddio Ysgolion

    - Disgrifiad o'r risg – Cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd asedau addysg, a bodloni polisi Cyngor Sir y Fflint ar leoedd gwag mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae camau

lliniaru sydd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau yn mynd rhagddynt ym mis Mawrth 2011; bernir o hyd bod y risg yn uchel, ac mae'r Cyngor yng nghamau cynnar y broses o gynnal adolygiadau ardal o'r ddarpariaeth uwchradd.

- CD23 Caffael lleoliadau yn y sector annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
  - Disgrifiad o'r risg - Pwysau ar y gyllideb, a grëir gan gost caffael lleoliadau yn y sector annibynnol sy'n darparu addysg neu ofal arbenigol i ddiwallu anghenion anodd eu rhagweld plant sy'n derbyn gofal. Mae camau lliniaru sydd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau yn mynd rhagddynt, ond mae'r statws 'Coch' yn parhau. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn parhau â'i waith, ac yn gwella prosesau comisiynu ac yn lleihau costau, yn unol â'r bwriad. Mae prosiect Gogledd Cymru yn mynd rhagddo. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n agos iawn oherwydd natur anwadal iawn y galw.

Mae'r risgiau eraill sydd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau, sydd hefyd o bwys sylweddol i'r Cyngor ond sydd heb statws 'Coch' ar hyn o bryd, fel a ganlyn:

- CD14 Pleidlais ynghylch Tai
  - Disgrifiad o'r risg – Methu â bodloni'r amcan sy'n ymwneud â chynnal pleidlais ynghylch tai o fewn amserlen resymol ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae camau lliniaru sydd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau yn mynd rhagddynt yn unol â'r bwriad (ac fe'u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) a bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn gynnar yn 2012.
- CG11 Amodau a Thelerau Cyflogaeth
  - Disgrifiad o'r risg – Gweithredu Statws Sengl / Gwerthuso Swyddi. Mae camau lliniaru sydd yn yr Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau yn mynd rhagddynt; fodd bynnag, mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Statws Sengl wedi'i symud yn ôl i ddechrau / canol 2012.
- CG21 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
  - Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2011/15 ym mis Mehefin 2011. Mae'n egluro'r strategaeth adnoddau ariannol y bydd y Cyngor yn ei defnyddio i gyflawni ei weledigaethau a'i amcanion strategol dros y tymor canolig. Mae gwaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wrthi'n awr yn datblygu model rhagweld dibynadwy i gymharu argaeledd adnoddau, y galwadau ar yr adnoddau hynny a chyfleoedd i ymdrin â'r diffyg. Mae Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn nodi rhaglen uchelgeisiol ar gyfer y Cyngor wrth iddo foderneiddio ac ad-drefnu'r modd y mae'n darparu gwasanaethau ac wrth iddo ymateb i'r dyfodol ariannol anodd sy'n wynebu llywodraeth leol.

*Mae copi cyfredol o'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau ar gael gan y Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau, Gwasanaethau Corfforaethol.*

**Materion eraill yn ymwneud â llywodraethu**

Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi nodi rhai gwendidau pwysig yn y meysydd a restrir isod. Os caniateir iddynt barhau, gallai'r gwendidau hyn arwain at golled ariannol, achosion o fethu â chydymffurfio â deddfwriaeth, neu ddulliau gweithio aneffeithlon. Cafodd systemau rheoli eu hargymell, felly, i reoli'r risgiau.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**
parhad

- Codau Ymarfer Cyflogaeth
  - Yr angen i wella arferion er mwyn cydymffurfio â'r Cod ynghylch diogelu data. Gallai methu â chydymffurfio arwain at risg ariannol a risg i enw da'r Cyngor.
- Arwystlon ar eiddo cleientiaid
  - Yr angen i sicrhau bod arwystlon yn cael eu cofrestru lle bo hynny'n berthnasol
- Unedau Mentrau Busnes
  - Yr angen i lunio cynlluniau, gweithdrefnau a chytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer yr unedau
- Rheoli Data – Diogelu'r Cyhoedd
  - Yr angen i wella'r modd y rheolir y system ddata er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn gywir ac yn ddefnyddiol
- Technology Forge – System Rheoli Asedau
  - Yr angen i sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio'n llawn
- Tai Fforddiadwy
  - Yr angen i wella gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y lefel ofynnol o dai fforddiadwy yn cael ei chynhyrchu
- Prif Waith Cyfrifyddu
  - Yr angen i wella systemau rheoli ar gyfer adennill dyledion a dileu drwgddyledion
- Rheoli Absenoldebau
  - Yr angen i reolwyr roi polisïau Adnoddau Dynol ar waith
- Hawliau i Wyliau
  - Yr angen i safoni hawliau ar draws yr Awdurdod
- Y Gyflogres
  - Yr angen am weithdrefnau a systemau rheoli gwell ar ôl trosglwyddo i system Trent
- Defnyddio Ymgynghorwyr
  - Yr angen i wella systemau sy'n rheoli'r modd y caiff ymgynghorwyr eu cyflogi a'u monitro
- Tacsis Gwasanaethau Plant
  - Yr angen i wella cyfathrebu rhwng adrannau a'r systemau rheoli gweithredol dros dacsis
- Cytundebau Adran 106
  - Yr angen i wella gwaith monitro a gorfodi'r cytundebau, ac amseroldeb ac atebolrwydd y broses a'r rhan y mae'r Aelodau yn ei chwarae ynddi

*Mae cynlluniau gweithredu manwl wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r materion hyn fel mater o flaenoriaeth.*

Yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2009/10, nododd yr Adran Archwilio Mewnol feysydd lle'r oedd gwendidau sylweddol. Roedd y meysydd hynny'n cynnwys gwaith adennill rhent, grantiau corfforaethol, gwaith caffael, gwaith cynnal a chadw tai, TASK (system gostio gwaith ar briffyrdd),

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

contractau tacsis a diogelu'r cyhoedd – incwm o ffïoedd. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu i gywiro'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiadau hyn. Yn ystod 2010/11, cadwyd golwg ar argymhellion yn y meysydd hyn er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd. Ym mhob achos, mae cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r gwendidau.

Adroddwyd ynghylch y meysydd canlynol am y tro cyntaf yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn 2009. Nododd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2010 bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae'r problemau'n parhau ac mae angen gwneud mwy. Mae oedi wrth gwblhau'r Adolygiad o'r Swyddogaeth Gyllid wedi effeithio ar gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Llyfr Cyfrifon Cyffredinol
    - Yr angen i gynnal adolygiad sylweddol o'r brif system TG ariannol er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu gwybodaeth reoli sy'n ddibynadwy, yn gywir ac yn amserol.

      Mae sefydlu swyddogaeth gyllid ddibynadwy sy'n gallu cefnogi adolygiad sylweddol o'r brif system TG yn un o amcanion yr Adolygiad o'r Swyddogaeth Gyllid, ar yr amod bod gallu ar gael i hwyluso adolygiad sylweddol. Mae camau gweithredu wedi'u caniatáu i uwchraddio'r meddalwedd cyfredol er mwyn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael ac er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu meddalwedd *Purchase to Pay* (P2P) i hybu gwaith moderneiddio arferion caffael. Mae'n debygol y bydd yr adolygiad sylweddol yn cael ei gynnal yn awr fel prosiect cydweithredol gyda chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, a bydd angen ei amserlennu ar y cyd ag adrannau cyllid a TG eraill.

- Adennill Dyledion a Gorfodi
    - Yr angen i dynhau systemau rheoli ar gyfer adennill dyledion, gwirio credyd a dileu drwgddyledion.

      Dechreuodd prosiect a arweinir gan yr Adran Gyllid dan Raglen Dyfodol Sir y Fflint ym mis Awst 2011 i fynd i'r afael â'r problemau hyn, gan adeiladu ar waith a wnaed yn 2010/11 gan adolygiad y Tîm Gweithio'n Ddiwastraff. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn 2011/12 a bydd yn darparu Polisi Dyledion Corfforaethol wedi'i ddiweddaru a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer adennill dyledion.

Er bod yr Adolygiad o'r Swyddogaeth Gyllid yn cymryd mwy o amser nag a fwriadwyd i'w weithredu, mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn awr i'w gwneud yn bosibl i'w nodau gael eu cyflawni. Bydd hynny'n ffactor a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau gwell trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cyngor.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn parhau i wella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am y gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro'r modd y cânt eu gweithredu ac y byddant yn gweithredu, yn rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

parhad

…………………………………… …………………………………

**Arweinydd y Cyngor** **Prif Weithredwr**

…………………………………

**Pennaeth Cyllid**

**Dyddiad** : ………………………

# DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn - derbyniadau cyfalaf £000 | Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd £000 | Balans Cronfa'r Cyngor £000 | Cronfeydd wrth gefn Cronfa'r Cyngor - wedi'u clustnodi £000 | Balans y Cyfrif Refeniw Tai £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio £000 | Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2010** | | 4,818 | 6,906 | 27,246 | 5,004 | 1,492 | 45,466 | 431,920 | **477,386** |
| Gwarged/(diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | | 0 | 0 | 21,010 | 0 | (4,598) | **16,412** | 0 | **16,412** |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 18,095 | **18,095** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | **0** | **0** | **21,010** | **0** | **(4,598)** | **16,412** | **18,095** | **34,507** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau | **9** | 1,409 | 2,238 | (20,142) | (441) | 4,720 | **(12,216)** | 12,216 | **0** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi** | | **1,409** | **2,238** | **868** | **(441)** | **122** | **4,196** | **30,311** | **34,507** |
| Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | | 0 | 0 | 5,997 | 127 | 0 | **6,124** | 0 | **6,124** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | | **1,409** | **2,238** | **6,865** | **(314)** | **122** | **10,320** | **30,311** | **40,631** |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | | 6,227 | 9,144 | 34,111 | 4,690 | 1,614 | **55,786** | 462,231 | **518,017** |

# DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 (parhad)

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn - derbyniadau cyfalaf £000 | Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd £000 | Balans Cronfa'r Cyngor £000 | Cronfeydd wrth gefn Cronfa'r Cyngor - wedi'u clustnodi £000 | Balans y Cyfrif Refeniw Tai £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio £000 | Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | 1,788 | 10,229 | 27,581 | 3,647 | 917 | **44,162** | 656,216 | **700,378** |
| Gwarged/(diffyg) ar ddarparu gwasanaethau * | | 0 | 0 | (110,668) | 0 | (121,262) | **(231,930)** | 0 | **(231,930)** |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 8,938 | **8,938** |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr *** | | **0** | **0** | **(110,668)** | **0** | **(121,262)** | **(231,930)** | **8,938** | **(222,992)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau * | **9** | 3,030 | (3,323) | 110,333 | 1,357 | 121,837 | **233,234** | (233,234) | **0** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi** | | **3,030** | **(3,323)** | **(335)** | **1,357** | **575** | **1,304** | **(224,296)** | **(222,992)** |
| Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | | **3,030** | **(3,323)** | **(335)** | **1,357** | **575** | **1,304** | **(224,296)** | **(222,992)** |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | | 4,818 | 6,906 | 27,246 | 5,004 | 1,492 | **45,466** | 431,920 | **477,386** |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

Mae addasiad yng nghyswllt cyfnod blaenorol yn adlewyrchu cyfrifiad diwygiedig ar gyfer amhariad a ddangoswyd mewn perthynas ag anheddau'r Cyngor (o'r £84,122,000 a gofnodwyd yn flaenorol i £118,876,000). Mae'r addasiad hwn i'w weld hefyd mewn ffigurau cymharol cysylltiedig ar gyfer 2009/10 yn y Datganiad Cyfrifon.

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 2011 Gwariant Gros | 2011 Incwm Gros | 2011 Gwariant Net | 2010 Gwariant Gros | 2010 Incwm Gros | 2010 Gwariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o Wariant ar Wasanaethau** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gofal cymdeithasol i oedolion | | 58,969 | 16,921 | 42,048 | 56,020 | 16,414 | 39,606 |
| Gwasanaethau canolog i'r cyhoedd | | 2,953 | 1,569 | 1,384 | 3,569 | 1,754 | 1,815 |
| Addysg a gwasanaethau plant | | 158,369 | 24,768 | 133,601 | 236,470 | 26,009 | 210,461 |
| Gwasanaethau diwylliannol, amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio | | 64,734 | 24,364 | 40,370 | 70,315 | 17,206 | 53,109 |
| Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth | | 27,094 | 8,677 | 18,417 | 24,782 | 9,083 | 15,699 |
| Gwasanaethau tai: | | | | | | | |
| Tai - Cronfa'r Cyngor | | 54,840 | 49,658 | 5,182 | 51,397 | 48,382 | 3,015 |
| Cyfrif Refeniw Tai* | | 26,079 | 24,058 | 2,021 | 142,573 | 23,676 | 118,897 |
| Craidd corfforaethol a democrataidd | | 2,350 | 16 | 2,334 | 1,756 | 16 | 1,740 |
| Costau na ddosbarthwyd | | 3,697 | 0 | 3,697 | 6,837 | 0 | 6,837 |
| Costau eithriadol na ddosbarthwyd ** | | (34,157) | 0 | (34,157) | 0 | 0 | 0 |
| Gostwng gwerth costau peiriannau a chyfarpar *** | | 0 | 0 | 0 | 3,871 | 0 | 3,871 |
| **Cost net gwasanaethau *** | | **364,928** | **150,031** | **214,897** | **597,590** | **142,540** | **455,050** |
| **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | | | | |
| Elw net o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | | | | (323) | | | (648) |
| Ardoll - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | | | | 7,119 | | | 6,973 |
| Praesept - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | **6** | | | 12,186 | | | 11,793 |
| Praeseptwyr eraill - cynghorau cymuned | **6** | | | 2,119 | | | 2,040 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu Arall** | | | | **21,101** | | | **20,158** |
| **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | | | | |
| Llog taladwy a thaliadau tebyg | **3** | | | 9,970 | | | 10,056 |
| Colledion buddsoddi a gwariant buddsoddi | **3,4** | | | 5,326 | | | 8,605 |
| Incwm llog a buddsoddiadau | **3** | | | (6,197) | | | (8,005) |
| Cost llog pensiynau | **3,5** | | | 32,897 | | | 30,299 |
| Elw disgwyliedig ar asedau pensiynau | **3,5** | | | (22,906) | | | (17,024) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | **19,090** | | | **23,931** |
| **Gwariant gweithredu net *** | | | | **255,088** | | | **499,139** |
| **Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol** | | | | | | | |
| Incwm o'r Dreth Gyngor | **6** | | | (67,384) | | | (65,151) |
| Dosbarthiad o'r gronfa ardrethi annomestig | **7** | | | (42,236) | | | (40,437) |
| Grantiau - refeniw (cyffredinol) a chyfalaf (pob un) | **8** | | | (166,478) | | | (161,621) |
| **Cyfanswm Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol** | | | | **(276,098)** | | | **(267,209)** |
| **(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau *** | | | | **(21,010)** | | | **231,930** |
| (Gwarged)/diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol * | | | | (4,231) | | | (74,805) |
| (Gwarged)/diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | | | (14) | | | 66 |
| (Enillion) neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau | | | | (15,729) | | | 66,121 |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | | | | 353 | | | (320) |
| **Cyfanswm incwm neu wariant cynhwysfawr** | | | | **(40,631)** | | | **222,992** |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

** Enillion oherwydd y newid mewn buddion cynllun – cymhwyso Mynegai Prisiau Defnyddwyr i bensiynau a gyfrifwyd o'r blaen ar sail Mynegai Prisiau Manwerthu.

** * gwerthoedd asedau perthnasol, yn hytrach nag ar ffurf eitemau unigol y gellir eu hadnabod yn benodol - 2009/10 oedd y flwyddyn olaf pan oedd gostyngiadau'n ofynnol.

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y gost, o ran cyfrifyddu, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'n unol ag arferion cyfrifyddu a derbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o drethi lleol.

# Y FANTOLEN
ar 31 Mawrth 2011

| | | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | | | | | | |
| **Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar** | **20,22,23** | | | | | | |
| Anheddau'r Cygor * | | 293,286 | | 293,961 | | 386,415 | |
| Tir ac adeiladau eraill | | 344,344 | | 349,035 | | 407,648 | |
| Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar | | 6,941 | | 6,935 | | 11,776 | |
| Asedau dros ben | | 7,919 | | 8,747 | | 10,501 | |
| Asedau seilwaith | | 154,016 | | 153,821 | | 150,208 | |
| Asedau cymunedol | | 9,458 | | 9,134 | | 7,853 | |
| Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | | 1,700 | | 681 | | 9,177 | |
| **Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar** | | | 817,664 | | 822,314 | | 983,578 |
| Eiddo buddsoddi | **21,22,23** | | 27,006 | | 27,313 | | 28,423 |
| Yr ystâd amaethyddol | **21,22,23** | | 14,493 | | 14,493 | | 12,439 |
| Asedau anniriaethol | **19** | | 628 | | 693 | | 417 |
| Buddsoddiadau hirdymor | **24,38** | | 2,628 | | 612 | | 7,123 |
| Dyledwyr hirdymor | **25** | | 591 | | 299 | | 278 |
| **CYFANSWM ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | | 863,010 | | 865,724 | | 1,032,258 |
| | | | | | | | |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | | | |
| Stociau | **26** | 1,264 | | 1,031 | | 1,210 | |
| Dyledwyr byrdymor (heb gynnwys darpariaeth ar gyfer amhariadau) | **27** | 28,187 | | 30,096 | | 23,960 | |
| Buddsoddiadau byrdymor | **28** | 10,410 | | 6,947 | | 7,889 | |
| Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod | **29** | 39,982 | | 28,964 | | 27,795 | |
| Asedau a gedwir i'w gwerthu | **30** | 9,493 | | 9,473 | | 756 | |
| **CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL** | | | 89,336 | | 76,511 | | 61,610 |
| | | | | | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | | | |
| Benthyciadau i'w had-dalu yn ôl y galw neu cyn pen 12 mis | **31** | (5,803) | | (1,330) | | (1,329) | |
| Credydwyr byrdymor | **32** | (33,108) | | (28,524) | | (30,578) | |
| Darpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig | **34** | (3,598) | | (2,810) | | (3,762) | |
| Rhwymedigaethau gohiriedig | **15** | (363) | | (454) | | (368) | |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | (42,872) | | (33,118) | | (36,037) |
| | | | | | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | | | | | | |
| Credydwyr hirdymor | **32** | (2,205) | | (2,471) | | (2,192) | |
| Benthyciadau hirdymor | **33,38** | (173,744) | | (173,613) | | (173,613) | |
| Rhwymedigaethau gohiriedig | **35** | (2,065) | | (1,742) | | (873) | |
| Darpariaethau | **34** | (10,140) | | (4,975) | | (71) | |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | **5** | (203,303) | | (248,930) | | (180,704) | |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | | (391,457) | | (431,731) | | (357,453) |
| | | | | | | | |
| **ASEDAU NET** | | | 518,017 | | 477,386 | | 700,378 |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol

# Y FANTOLEN

ar 31 Mawrth 2011 (parhad)

| | | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO** | | | | | | | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer derbyniadau cyfalaf | **36** | 6,227 | | 4,818 | | 1,788 | |
| Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd | **36** | 9,144 | | 6,906 | | 10,229 | |
| Cronfa'r Cyngor | **36** | 34,111 | | 27,246 | | 27,581 | |
| Cyfrif refeniw tai | **36** | 1,614 | | 1,492 | | 917 | |
| Cronfeydd wrth gefn penodol | **36** | 4,690 | | 5,004 | | 3,647 | |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO** | | | 55,786 | | 45,466 | | 44,162 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO** | | | | | | | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio | **37** | 114,579 | | 112,792 | | 44,082 | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | **37** | 254 | | 240 | | 306 | |
| Cyfrif addasu cyfalaf * | **37** | 574,061 | | 586,629 | | 807,631 | |
| Cyfrif addasu offerynnau ariannol | **37** | (9,679) | | (11,131) | | (11,394) | |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau | **37** | (203,303) | | (248,930) | | (180,704) | |
| Cyfrif ôl-daliadau cyflog cyfartal | **37** | (10,099) | | (4,903) | | 0 | |
| Derbyniadau cyfalaf gohiriedig | **37** | 16 | | 33 | | 57 | |
| Cyfrif absenoldebau cronedig | **37** | (3,598) | | (2,810) | | (3,762) | |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO** | | | 462,231 | | 431,920 | | 656,216 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | | 518,017 | | 477,386 | | 700,378 |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol

# DATGANIAD LLIF ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Mae’r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac elfennau sy’n cyfateb i arian parod, sy’n perthyn i’r Awdurdod, yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. Mae’r datganiad yn dangos sut y mae’r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac elfennau sy’n cyfateb i arian parod, drwy ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy’n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o ran y graddau y caiff gweithrediadau’r Awdurdod eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y sawl sy’n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli’r graddau y darparwyd all-lifoedd arian ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i’r modd y bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy’n deillio o weithgareddau ariannu’n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifoedd arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. arian a fenthyciwyd) i’r Awdurdod.

| | **Nodyn** | **2011** | | **2010** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gwarged neu (ddiffyg) net ar ddarparu gwasanaethau * | | 21,010 | | (231,930) | |
| Addasu gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn rhai arian parod | | 18,276 | | 256,481 | |
| Addasu ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau, sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | | (22,028) | | (21,944) | |
| All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu | **45** | | 17,258 | | 2,607 |
| All-lifoedd arian parod net o weithgareddau buddsoddi | **46** | (6,074) | | (5,087) | |
| All-lifoedd arian parod net o weithgareddau ariannu | **47** | 494 | | 1,025 | |
| | | | (5,580) | | (4,062) |
| **Cynnydd neu ostyngiad net mewn arian parod neu elfennau sy'n cyfateb i arian parod** | | | 11,678 | | (1,455) |
| Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod yr adroddir yn ei gylch | **29** | | 28,964 | | 27,795 |
| Arall | | | (660) | | 2,624 |
| **Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch** | **29** | | **39,982** | | **28,964** |

* Adroddir ynghylch y datganiad llif arian gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol, lle caiff gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ei addasu ar gyfer effeithiau trafodion nad ydynt yn rhai arian parod, unrhyw ohiriadau neu groniadau'n ymwneud â derbyniadau neu daliadau arian parod gweithredu yn y gorffennol neu'r dyfodol, a refeniw neu draul sy'n gysylltiedig â llifoedd arian buddsoddi neu ariannu

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

## 1. NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL

Y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2010/11 yw'r datganiad cyntaf i'w baratoi ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae mabwysiadu'r Cod sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol wedi arwain at ailddatgan amryw falansau a thrafodion, ac o ganlyniad mae rhai o'r symiau a nodir yn y datganiadau ariannol yn wahanol i'r ffigurau cyfatebol a nodir yn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2009/10.

Mae'r tablau canlynol yn esbonio'r gwahaniaethau pwysig rhwng y symiau a nodwyd yn natganiadau ariannol 2009/10 a'r symiau cyfatebol a nodwyd yn natganiadau ariannol 2010/11; mae gwahaniaethau eraill llai pwysig yn rhoi cyfrif am falans y cyfansymiau hynny a ailddatganwyd ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, nad ymdrinnir â nhw yn y tablau.

### Absenoldebau Cronnol Byrdymor y Digolledir Amdanynt

Mae absenoldebau cronnol byrdymor y digolledir amdanynt yn cyfeirio at fuddion a gaiff gweithwyr yn rhan o'u contract cyflogaeth, y bydd eu hawl iddynt yn cronni wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r Awdurdod. Y budd mwyaf sylweddol y mae'r pennawd hwn yn ymdrin ag ef yw tâl gwyliau.

Bydd gweithwyr yn cronni hawl i wyliau gyda thâl wrth iddynt weithio. Dan y Cod, mae'n ofynnol i gost darparu gwyliau a buddion tebyg gael ei chydnabod pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau yn y dyfodol y digolledir amdanynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gronni ar gyfer unrhyw wyliau blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Dan y trefniadau cyfrifyddu blaenorol, nid oedd croniad o'r fath yn ofynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n golygu mai'r unig adeg y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyllido tâl gwyliau a buddion tebyg yw pan gânt eu defnyddio, yn hytrach na phan fydd gweithwyr yn eu hennill. Caiff symiau eu trosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig nes caiff y buddion eu defnyddio.

Mae cronni ar gyfer absenoldebau cronnol byrdymor y digolledir amdanynt wedi arwain at wneud y newidiadau canlynol i ddatganiadau ariannol 2009/10:

### Mantolen agoriadol 1 Ebrill 2009 –

| | Datganiadau 2009/10 (SORP) £000 | Addasiadau a wnaed £000 | Datganiadau 2009/10 (Cod) £000 |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau cyfredol | 0 | 3,762 | 3,762 |
| Cyfrif absenoldebau cronedig | 0 | 3,762 | 3,762 |

### Mantolen 31 Mawrth 2010 –

| | Datganiadau 2009/10 (SORP) £000 | Addasiadau a wnaed £000 | Datganiadau 2009/10 (Cod) £000 |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau cyfredol | 0 | 2,810 | 2,810 |
| Cyfrif absenoldebau cronedig | 0 | 2,810 | 2,810 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 1. NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (parhad)

### Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2009/10 –

### Cost Gwasanaethau (Net):

| | Datganiadau 2009/10 | Addasiadau a wnaed |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gofal cymdeithasol i oedolion | 39,892 | (225) |
| Gwasanaethau canolog i'r cyhoedd | 1,590 | (1) |
| Addysg a gwasanaethau plant | 210,851 | (642) |
| Gwasanaethau diwylliannol, amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio | 55,473 | (39) |
| Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth | 14,244 | (11) |
| Tai – Cronfa'r Cyngor | 2,940 | (13) |
| Cyfrif Refeniw Tai | 83,528 | (22) |
| Craidd corfforaethol a democrataidd | 6,834 | (2) |
| Costau na ddosbarthwyd | 3,871 | 3 |

### Prydlesi

Dan y Cod, rhoddir cyfrif am brydlesi eiddo fel prydlesi tir ac adeiladau ar wahân. Yn flaenorol, byddai camau wedi'u cymryd i roi cyfrif am bob prydles eiddo fel prydles unigol. Gall y newid yn y driniaeth o ran cyfrifyddu olygu y rhoddir cyfrif am elfen dir neu adeiladau'r brydles fel prydles weithredu lle câi ei thrin yn flaenorol fel prydles gyllid, neu fel prydles gyllid lle câi ei thrin yn flaenorol fel prydles weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â chyfrifyddu ar gyfer prydlesi. Dan y trefniadau hyn, ni fydd y swm blynyddol a ddangosir yng Nghronfa'r Cyngor (os yr Awdurdod yw deiliad y brydles) yn newid.

Os yr Awdurdod yw'r prydleswr, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r Awdurdod barhau i drin yr incwm o brydlesi cyfredol yn yr un modd ag yr oedd yn rhoi cyfrif am yr incwm cyn cyflwyno'r Cod.

Mae gan yr Awdurdod un brydles eiddo y mae'r driniaeth o ran cyfrifyddu wedi newid ar ei chyfer ar ôl cyflwyno'r Cod. Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod 24 o brydlesi cyfarpar lle mae'r driniaeth o ran cyfrifyddu wedi newid (roedd 22 ohonynt yn bod cyn 1 Ebrill 2009 ac ymrwymwyd i ddwy ohonynt yn ystod 2009/10). Yn flaenorol câi'r prydlesi hyn eu hystyried yn brydlesi gweithredu, ond dan y Cod dylid eu cydnabod fel prydlesi cyllid.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 1. NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (parhad)

O ganlyniad i ystyried y prydlesi hyn yn brydlesi cyllid, mae'r datganiadau ariannol wedi'u diwygio fel a ganlyn:

- Mae'r Awdurdod wedi cydnabod yr asedau a'r rhwymedigaethau o ran prydlesi cyllid yn y fantolen.
- Mae'r swm a ddangosir yng nghyswllt prydlesi gweithredu yn y llinellau perthnasol yng nghost net gwasanaethau wedi'i leihau'n unol â'r swm sy'n gysylltiedig â'r elfen adeiladau yn nhaliadau'r prydlesi.
- Mae swm ar gyfer dibrisiant wedi'i gynnwys yn y llinellau perthnasol yng nghost net gwasanaethau.
- Mae'r swm ar gyfer dibrisiant wedi'i drosglwyddo o Gronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r trosglwyddiad hwn wedi'i adlewyrchu ym Mantolenni 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010, ac adroddir ynghylch yr addasiadau sy'n ymwneud â 2009/10 yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn.
- Caiff yr elfen log mewn taliadau prydlesi ei dangos yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

Mae hynny wedi arwain at wneud y newidiadau canlynol i ddatganiadau ariannol 2009/10:

### Mantolen agoriadol 1 Ebrill 2009 –

| | **Datganiadau 2009/10 (SORP) £000** | **Addasiadau a wnaed £000** | **Datganiadau 2009/10 (Cod) £000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar (asedau a brydlesir) | 0 | 2,009 | 2,009 |
| Rhwymedigaeth a ohiriwyd (prydlesi cyllid) | 0 | 1,241 | 1,241 |
| Cyfrif addasu cyfalaf (prydlesi cyllid) | 0 | 768 | 768 |

### Mantolen 31 Mawrth 2010 (symudiadau yn ystod y flwyddyn) –

| | **Datganiadau 2009/10 (SORP) £000** | **Addasiadau a wnaed £000** | **Datganiadau 2009/10 (Cod) £000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar (asedau a brydlesir) | 0 | (211) | (211) |
| Rhwymedigaeth a ohiriwyd (prydlesi cyllid) | 0 | 70 | 70 |
| Cyfrif addasu cyfalaf (prydlesi cyllid) | 0 | 141 | 141 |

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 1. NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (parhad)

### Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2009/10 –

### Cost Gwasanaethau (Net):

| | Datganiadau 2009/10 £000 | Addasiadau a wnaed £000 |
|---|---|---|
| Addysg a gwasanaethau plant | 210,851 | 35 |
| Gwasanaethau diwylliannol, amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio | 55,473 | (89) |
| Tai – Cronfa'r Cyngor | 2,930 | 8 |
| Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi | 9,466 | 185 |

Caiff y cynnydd net yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ei ddileu drwy drosglwyddo'r swm ar gyfer dibrisiant i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff y trosglwyddiad hwn ei ddangos yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

### Grantiau'r Llywodraeth

Dan y Cod, caiff grantiau a chyfraniadau ar gyfer cynlluniau cyfalaf eu cydnabod fel incwm pan ddônt yn dderbyniadwy. Yn flaenorol, câi grantiau eu cadw mewn cyfrif grantiau gohiriedig a'u cydnabod fel incwm dros oes yr asedau y cafodd y grantiau eu defnyddio i'w cyllido.

O ganlyniad i fabwysiadu'r polisi cyfrifyddu sy'n ofynnol gan y Cod, mae'r datganiadau ariannol wedi'u diwygio fel a ganlyn:

- Mae balans Cyfrif Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2009 wedi'i drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ym mantolen agoriadol 1 Ebrill 2009.
- Câi cyfrannau o grantiau gohiriedig y llywodraeth eu cydnabod yn flaenorol fel incwm yn 2009/10; mae'r rhain wedi'u symud o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y ffigurau cymharol.
- Ar gyfer grantiau a gafwyd yn 2009/10 ond na ddefnyddiwyd, ni châi unrhyw incwm ei gydnabod yn flaenorol mewn perthynas â'r grantiau hyn, a châi ei ddangos yn y Cyfrif Grantiau na Ddefnyddiwyd yn yr adran ar gyfer rhwymedigaethau yn y fantolen. Yn dilyn y newid mewn polisi cyfrifyddu, mae'r grantiau wedi eu cydnabod yn llawn, a'u trosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd yn yr adran ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn y fantolen.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 1. NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (parhad)

Mae hynny wedi arwain at wneud y newidiadau canlynol i ddatganiadau ariannol 2009/10:

### Mantolen agoriadol 1 Ebrill 2009 –

| | Datganiadau 2009/10 (SORP) £000 | Addasiadau a wnaed £000 | Datganiadau 2009/10 (Cod) £000 |
|---|---|---|---|
| Cyfrif grantiau gohiriedig y Llywodraeth | 92,488 | (92,488) | 0 |
| Cyfrif addasu cyfalaf | 0 | 92,488 | 92,488 |
| Grantiau a chyfraniadau na ddefnyddiwyd (rhwymedigaethau) | 10,229 | (10,229) | 0 |
| Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd (cronfeydd wrth gefn) | 0 | 10,229 | 10,229 |

### Mantolen 31 Mawrth 2010 (symudiadau yn ystod y flwyddyn) –

| | Datganiadau 2009/10 (SORP) £000 | Addasiadau a wnaed £000 | Datganiadau 2009/10 (Cod) £000 |
|---|---|---|---|
| Cyfrif grantiau gohiriedig y Llywodraeth | 14,612 | (14,612) | 0 |
| Cyfrif addasu cyfalaf | 0 | 14,612 | 14,612 |
| Grantiau a chyfraniadau na ddefnyddiwyd (rhwymedigaethau) | (3,323) | 3,323 | 0 |
| Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd (cronfeydd wrth gefn) | 0 | (3,323) | (3,323) |

### Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2009/10 –

### Cost Gwasanaethau (Net):

| | Datganiadau 2009/10 £000 | Addasiadau a wnaed £000 |
|---|---|---|
| Gofal cymdeithasol i oedolion | 39,892 | 22 |
| Addysg a gwasanaethau plant | 210,851 | 54 |
| Gwasanaethau diwylliannol, amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio | 55,473 | 54 |
| Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth | 14,244 | 183 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 83,528 | 134 |
| Grantiau'r Llywodraeth – cyffredinol | (139,074) | (18,328) |

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

## 2. ADRODD YNGHYLCH CYLCHRANNAU

Y dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r dadansoddiad a nodir gan God Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau. Fodd bynnag, caiff penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau eu gwneud gan Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod ar sail adroddiadau ynghylch y gyllideb, a ddadansoddir ar draws cyfarwyddiaethau. Caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- ni ddangosir unrhyw symiau mewn perthynas â gwariant cyfalaf (tra caiff colledion oherwydd dibrisiant, ailbrisiadau ac amhariadau, sy'n fwy na'r balans yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio, ac amorteiddiadau eu dangos yng nghyswllt gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)

- cyllidebir yn ganolog ar gyfer gwariant ar rai gwasanaethau cymorth, ac ni chaiff y gwariant ei ddangos yng nghyswllt cyfarwyddiaethau.

Mae incwm a gwariant prif gyfarwyddiaethau'r Awdurdod, a gofnodwyd yn yr adroddiadau ynghylch y gyllideb ar gyfer y flwyddyn, fel a ganlyn:

| **2010/11** | | **Gwasanaethau Cymunedol** | **Amgylchedd** | **Dysgu Gydol Oes** | **Gwasanaethau Corfforaethol** | **Cyllid Canolog a Chorfforaethol** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Incwm** | Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaethau eraill | (8,881) | (32,422) | (14,263) | (47,655) | (14,418) | (21,546) | **(139,185)** |
| | Grantiau'r llywodraeth | (10,860) | (7,823) | (19,616) | (438) | 0 | (6,391) | **(45,128)** |
| | Cyfanswm | (19,741) | (40,245) | (33,879) | (48,093) | (14,418) | (27,937) | **(184,313)** |
| **Gwariant** | Treuliau gweithwyr | 31,573 | 24,921 | 109,144 | 13,706 | 5,166 | 6,417 | **190,927** |
| | Treuliau gwasanaethau eraill | 42,174 | 47,109 | 37,211 | 52,373 | 34,021 | 21,484 | **234,372** |
| | Cyfanswm | 73,747 | 72,030 | 146,355 | 66,079 | 39,187 | 27,901 | **425,299** |
| **Alldro Terfynol** | | **54,006** | **31,785** | **112,476** | **17,986** | **24,769** | **(36)** | **240,986** |

## NODIADAU AR Y DATGANIADADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 2. ADRODD YNGHYLCH CYLCHRANNAU (parhad)

| **2009/10** | | **Gwasanaethau Cymunedol** | **Amgylchedd** | **Dysgu Gydol Oes** | **Gwasanaethau Corfforaethol** | **Cyllid Canolog a Chorfforaethol** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Incwm** | Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaethau eraill | (5,464) | (25,352) | (12,403) | (3,067) | (40,649) | (57,362) | **(144,297)** |
| | Grantiau'r llywodraeth | (14,292) | (11,615) | (22,101) | (42,501) | 0 | 6,441 | **(84,068)** |
| | Cyfanswm | (19,756) | (36,967) | (34,504) | (45,568) | (40,649) | (50,921) | **(228,365)** |
| **Gwariant** | Treuliau gweithwyr | 32,475 | 25,388 | 107,019 | 14,682 | 5,552 | 6,424 | **191,540** |
| | Treuliau gwasanaethau eraill | 40,561 | 42,750 | 37,846 | 48,947 | 57,037 | 43,937 | **271,078** |
| | Cyfanswm | 73,036 | 68,138 | 144,865 | 63,629 | 62,589 | 50,361 | **462,618** |
| **Alldro Terfynol** | | **53,280** | **31,171** | **110,361** | **18,061** | **21,940** | **(560)** | **234,253** |

### Cysoni Incwm a Gwariant Cyfarwyddiaethau â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut y mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant cyfarwyddiaethau'n perthyn i'r symiau a gaiff eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | **2010/11** | **2009/10** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Alldro terfynol | 240,986 | 234,253 |
| Ychwanegu symiau nad adroddwyd yn eu cylch wrth y rheolwyr * | 3,380 | 274,427 |
| Symud symiau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y rheolwyr, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (29,469) | (53,630) |
| **Cost Net Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 214,897 | 455,050 |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

### Cysoni â Dadansoddiad Goddrychol

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut y mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant cyfarwyddiaethau'n perthyn i ddadansoddiad goddrychol o'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, a gaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 2. ADRODD YNGHYLCH CYLCHRANNAU (parhad)

| Cysoni â Dadansoddiad Goddrychol (Endid Sengl) 2010/11 | Dadansoddi Gwas'au | Heb adrodd wrth y rheolwyr | Heb gynnwys mewn I. a G. | Cost Net Gwas'au | Symiau Corff'thol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaethau eraill | (139,185) | 0 | 0 | **(139,185)** | 0 | **(139,185)** |
| Incwm llog a buddsoddi | 0 | 0 | 0 | **0** | (29,103) | **(29,103)** |
| Incwm o'r dreth gyngor | 0 | 0 | 0 | **0** | (67,384) | **(67,384)** |
| Dosbarthwyd o'r gronfa ardrethi annomestig | 0 | 0 | 0 | **0** | (42,236) | **(42,236)** |
| Cyfraniadau a grantiau'r llywodraeth | (45,128) | 0 | 0 | **(45,128)** | (166,478) | **(211,606)** |
| Enillion neu golledion o werthu asedau sefydlog | 0 | 0 | | **0** | (323) | **(323)** |
| **Cyfanswm incwm** | **(184,313)** | **0** | **0** | **(184,313)** | **(305,524)** | **(489,837)** |
| | | | | | | |
| Treuliau gweithwyr | 190,927 | 0 | 0 | **190,927** | 0 | **190,927** |
| Treuliau gwasanaethau eraill | 234,372 | (52,303) | (8,178) | **173,891** | 0 | **173,891** |
| Ailgodi taliadau Gwasanaethau Cymorth | 0 | 21,291 | (21,291) | **0** | 0 | **0** |
| Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad | 0 | 34,392 | 0 | **34,392** | 0 | **34,392** |
| Taliadau llog | 0 | 0 | 0 | **0** | 48,193 | **48,193** |
| Praeseptau ac ardollau | 0 | 0 | 0 | **0** | 21,424 | **21,424** |
| **Cyfanswm treuliau gweithredu** | **425,299** | **3,380** | **(29,469)** | **399,210** | **69,617** | **468,827** |
| | | | | | | |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **240,986** | **3,380** | **(29,469)** | **214,897** | **(235,907)** | **(21,010)** |

| Cysoni â Dadansoddiad Goddrychol (Endid Sengl) 2009/10 | Dadansoddi Gwas'au | Heb adrodd wrth y rheolwyr | Heb gynnwys mewn I. a G. | Cost Net Gwas'au | Symiau Corff'thol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffïoedd, taliadau ac incwm gwasanaethau eraill | (144,297) | (225) | 0 | **(144,522)** | 0 | **(144,522)** |
| Incwm llog a buddsoddi | 0 | 0 | 4,873 | **4,873** | (25,029) | **(20,156)** |
| Incwm o'r dreth gyngor | 0 | 0 | 0 | **0** | (65,151) | **(65,151)** |
| Dosbarthwyd o'r gronfa ardrethi annomestig | 0 | 0 | 0 | **0** | (40,437) | **(40,437)** |
| Cyfraniadau a grantiau'r llywodraeth | (84,068) | 2,774 | 0 | **(81,294)** | (161,621) | **(242,915)** |
| Enillion neu golledion o werthu asedau sefydlog | 0 | 0 | 0 | **0** | (648) | **(648)** |
| **Cyfanswm incwm** | **(228,365)** | **2,549** | **4,873** | **(220,943)** | **(292,886)** | **(513,829)** |
| | | | | | | |
| Treuliau gweithwyr | 191,541 | 5,697 | (952) | **196,286** | 0 | **196,286** |
| Treuliau gwasanaethau eraill | 271,077 | 148,357 | (27,781) | **391,653** | 0 | **391,653** |
| Ailgodi taliadau Gwasanaethau Cymorth | 0 | 22,294 | (22,294) | **0** | 0 | **0** |
| Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad * | 0 | 95,530 | 0 | **95,530** | 0 | **95,530** |
| Taliadau llog | 0 | 0 | (7,476) | **(7,476)** | 48,960 | **41,484** |
| Praeseptau ac ardollau | 0 | 0 | 0 | **0** | 20,806 | **20,806** |
| **Cyfanswm treuliau gweithredu** | **462,618** | **271,878** | **(58,503)** | **675,993** | **69,766** | **745,759** |
| | | | | | | |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **234,253** | **274,427** | **(53,630)** | **455,050** | **(223,120)** | **231,930** |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**
parhad

## 3. INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

Mae taliadau llog a thaliadau tebyg o £9,970,000 (£10,056,000 yn 2009/10) ynghyd â cholledion buddsoddi o £99,000 (£1,680,000 yn 2009/10) a gwariant buddsoddi o £5,227,000 (£6,925,000 yn 2009/10) sy'n dod i gyfanswm o £5,326,000 (£8,605,000 yn 2009/10), cost llog pensiynau a'r elw a ddisgwylir ar asedau pensiynau, sef £9,991,000 (£13,275,000 yn 2009/10) a llog ac incwm buddsoddi o £6,197,000 (£8,005,000 yn 2009/10) yn cynhyrchu cyfanswm net cyfanredol o £19,090,000 (£23,931,000 yn 2009/10).

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llog taladwy a thaliadau tebyg | 9,970 | 10,056 |
| Colledion buddsoddi a gwariant buddsoddi (gweler y dadansoddiad yn nodyn 4 isod) | 5,326 | 8,605 |
| Cost llog pensiynau a'r elw disgwyliedig ar asedau pensiynau | 9,991 | 13,275 |
| Llog ac incwm buddsoddi | (6,197) | (8,005) |
| | 19,090 | 23,931 |

## 4. COLLEDION BUDDSODDI

Mae amhariad o £99,000 net (£1,680,000 yn 2009/10) a gwariant buddsoddi o £5,227,000 (£6,925,000 yn 2009/10) wedi'u cydnabod.

| | | 2011 | | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Amhariad ar eiddo buddsoddi | | 234 | | | 1,329 | |
| Addasiadau oherwydd amhariad - Landsbanki | 28 | | | 535 | | |
| Namyn llog derbyniadwy | (163) | | | (184) | | |
| | | (135) | | | 351 | |
| | | | 99 | | | 1,680 |
| Gwariant (eiddo) buddsoddi | | | 5,227 | | | 6,925 |
| | | | 5,326 | | | 8,605 |

Mae colledion oherwydd amhariadau'n ymwneud ag eiddo buddsoddi yn cyfrif am £234,000 o'r cyfanswm net, a gwneir iawn am hynny gan addasiad net o £135,000 yn ymwneud â buddsoddiadau ym manc Landsbanki yng Ngwlad yr Iâ, a aeth i'r wal ym mis Hydref 2008. Mae £3,700,000 o arian y Cyngor wedi'i adneuo gyda Landsbanki, ac mae'r dyddiadau aeddfedu a'r cyfraddau llog sy'n berthnasol iddo'n amrywio :-

| Dyddiad buddsoddi | Dyddiad aeddfedu | Swm a fuddsoddwyd £000 | Cyfradd llog % |
|---|---|---|---|
| 22/07/08 | 17/10/08 | 1,200 | 5.82 |
| 01/09/08 | 14/11/08 | 1,500 | 5.70 |
| 08/09/08 | 18/11/09 | 1,000 | 5.67 |

Ar hyn o bryd, mae'r holl arian yn rhwym wrth y broses weinyddu – y gweinyddwyr fydd yn penderfynu ynghylch symiau ac amseru taliadau i adneuwyr. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu y gallai fod modd adennill 94.86% o werth yr arian a adneuwyd; mae'r Awdurdod wedi cydnabod amhariad ar sail y symiau yr amcangyfrifir y cânt eu hadennill, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2011.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

### 4. COLLEDION BUDDSODDI (parhad)

Nid yw’r wybodaeth sydd ar gael yn derfynol ynghylch symiau ac amseru’r taliadau a wneir gan y gweinyddwyr, ac mae’n debygol y caiff y cyfrifon eu haddasu ymhellach eto yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, mae’r addasiad gros ar gyfer amhariad yn 2010/11 (£28,000), a gaiff ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, wedi’i gyfrifo drwy ddisgowntio’r llifoedd arian tybiedig ar sail cyfradd llog yr adneuon gwreiddiol er mwyn cydnabod y llog y rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn ei golli nes caiff yr arian ei adennill yn llawn. Bydd y tybiaethau’n cael eu haddasu mewn cyfrifon yn y dyfodol wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

Mae’r ansicrwydd a’r risgiau canlynol yn gysylltiedig ag adennill yr arian:

- Mae llys sirol Gwlad yr Iâ wedi dyfarnu statws o ran blaenoriaeth i adneuon, ond gallai fod apêl i’r Goruchaf Lys yn erbyn y dyfarniad.

- Effaith y newidiadau yn y gyfradd gyfnewid ar werth yr asedau a gaiff eu hadennill gan y pwyllgor datrys ac ar y broses o setlo hawliad yr Awdurdod, a allai gael ei dalu’n rhannol neu’n gyfan gwbl mewn arian heblaw sterling. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir i’r newidiadau hyn fod yn sylweddol, er y gallai hynny newid yn y dyfodol.

Byddai unrhyw newid i statws credydwyr o ran blaenoriaeth yn cael effaith sylweddol ar swm yr adneuon y bydd modd eu hadennill. Mae holl asedau’r banc yn cyfateb i draean yn unig o’i ddyledion, a bwrw bod gwerth y bond yn aros fel y mae. Felly, os caiff statws credydwyr o ran blaenoriaeth ei ddileu, mae’n bosibl mai dim ond 29% fydd y swm y gellir ei adennill.

Nid oes dim gwybodaeth wedi’i darparu gan y pwyllgor datrys am amseru unrhyw daliad i adneuwyr. Gan fod disgwyl y bydd angen gwireddu holl asedau Landsbanki er mwyn ad-dalu credydwyr â blaenoriaeth, mae’n annhebygol y bydd y setliad ar ffurf un swm. Felly, rhagdybir y gwneir yr ad-daliad fel a ganlyn –

| **Dyddiad** | **%** |
|---|---|
| Rhagfyr 2011 | 22.17 |
| Rhagfyr 2012 | 8.87 |
| Rhagfyr 2013 | 8.87 |
| Rhagfyr 2014 | 8.87 |
| Rhagfyr 2015 | 8.87 |
| Rhagfyr 2016 | 8.87 |
| Rhagfyr 2017 | 8.87 |
| Rhagfyr 2018 | 19.47 |
| | 94.86 |

Manteisiodd y Cyngor ar y Rheoliadau Cyllid Cyfalaf i ohirio effaith yr amhariad ar Gronfa’r Cyngor tan 2010/11. Mae’r swm cronnus ar gyfer yr amhariad, sef £791,000 net (fel y nodir isod), wedi’i drosglwyddo’n awr i Gronfa’r Cyngor –

| **Blwyddyn** | **£000** |
|---|---|
| 2008/09 | 575 |
| 2009/10 | 351 |
| 2010/11 | (135) |
| | 791 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 5. PENSIYNAU

### Athrawon:

Yn 2010/11, talodd y Cyngor £7,331,000 i'r Adran Addysg yng nghyswllt costau pensiynau athrawon (£7,313,000 yn 2009/10), sef 14.10% (ar gyfartaledd) o gyflog pensiynadwy athrawon (14.11% yn 2009/10).

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol a ddyfarnwyd ganddo, ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2009/10 roedd y rhain yn cyfateb i £476,000 (£434,000 yn 2009/10), sef 0.92% o gyflog pensiynadwy (0.84% yn 2009/10).

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun buddion diffiniedig, ond caiff ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig at ddibenion cyfrifyddu gan nad yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei gyfran ef o asedau a rhwymedigaethau.

### Gweithwyr eraill:

Talodd y Cyngor £2,000 i Gronfa Bensiynau Clwyd yn ystod 2010/11 mewn perthynas â llog ar falansau arian (£66,000 yn 2009/10), a chafodd £847,000 o'r gronfa at ddibenion gweinyddu buddion a gwasanaethau cymorth canolog eraill (£905,000 yn 2009/10).

Caiff effaith swm costau pensiynau ar y fantolen a'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ei hadlewyrchu yn y nodiadau a ganlyn.

Caiff rhagor o wybodaeth am gyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd ei darparu ar dudalennau 97 i 119**,** ac yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd sydd ar gael o ofyn amdano.

### Trafodion sy'n ymwneud â buddion ymddeol -

Caiff cost buddion ymddeol ei chydnabod yng nghost net gwasanaethau wrth i weithwyr eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu maes o law fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r swm y mae'n ofynnol ei ddangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff gwir gost buddion ymddeol ei gwyrdroi yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn. Dyma'r trafodion a wnaed yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr a'r datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn :-

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 5. PENSIYNAU (parhad)

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | |
| **Cost net gwasanaethau -** | | | | |
| Cost gyfredol gwasanaethau | 14,168 | | 8,705 | |
| Cost/(elw) gwasanaethau yn y gorffennol | (34,117) | | 61 | |
| Cwtogiadau/setliadau | 1,090 | | 1,726 | |
| **Gwariant gweithredu net -** | | (18,859) | | 10,492 |
| Cost llog | 32,897 | | 30,299 | |
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (22,906) | | (17,024) | |
| | | 9,991 | | 13,275 |
| **Taliad net i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** | | (8,868) | | 23,767 |
| **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn** | | | | |
| Gwyrdroi taliadau net a wnaed ar gyfer buddion ymddeol yn unol ag IAS 19 | | 8,868 | | (23,767) |
| **Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn** | | | | |
| Cyfraniadau cyflogwyr a oedd yn daladwy i'r cynllun | | 21,030 | | 21,662 |
| **Debyd/(credyd) net i'r datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn** | | 29,898 | | (2,105) |

Yn ogystal â’r enillion a’r colledion cydnabyddedig a gaiff eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ceir enillion actiwaraidd o £15,729,000 (colledion o £66,121,000 yn 2009/10). Swm cronnus y colledion actiwaraidd yw £148,411,000 (net).

### Asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion ymddeol -

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau’r cynllun -

| | 2011 | 2010 | 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| 1 Ebrill | 589,060 | 429,545 | 501,354 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 14,168 | 8,705 | 12,945 |
| Cost llog | 32,897 | 30,299 | 30,607 |
| Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 4,954 | 4,996 | 4,732 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd | (22,010) | 133,034 | (104,007) |
| Buddion a dalwyd | (21,511) | (19,306) | (16,870) |
| Costau gwasanaeth y gorffennol | 40 | 61 | 38 |
| Enillion gwasanaeth y gorffennol * | (34,157) | 0 | 0 |
| Cwtogiadau/Setliadau | 1,090 | 1,726 | 746 |
| 31 Mawrth | 564,531 | 589,060 | 429,545 |

* enillion oherwydd y newid ym muddion y cynllun - defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr mewn perthynas â phensiynau a gyfrifwyd yn flaenorol ar sail y Mynegai Prisiau Manwerthu

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

### 5. PENSIYNAU (parhad)

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun -

| | 2011 | 2010 | 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| 1 Ebrill | 340,130 | 248,841 | 314,870 |
| Cyfradd enillion disgwyliedig | 22,906 | 17,024 | 21,202 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd | (6,281) | 66,913 | (96,343) |
| Cyfraniadau cyflogwr | 21,030 | 21,662 | 21,250 |
| Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 4,954 | 4,996 | 4,732 |
| Buddion a dalwyd | (21,511) | (19,306) | (16,870) |
| 31 Mawrth | 361,228 | 340,130 | 248,841 |

Cytunwyd ar y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd â'r actiwari (Mercer Human Resource Consulting Limited) yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan CIPFA.

Caiff yr elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ei bennu drwy ystyried yr elw disgwyliedig sydd ar gael ar asedau sylfaenol y polisi buddsoddi cyfredol. Yr elw buddsoddi tybiedig ar fondiau'r llywodraeth yw'r elw ar stociau ymyl aur 20 mlynedd â llog sefydlog ar y dyddiad perthnasol. Yr elw ar soddgyfrannau yw'r elw ar stociau ymyl aur 20 mlynedd â llog sefydlog ynghyd â lwfans ar gyfer y 'premiwm risg' sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn soddgyfrannau.

Yr elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn oedd £24,206,000 (£83,937,000 yn 2009/10).

**Hanes y cynllun -**

| | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ailddatgan | Ailddatgan | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | (564,531) | (589,060) | (429,545) | (501,354) | (465,645) | (460,835) |
| Gwerth teg asedau | 361,228 | 340,130 | 248,841 | 314,562 | 317,008 | 293,235 |
| Gwarged/diffyg yn y cynllun | (203,303) | (248,930) | (180,704) | (186,792) | (148,637) | (167,600) |

* Mae'r Cyngor wedi dewis peidio ag ailddatgan gwerth teg asedau'r cynllun ar gyfer 2005/06.

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol. Mae cyfanswm y rhwymedigaeth, sef £203,303,000 yn effeithio ar holl gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod fel y cânt eu cofnodi yn y Fantolen, a'r balans cyffredinol yw £518,017,000.

Mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau'n iach; gwneir iawn am y diffyg o ran y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu cyfraniadau dros oes waith y gweithwyr, yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun.

Cyfanswm y cyfraniadau y disgwylir y byddant yn cael eu gwneud i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 yw £18.9m.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 5. PENSIYNAU (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau -

Mae’r rhwymedigaethau wedi eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull uned ragamcanol, sef amcangyfrif o’r pensiynau a fydd yn daladwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod yn ddibynnol ar ragdybiaethau ynghylch marwoldeb, lefelau cyflogau ac ati. Mae’r rhwymedigaethau wedi eu hasesu gan Mercer Human Resource Consulting Limited, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid; caiff amcangyfrifon ar gyfer y Cyngor Sir eu seilio ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

Dyma’r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari -

| | **2011** | **2010** | **1 Ebrill 2009** |
|---|---|---|---|
| **Elw disgwyliedig hirdymor ar asedau yn y cynllun** | | | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 7.5% | 7.5% | 7.5% |
| Bondiau | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol |
| Arall | 7.5% | 7.5% | 7.5% |
| **Rhagdybiaethau ynghylch marwoldeb** | | | |
| Hirhoedledd yn 65 - pensiynwyr cyfredol | | | |
| Dynion | 21.8 bl. | 21.2 bl. | 21.2 bl. |
| Merched | 24.3 bl. | 24.1 bl. | 24.0 bl. |
| Hirhoedledd yn 65 - pensiynwyr y dyfodol | | | |
| Dynion | 23.2 bl. | 22.2 bl. | 22.2 bl. |
| Merched | 25.9 bl. | 25.0 bl. | 25.0 bl. |
| Cyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu) | 3.4% | 3.3% | 3.3% |
| Cyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | 2.9% | 2.8% | amherthnasol |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 4.4% | 4.55% | 4.55% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.9% | 3.3% | 3.3% |
| Cyfradd disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 5.5% | 5.6% | 7.1% |
| Cyfradd sy'n dewis trosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ymddeol | 50% | 50% | 50% |

Mae asedau’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o gyfanswm yr asedau a ddelir:-

| | **2011** | **2010** | **1 Ebrill 2009** |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Buddsoddiadau ecwiti | 58 | 58 | 52 |
| Bondiau eraill | 12 | 12 | 12 |
| Eiddo | 7 | 7 | 8 |
| Arian parod/hylifedd | 2 | 0 | 1 |
| Asedau eraill | 21 | 23 | 27 |
| | 100 | 100 | 100 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

### 5. PENSIYNAU (parhad)

### Hanes enillion a cholledion ar sail profiad -

Gellir rhannu'r enillion actiwaraidd a nodwyd fel symudiadau yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn 2010/11 i'r categorïau a ganlyn, wedi'u mesur fel canran o'r asedau neu'r rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2011 :-

| | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ailddatgan | Ailddatgan | |
| | | | % | % | % | % |
| Y gwahaniaethau rhwng yr elw disgwyliedig a'r elw gwirioneddol ar asedau | (1.74) | 19.67 | (38.72) | (9.70) | 0.64 | 15.04 |
| Enillion a cholledion ar rwymedigaethau, ar | 3.31 | 0.00 | 0.00 | 1.68 | 0.00 | (1.87) |

### 6. Y DRETH GYNGOR

Mae pob annedd domestig wedi'i gynnwys yn rhestr brisio'r Dreth Gyngor a gyhoeddir ac a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gosodir pob annedd yn un o naw prif fand (A i I) yn dibynnu ar brisiad yr eiddo ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Mae degfed band (A*) ar gael i'r trethdalwyr hynny'n unig sy'n byw mewn eiddo band A ac sydd â hawl i gael gostyngiad os addaswyd eiddo ar gyfer eu hanabledd.

Seilir y Dreth Gyngor ar y band prisio y gosodwyd yr eiddo ynddo. Caiff taliadau eu cyfrifo drwy rannu cyfanswm gofynion y Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru o ran incwm blynyddol â sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y dreth yw cyfanswm yr holl eiddo ym mhob band, wedi'i addasu'n ôl cyfrannedd i drosi'r nifer yn nifer sy'n gyfwerth â band D, ac a gaiff ei addasu hefyd ar gyfer disgowntiau. Sylfaen y dreth ar gyfer 2010/11 oedd 60,528 (60,328 yn 2009/10), fel y cyfrifir isod :

| | Band A* | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anheddau Trethadwy** | | | | | | | | | | | |
| Anheddau trethadwy | - | 3,759 | 8,658 | 19,243 | 11,772 | 9,703 | 6,536 | 2,967 | 572 | 223 | 63,433 |
| Anheddau â gostyngiadau anabledd | - | 26 | 59 | 140 | 116 | 115 | 78 | 38 | 11 | 21 | 604 |
| Anheddau trethadwy - nifer wedi'i addasu | 26 | 3,792 | 8,739 | 19,219 | 11,771 | 9,666 | 6,496 | 2,940 | 582 | 202 | 63,433 |
| **Anheddau Trethadwy - Nifer wedi'i Addasu** | | | | | | | | | | | |
| Anheddau heb ddisgownt | 12 | 1,256 | 4,821 | 12,644 | 8,440 | 7,459 | 5,426 | 2,530 | 504 | 181 | 43,273 |
| Anheddau ag un disgownt | 14 | 2,535 | 3,912 | 6,567 | 3,321 | 2,201 | 1,063 | 403 | 61 | 17 | 20,094 |
| Anheddau â dau ddisgownt | 0 | 1 | 6 | 8 | 10 | 6 | 7 | 7 | 17 | 4 | 66 |
| Anheddau trethadwy â disgownt | 26 | 3,792 | 8,739 | 19,219 | 11,771 | 9,666 | 6,496 | 2,940 | 582 | 202 | 63,433 |
| **Anheddau Trethadwy â Disgownt** | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm yr anheddau â disgownt | 23 | 3,158 | 7,758 | 17,573 | 10,936 | 9,113 | 6,227 | 2,836 | 558 | 196 | - |
| Cymhareb i fand "D" | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | - |
| Cyfateb i fand "D" | 13 | 2,105 | 6,034 | 15,621 | 10,936 | 11,138 | 8,994 | 4,726 | 1,116 | 457 | 61,139 |

| | |
|---|---|
| Addasiad cyfradd casglu (ar sail 1%) | (611) |
| Addasiad eiddo sydd wedi'i eithrio | 0 |
| **Sylfaen y Dreth Gyngor 2010/11** | 60,528 |

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**

parhad

## 6. Y DRETH GYNGOR (parhad)

Y tâl sylfaenol ar gyfer eiddo band D yn Sir y Fflint yn 2010/11 oedd £878.86 (£850.78 yn 2009/10). Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* i I :-

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |

Roedd praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, sef £12,186,102 (£11,792,917 yn 2009/10), yn braesept sylweddol ymhlith y praeseptau a godwyd ar Gyngor Sir y Fflint. Yn ogystal, cododd y 34 cyngor cymuned/tref braeseptau a oedd yn werth cyfanswm o £2,119,240 (£2,040,139 yn 2009/10).

### Dadansoddi derbyniadau net o'r Dreth Gyngor:

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Y dreth gyngor a gasglwyd | 67,676 | 65,550 |
| Ychwanegu - Gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | 124 | 12 |
| Namyn - Symiau a ddilewyd i'r ddarpariaeth | (416) | (411) |
| | 67,384 | 65,151 |
| Namyn - Taladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | (12,186) | (11,793) |
| | 55,198 | 53,358 |

## 7. ARDRETHI ANNOMESTIG

Caiff ardrethi annomestig eu trefnu ar lefel genedlaethol. Bydd y llywodraeth yn pennu puntdal y dreth, sef 40.9c yn 2010/11 ar gyfer pob eiddo (48.9c yn 2009/10). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi yn ei ardal, ac fe'u telir i'r gronfa Ardrethi Annomestig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu derbyniadau'r gronfa Ardrethi Annomestig i awdurdodau lleol ar sail swm penodol y pen. Yn 2010/11 talwyd incwm o £50,591,181 i'r gronfa Ardrethi Annomestig ar ôl gostyngiadau a darpariaethau (£45,986,231 yn 2009/10), ar sail cyfanswm gwerth ardrethol o £148,694,794 ar ddiwedd y flwyddyn (£119,609,361 yn 2009/10).

### Dadansoddi derbyniadau net o ardrethi annomestig:

| | | 2011 | 2010 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Ardrethi annomestig a gasglwyd | | 51,085 | 46,941 |
| Namyn - | Talwyd i'r Gronfa Ardrethi Annomestig | (50,591) | (45,986) |
| Namyn - | Cost casglu | (509) | (864) |
| Ychwanegu - | Gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | 15 | (91) |
| | | 0 | 0 |
| Derbyniwyd o'r Gronfa | | 42,236 | 40,437 |
| | | 42,236 | 40,437 |

## 8. GRANTIAU – REFENIW (CYFFREDINOL) A CHYFALAF

Yn ystod 2010/11 cafwyd cyllid grant refeniw gan Lywodraeth Cymru a oedd yn werth £146,458,000 (£143,293,000 yn 2009/10), a oedd yn cynnwys grant cynnal refeniw a grant cytundeb gwella.

Caiff cyfraniadau a grantiau cyfalaf a enillwyd, a oedd yn werth cyfanswm o £20,020,000 (£18,328,000 yn 2009/10), eu hadlewyrchu hefyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gan gynhyrchu cyfanswm incwm grant o £166,478,000 (£161,621,000 yn 2009/10).

| | **2011** | | **2010** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Grantiau Refeniw - Cyffredinol** | | | | |
| Grant cynnal refeniw | 144,976 | | 141,572 | |
| Grant cytundeb gwella | 1,482 | | 1,496 | |
| Grant amddifadedd | 0 | | 225 | |
| | | 146,458 | | 143,293 |
| **Cyfraniadau a Grantiau Cyfalaf** | | | | |
| Grantiau cyfalaf | 14,820 | | 13,128 | |
| Lwfans atgyweiriadau mawr | 5,200 | | 5,200 | |
| | | 20,020 | | 18,328 |
| | | 166,478 | | 161,621 |

## 9. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL GYLLIDO DAN REOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn rhoi manylion yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabuwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn nodi eu bod ar gael i'r Awdurdod i ateb y galw am adnoddau cyfalaf a refeniw yn y dyfodol. Yr addasiad o ran debyd ar gyfer y flwyddyn yw £12,216,000 (£233,234,000 o gredyd yn 2009/10).

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 9. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL GYLLIDO DAN REOLIADAU (parhad)

| 2010/11 | Cronfa wrth gefn - derbyniadau cyfalaf | Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd wrth gefn Cronfa'r Cyngor wedi eu clustnodi | Balans y Cyfrif Refeniw Tai | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio | Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | |
| ***Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:*** | | | | | | | |
| Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | 0 | 0 | 27,168 | 0 | 6,873 | **34,041** | (34,041) |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | 0 | 65 | 0 | 0 | **65** | (65) |
| Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad | 0 | 0 | 234 | 0 | 0 | **234** | (234) |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | **3** | (3) |
| Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a ddefnyddiwyd | 0 | (17,782) | 0 | 0 | 0 | **(17,782)** | 17,782 |
| Symudiadau yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 0 | 0 | 7,597 | 0 | 0 | **7,597** | (7,597) |
| Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r enillion/colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | (323) | 0 | 465 | **142** | (142) |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd neu na gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:*** | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf | 0 | 0 | (5,864) | 0 | (550) | **(6,414)** | 6,414 |
| Gwariant cyfalaf a ddangosir yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 0 | 0 | (1,229) | (441) | (2,000) | **(3,670)** | 3,670 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd:** | | | | | | | |
| Cyfraniadau a grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Defnyddio grantiau yng nghyswllt dulliau ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 | 20,020 | (20,020) | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | | | |
| Defnyddio'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 1,409 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,409** | (1,409) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | | | |
| Y swm y mae costau cyllid a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 53 | 0 | (188) | **(135)** | 135 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau:** | | | | | | | |
| Y swm y mae costau pensiynau a gyfrifwyd yn unol â'r Cod (h.y. yn unol ag IAS 19) yn wahanol i'r cyfraniadau dyledus dan reoliadau'r cynllun pensiwn | 0 | 0 | (29,898) | 0 | 0 | **(29,898)** | 29,898 |
| Gwyrdroi eitemau'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,236 | **1,236** | (1,236) |
| Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | (947) | **(947)** | 947 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Ôl-daliadau Cyflog Cyfartal:** | | | | | | | |
| Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 5,196 | 0 | 0 | **5,196** | (5,196) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | | | | | | | |
| Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 814 | 0 | (27) | **787** | (787) |
| **Addasiad arall** | | | | | | | |
| Trosglwyddiad net i mewn neu allan o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth | 0 | 0 | (3,935) | 0 | (145) | **(4,080)** | 4,080 |
| **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau** | 1,409 | 2,238 | (20,142) | (441) | 4,720 | **(12,216)** | 12,216 |

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 9. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL GYLLIDO DAN REOLIADAU (parhad)

| 2009/10 | Cronfa wrth gefn - derbyniadau cyfalaf £000 | Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd £000 | Balans Cronfa'r Cyngor £000 | Cronfeydd wrth gefn Cronfa'r Cyngor wedi eu clustnodi £000 | Balans y Cyfrif Refeniw Tai £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio £000 | Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | |
| ***Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:*** | | | | | | | |
| Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol * | 0 | 0 | 132,666 | 0 | 124,178 | **256,844** | (256,844) |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad | 0 | 0 | (1,048) | 0 | 0 | **(1,048)** | 1,048 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 0 | 0 | 64 | 0 | 0 | **64** | (64) |
| Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a ddefnyddiwyd | 0 | 0 | (17,747) | 0 | 0 | **(17,747)** | 17,747 |
| Symudiadau yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 0 | 0 | 4,126 | 0 | 0 | **4,126** | (4,126) |
| Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r enillion/colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | (1,583) | 0 | 0 | **(1,583)** | 1,583 |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd neu na gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:*** | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf | 0 | 0 | (6,416) | 0 | (614) | **(7,030)** | 7,030 |
| Gwariant cyfalaf a ddangosir yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 0 | 0 | (248) | 899 | (1,682) | **(1,031)** | 1,031 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd:** | | | | | | | |
| Cyfraniadau a grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Defnyddio grantiau yng nghyswllt dulliau ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 | (3,323) | 0 | 0 | 0 | **(3,323)** | 3,323 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | | | |
| Defnyddio'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 3,030 | 0 | 0 | 0 | 0 | **3,030** | (3,030) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | | | |
| Y swm y mae costau cyllid a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | (24) | 0 | (238) | **(262)** | 262 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau:** | | | | | | | |
| Y swm y mae costau pensiynau a gyfrifwyd yn unol â'r Cod (h.y. yn unol ag IAS 19) yn wahanol i'r cyfraniadau dyledus dan reoliadau'r cynllun pensiwn | 0 | 0 | 1,887 | 0 | 0 | **1,887** | (1,887) |
| Gwyrdroi eitemau'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,146 | **1,146** | (1,146) |
| Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | (931) | **(931)** | 931 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Ôl-daliadau Cyflog Cyfartal:** | | | | | | | |
| Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 4,903 | 0 | 0 | **4,903** | (4,903) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | | | | | | | |
| Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | (929) | 0 | (22) | **(951)** | 951 |
| **Addasiad arall** | | | | | | | |
| Trosglwyddiad net i mewn neu allan o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth | 0 | 0 | (5,318) | 458 | 0 | **(4,860)** | 4,860 |
| **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau *** | 3,030 | (3,323) | 110,333 | 1,357 | 121,837 | **233,234** | (233,234) |

* ffigur a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**
parhad

## 10. DARPARU AR GYFER AD-DALU BENTHYCIADAU ALLANOL

Mae Adran 22 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod neilltuo darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn honno neu mewn unrhyw flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn honno. Dyma'r symiau a neilltuwyd yn 2010/11 :-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm y ddarpariaeth isafswm refeniw | 6,338 | 7,030 |
| Ailgodwyd ar y cyfrif refeniw tai | (592) | (614) |
| | 5,746 | 6,416 |

## 11. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion pwysig gyda phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion a allai reoli'r Cyngor neu ddylanwadu arno, neu a allai gael eu rheoli neu'u dylanwadu gan y Cyngor – £357,000 yw swm y trafodion perthnasol gydag aelodau'r Cyngor yn ystod 2010/11 (£285,000 yn 2009/10); cyfanswm y praeseptau a'r ardollau i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd £19,305,000 (£18,766,000 yn 2009/10); cyfanswm y praeseptau i'r 34 cyngor cymuned/tref oedd £2,119,000 (£2,040,000 yn 2009/10); caiff trafodion pwysig gyda Llywodraeth Cymru eu crynhoi yn nodiadau 7 ac 8, gyda chymorth grant pellach fel y nodir isod :-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cymunedau yn Gyntaf | 792 | 747 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 1,590 | 1,895 |
| Addysg, Cymorth a Hyfforddiant / Arall | 18,353 | 18,479 |
| Cymhorthdal Trafnidiaeth Leol | 562 | 540 |
| Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,546 | 3,936 |
| Camddefnyddio Sylweddau | 492 | 752 |
| Cefnogi Pobl | 6,157 | 5,641 |
| Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 3,465 | 2,815 |
| Amrywiol | 790 | 1,335 |
| | 35,747 | 36,140 |

Yn ystod 2010/11, parhaodd budd y Cyngor mewn cwmni cysylltiedig (AD Waste Limited) nes dechreuwyd ymdrin â gweithgareddau'r cwmni'n fewnol o 1 Hydref 2010 ymlaen. Mae'r trafodion perthnasol ar gyfer y cyfnod wedi'u datgelu yn y cyfrifon grŵp (a'r nodiadau sy'n cyd-fynd â nhw) ar dudalennau 95 a 96. Caiff manylion y trafodion gyda'r Gronfa Bensiynau eu darparu yn nodyn 5 ar dudalennau 50 i 54, ac yng nghyfrifon y Gronfa Bensiynau ar dudalennau 97 i 119.

## 12. FFÏOEDD ARCHWILIO

£491,000 oedd cyfanswm y ffïoedd archwilio ac arolygu a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn (£436,000 yn 2009/10). Darparwyd gwasanaethau archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 13. TALIADAU SWYDDOGION

Yn ôl Rheoliad 7A Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 mae'n ofynnol datgelu (fesul bandiau o £5,000) nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl – sef yr holl symiau a dalwyd i'r gweithiwr neu a oedd yn dderbyniadwy ganddo, unrhyw lwfansau treuliau trethadwy, a gwerth ariannol unrhyw fuddion – yn fwy na £60,000 :-

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| **Band cyflog** | **Heb fod mewn ysgolion** | **Ysgolion** | **Heb fod mewn ysgolion** | **Ysgolion** |
| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
| £60,000 - £64,999 | 3 | 8 | 4 | 4 |
| £65,000 - £69,999 | 12 | 5 | 9 | 5 |
| £70,000 - £74,999 | 3 | 3 | 4 | 4 |
| £75,000 - £79,999 | 1 | 4 | 0 | 1 |
| £80,000 - £84,999 | 2 | 1 | 2 | 0 |
| £85,000 - £89,999 | 1 | 1 | 1 | 2 |
| £90,000 - £94,999 | 0 | 1 | 2 | 0 |
| £95,000 - £99,999 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| £100,000 - £104,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £105,000 - £109,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £110,000 - £114,999 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| £115,000 - £119,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £120,000 - £124,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £125,000 - £129,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £130,000 - £134,999 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £135,000 - £139,999 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| £140,000 - £144,999 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| | 28 | 23 | 24 | 16 |

Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu ar sail gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, a chanllawiau cysylltiedig CIPFA; mae'r niferoedd yn cynnwys gweithwyr nad oeddent yn weithwyr parhaol (staff dros dro/ymgynghorwyr), ac mae'r holl swyddi nad ydynt yn swyddi mewn ysgolion yn cynnwys swyddi'r uwch-swyddogion a restrir ar dudalen 60. Nid yw gwerthoedd y bandiau'n cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr i bensiynau, y rhoddwyd cyfrif amdanynt (yn 2009/10 a 2010/11) ar sail cyfradd o 14.1% i athrawon a 22.3% i weithwyr eraill.

Mae cymaryddion 2009/10 wedi cael eu hailddatgan i ystyried gofynion Cod Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol.

### Tâl uwch-swyddogion (cyflogau rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn) –

Cyflwynodd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 y gofyniad i ddatgelu manylion taliadau unigol uwch-swyddogion. At y diben hwn, yr uwch-swyddogion yw'r prif weithredwr, cyfarwyddwyr strategol a phrif swyddogion statudol.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

## 13. TALIADAU SWYDDOGION (parhad)

| Teitl y swydd | Nodyn | Cyflog pensiynadwy £ | Lwfans treuliau £ | Cyfanswm taliadau ac eithrio cyfraniadau pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £ | Cyfanswm taliadau gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010/11** | | | | | | |
| Prif Weithredwr | | 140,264 | 160 | **140,424** | 31,279 | **171,703** |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol (neb yn y swydd) | | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Cyfarwyddwr yr Amgylchedd | | 97,328 | 0 | **97,328** | 21,704 | **119,032** |
| Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | | 97,328 | 0 | **97,328** | 21,704 | **119,032** |
| Pennaeth Cyllid | | 81,960 | 0 | **81,960** | 18,277 | **100,237** |
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | | 83,049 | 0 | **83,049** | 18,520 | **101,569** |
| | | 499,929 | 160 | **500,089** | 111,484 | **611,573** |
| **2009/10 (gwybodaeth gymharol)** | | | | | | |
| Prif Weithredwr | **1** | 136,855 | 160 | **137,015** | 30,519 | **167,534** |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol | | 89,132 | 160 | **89,292** | 19,876 | **109,168** |
| Cyfarwyddwr yr Amgylchedd | | 93,742 | 0 | **93,742** | 20,904 | **114,646** |
| Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | | 93,742 | 0 | **93,742** | 20,904 | **114,646** |
| Pennaeth Cyllid | | 81,960 | 160 | **82,120** | 18,277 | **100,397** |
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | **2** | 83,049 | 0 | **83,049** | 18,520 | **101,569** |
| | | 578,480 | 480 | **578,960** | 129,000 | **707,960** |

**Nodyn 1 :** Mae cyflog pensiynadwy'n cynnwys taliadau sy'n ymwneud ag (a) bod yn swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau cenedlaethol (a'r llywodraeth berthn
ad-dalu'r costau), a (b) bod yn glerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (a'r corff hwnnw'n ad-dalu'r costau).

**Nodyn 2 :** Mae cyflog pensiynadwy'n cynnwys taliadau sy'n ymwneud â bod yn ddirprwy glerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (a'r corff hwnnw'n ad-d

## 14. GWASANAETHAU GAN ASIANTAETHAU

Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o chwe phartner yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru. Y partneriaid eraill yw Cynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Wrecsam. Mae cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yng Nghyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â gwaith ar gefnffyrdd ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru i Lywodraeth Cymru.

Cafwyd ad-daliadau gwerth £2,258,000 (£2,332,000 yn 2009/10) am waith a wnaed dan Gytundeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd, a oedd yn cynnwys lwfans gweinyddu, a chyllid uniongyrchol i Uned Ymchwiliadau Technegol y gyfarwyddiaeth, sydd yn swyddfa ardal yr Asiantaeth yn Llanelwy.

Mae incwm a gwariant sy’n ymwneud â Chytundeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi eu hymgorffori yng nghyfanswm cost net gwasanaethau yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, gan gynnwys gwarged o £25,000 o’r Uned Ymchwiliadau Technegol (£100,000 yn 2009/10). Bydd yr Uned yn trosglwyddo i Gyngor Gwynedd ar 1 Ebrill 2011.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

### 15. PRYDLESU

### Rhenti deiliaid prydles

### Prydlesi Cyllid -

Mae'r Cyngor wedi caffael nifer o gerbydau, peiriannau ac eitemau o gyfarpar dan brydlesi cyllid. Caiff yr asedau a gaffaelwyd dan y prydlesi hyn eu dangos fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn y Fantolen, ar sail y symiau net a ganlyn:

| Dosbarthu Asedau | 2011<br>£000 | 2010<br>£000 | 1 Ebrill 2009<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Tir | 0 | 0 | 0 |
| Adeiladau | 451 | 0 | 0 |
| Cerbydau, peiriannau a chyfarpar | 948 | 1,798 | 2,009 |
| | 1,399 | 1,798 | 2,009 |

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau gofynnol dan y prydlesi hyn, ac mae hynny'n cynnwys bodloni'r rhwymedigaeth hirdymor am y budd yn yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar a gaffaelwyd gan y Cyngor, a thalu'r costau cyllid y bydd angen i'r Cyngor eu talu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod tra bydd y rhwymedigaeth yn ddyledus. Mae taliadau gofynnol prydlesi yn cynnwys y symiau canlynol, a bydd £363,000 yn dod yn ddyledus yn ystod y 12 mis nesaf (y swm cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol oedd £454,000); mae'r swm o £1,040,000 nad yw'n gyfredol wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y rhwymedigaethau gohiriedig, sef £2,065,000 (gweler nodyn 35 ar dudalen 75) :

| | 2011<br>£000 | 2010<br>£000 | 1 Ebrill 2009<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Rhwymedigaethau prydlesi cyllid (heb gynnwys gwerth presennol taliadau gofynnol prydlesi): | | | |
| Cyfredol | 363 | 454 | 368 |
| Nad ydynt yn gyfredol | 1,040 | 717 | 873 |
| | 1,403 | 1,171 | 1,241 |
| Costau cyllid taladwy yn ystod y blynyddoedd i ddod | 520 | 375 | 514 |
| Taliadau gofynnol prydlesi | 1,923 | 1,546 | 1,755 |

Taliadau gofynnol prydlesi - y swm isaf y gall deiliad prydles ddisgwyl ei dalu ar brydles dros oes y brydles
Rhwymedigaethau prydlesi cyllid - yr elfen gyfalaf mewn taliadau gofynnol prydlesi
Costau cyllid - yr elfen log mewn taliadau gofynnol prydlesi

Bydd taliadau gofynnol prydlesi a rhwymedigaethau prydlesi cyllid yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| | Taliadau Gofynnol Prydlesi | | | Rhwymedigaethau Prydlesi Cyllid | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 489 | 542 | 543 | 363 | 454 | 368 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 1,189 | 750 | 900 | 830 | 521 | 649 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 245 | 254 | 312 | 210 | 196 | 224 |
| | 1,923 | 1,546 | 1,755 | 1,403 | 1,171 | 1,241 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

### 15. PRYDLESU (parhad)

**Prydlesi Gweithredu -**

Yn 2010/11, roedd y rhenti prydlesi gweithredu a dalwyd yn cyfateb i £1,764,000 (£1,607,000 yn 2009/10).

| Dosbarthu Asedau | 2011<br>£000 | 2010<br>£000 |
|---|---|---|
| Tir | 22 | 17 |
| Adeiladau | 172 | 197 |
| Cerbydau, peiriannau a chyfarpar | 1,570 | 1,393 |
| | 1,764 | 1,607 |

Mae taliadau gofynnol prydlesi a fydd yn ddyledus dan brydlesi gweithredu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod fel a ganlyn :

| | Tir<br>£000 | Adeiladau<br>£000 | Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 22 | 163 | 1,455 | 1,640 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 69 | 393 | 2,446 | 2,908 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd * | 913 | 172 | 22 | 1,107 |
| | 1,004 | 728 | 3,923 | 5,655 |

* Caiff unrhyw gytundebau penagored eu cyfrifo hyd at 2018/19 yn unol â chyfartaledd oes cyffredinol y prydlesi hwyaf

**Rhenti Prydleswr**

**Prydlesi Gweithredu –**

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo dan brydlesi gweithredu, yn bennaf at ddibenion datblygu economaidd. Yn 2010/11, roedd y rhenti prydlesi derbyniadwy'n cyfateb i £2,324,000 (£2,323,000 yn 2009/10).

Mae taliadau gofynnol prydlesi sy'n dderbyniadwy dan brydlesi gweithredu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod fel a ganlyn:

| | Tir<br>£000 | Adeiladau<br>£000 | Cyfanswm<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 412 | 1,849 | 2,261 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 1,621 | 6,858 | 8,479 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd * | 30,733 | 13,001 | 43,734 |
| | 32,766 | 21,708 | 54,474 |

* Caiff unrhyw gytundebau penagored eu cyfrifo hyd at 2029/30 yn unol â chyfartaledd oes cyffredinol y prydlesi hwyaf

**Prydlesi Cyllid –**

Nid yw'r Cyngor yn prydlesu unrhyw eiddo ar sail prydlesi cyllid.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 16. LWFANSAU AELODAU

Cafodd lwfansau gwerth cyfanswm o £1,346,000 (sy'n cynnwys taliadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr) eu talu i aelodau'r Cyngor yn 2010/11 (£1,395,000 yn 2009/10).

| | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Lwfans sylfaenol | 910 | 906 |
| Lwfans cyfrifoldeb arbennig | 251 | 312 |
| Lwfans gofal | 4 | 2 |
| Yswiriant gwladol y cyflogwr | 96 | 103 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 38 | 38 |
| Treuliau Aelodau | 47 | 34 |
| | 1,346 | 1,395 |

Mae'r lwfansau a dalwyd yn perthyn i'r bandiau canlynol :-

| | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| **Band lwfans** | **Nifer yr Aelodau** | **Nifer yr Aelodau** |
| £10,000 - £14,999 | 48 | 36 |
| £15,000 - £19,999 | 3 | 9 |
| £20,000 - £24,999 | 6 | 8 |
| £25,000 - £29,999 | 3 | 9 |
| £30,000 - £34,999 | 6 | 5 |
| £35,000 - £39,999 | 3 | 2 |
| £40,000 - £44,999 | 0 | 0 |
| £45,000 - £49,999 | 0 | 0 |
| £50,000 - £54,999 | 1 | 1 |
| | 70 | 70 |

## 17. GWEITHREDIADAU MASNACHU

Ym mis Ionawr 2000, dilëwyd y gofynion statudol a oedd yn ymwneud â chyfrifon ac adroddiadau ar gyfer sefydliadau gwasanaethau uniongyrchol, ac nid yw'n ofynnol bellach cadw cyfrifon masnachu ar gyfer gwasanaethau, ond darperir y wybodaeth gryno ganlynol mewn perthynas â gweithgareddau masnachu cydnabyddedig. Mae'r cyfrifon hyn yn rhan annatod o gyfanswm costau gwasanaethau penodol a chânt eu crynhoi yn y gwariant gweithredu net.

| | **2011** | | **2010** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **(Gwarged)/ Diffyg** | **Incwm** | **(Gwarged)/ Diffyg** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cynnal a chadw adeiladau | 9,229 | (580) | 8,127 | (81) |
| Casglu gwastraff | 5,934 | (300) | 5,581 | (210) |
| | 15,163 | (880) | 13,708 | (291) |

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 17. GWEITHREDIADAU MASNACHU (parhad)

- Mae'r gwarged yng nghyswllt cynnal a chadw adeiladau, sef £580,000, yn adlewyrchu gwelliant sylweddol o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer gwarged yn 2009/10, sef £81,000, a gellir priodoli hynny'n bennaf i lefelau uwch o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd gwell yn y sefydliad yn dilyn ailstrwythuro.
- Mae'r gwarged gwell yng nghyswllt casglu gwastraff, sef £300,000, yn adlewyrchu incwm ychwanegol o gontractau mewnol ar ôl ehangu gwasanaethau ailgylchu ymhellach.

## 18. DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Mae gan y Cyngor gytundeb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn unol ag Adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig dan drefniant ariannu ar y cyd. Staff Cyngor Sir y Fflint (fel y partner cynnal) sy'n darparu'r gwasanaeth yn Uned 3, Ystâd Ddiwydiannol Penarlâg, Penarlâg.

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| **Partneriaeth** | **£000** | **£000** |
| Gwariant gros | 958 | 545 |
| Incwm gros | (942) | (608) |
| **(Gwarged)/diffyg ar gyfer y flwyddyn** | 16 | (63) |
| **Cyfraniad at y Gyllideb** | | |
| Cyngor Sir y Fflint | 362 | 236 |

Mae Uned 3, sydd yn Sir y Fflint, yn eiddo ar y cyd i Gyngor Sir y Fflint (50.25%) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (49.75%), a rhoddwyd gwerth o £907,000 ar y safle; caiff y safle ei gynnwys ym mantolen Cyngor Sir y Fflint (fel y partner cynnal):-

| **Prisio** | **£000** | **%** |
|---|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | 456 | 50.25 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 451 | 49.75 |
| | 907 | 100.00 |

## 19. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | 2011 | Dilewyd | Ychwanegwyd | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Trwyddedau meddalwedd | 0 | (6) | 0 | 6 | 12 |
| Gwariant ar ddatblygu | 628 | (106) | 47 | 687 | 405 |
| | 628 | (106) | 47 | 693 | 417 |

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl eu caffael, yn unol â'r polisi cyfrifyddu cysylltiedig, fel y mae wedi'i gynnwys ar dudalen 10.

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 20. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

### Symudiadau 2010/11

| | Anheddau a garejis y Cyngor | Tir ac adeiladau eraill | Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar | Asedau dros ben | Asedau seilwaith | Asedau cymunedol | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 * | 299,303 | 471,080 | 32,144 | 8,983 | 190,758 | 10,370 | 11,493 | 1,024,131 |
| Ychwanegwyd | 8,021 | 6,909 | 1,733 | 0 | 4,919 | 550 | 532 | 22,664 |
| Gwaredwyd | (514) | (35) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (549) |
| Ailddosbarthwyd | (1,389) | (105) | 0 | 49 | 0 | 0 | 0 | (1,445) |
| Ailbrisiwyd | 11 | (7,843) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (7,832) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 305,432 | 470,006 | 33,877 | 9,032 | 195,677 | 10,920 | 12,025 | 1,036,969 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 * | (5,342) | (122,045) | (25,209) | (236) | (36,937) | (1,236) | (10,812) | (201,817) |
| Tâl dibrisiant 2010/11 | (5,200) | (8,021) | (2,713) | 0 | (4,724) | (226) | 0 | (20,884) |
| Tâl amhariad 2010/11 | (1,604) | (1,026) | 0 | (10) | 0 | 0 | 0 | (2,640) |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | 0 | 105 | 0 | 115 | 0 | 0 | 0 | 220 |
| Ailbrisiwyd | 0 | 2,413 | 0 | (982) | 0 | 0 | 0 | 1,431 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | (12,146) | (128,574) | (27,922) | (1,113) | (41,661) | (1,462) | (10,812) | (223,690) |
| | | | | | | | | |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2011 | 293,286 | 341,432 | 5,955 | 7,919 | 154,016 | 9,458 | 1,213 | 813,279 |
| Caffaelwyd o brynu AD Waste | 0 | 2,912 | 986 | 0 | 0 | 0 | 487 | 4,385 |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2011 | 293,286 | 344,344 | 6,941 | 7,919 | 154,016 | 9,458 | 1,700 | 817,664 |
| Y fantolen ar 1 Ebrill 2010 * | 293,961 | 349,035 | 6,935 | 8,747 | 153,821 | 9,134 | 681 | 822,314 |
| **Natur yr Ased** | | | | | | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 293,286 | 343,893 | 5,993 | 7,919 | 154,016 | 9,458 | 1,700 | 816,265 |
| Prydles gyllid | 0 | 451 | 948 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,399 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 293,286 | 344,344 | 6,941 | 7,919 | 154,016 | 9,458 | 1,700 | 817,664 |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

## 20. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR (parhad)

### Symudiadau 2009/10

| | Anheddau a garejis y Cyngor | Tir ac adeiladau eraill | Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar | Asedau dros ben | Asedau seilwaith | Asedau cymunedol | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 411,984 | 448,418 | 31,059 | 11,115 | 182,587 | 8,901 | 9,177 | 1,103,241 |
| Addasiadau agoriadol | 0 | (587) | 0 | 81 | 0 | 0 | 0 | (506) |
| Ychwanegwyd | 6,020 | 8,583 | 1,085 | 0 | 8,171 | 1,469 | 1,865 | 27,193 |
| Gwaredwyd | (479) | (555) | 0 | (600) | 0 | 0 | 0 | (1,634) |
| Ailddosbarthwyd | 0 | (7,789) | 0 | (1,613) | 0 | 0 | 451 | (8,951) |
| Ailbrisiwyd | 5,692 | 23,010 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 28,702 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 423,217 | 471,080 | 32,144 | 8,983 | 190,758 | 10,370 | 11,493 | 1,148,045 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | (25,569) | (40,770) | (19,283) | (614) | (32,379) | (1,048) | 0 | (119,663) |
| Addasiadau agoriadol | 0 | 15 | 0 | 493 | 0 | 0 | 0 | 508 |
| Tâl dibrisiant 2009/10 | (5,200) | (7,853) | (5,926) | 0 | (4,558) | (188) | 0 | (23,725) |
| Tâl amhariad 2009/10 | (118,876) | (97,303) | 0 | (115) | 0 | 0 | (10,812) | (227,106) |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | 0 | 1,116 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,116 |
| Ailbrisiwyd | 20,389 | 22,750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 43,139 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | (129,256) | (122,045) | (25,209) | (236) | (36,937) | (1,236) | (10,812) | (325,731) |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2010 | 293,961 | 349,035 | 6,935 | 8,747 | 153,821 | 9,134 | 681 | 822,314 |
| Y fantolen ar 1 Ebrill 2009 | 386,415 | 407,648 | 11,776 | 10,501 | 150,208 | 7,853 | 9,177 | 983,578 |
| **Natur yr Ased** | | | | | | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 293,961 | 349,035 | 5,137 | 8,747 | 153,821 | 9,134 | 681 | 820,516 |
| Prydles gyllid | 0 | 0 | 1,798 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,798 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 293,961 | 349,035 | 6,935 | 8,747 | 153,821 | 9,134 | 681 | 822,314 |
| **Natur yr Ased** | | | | | | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 386,415 | 407,648 | 9,767 | 10,501 | 150,208 | 7,853 | 9,177 | 981,569 |
| Prydles gyllid | 0 | 0 | 2,009 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,009 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 386,415 | 407,648 | 11,776 | 10,501 | 150,208 | 7,853 | 9,177 | 983,578 |

### Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

- Anheddau’r Cyngor, tir ac adeiladau eraill, cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar a gedwir, a ddelir neu a ddefnyddir gan yr Awdurdod, neu a gaiff eu contractio i’w defnyddio ar ran yr Awdurdod, neu’u defnyddio i ddarparu gwasanaethau’n uniongyrchol. Mae’r rhain yn cynnwys anheddau ac eiddo arall ym maes tai, adeiladau swyddfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon a phyllau nofio, cartrefi preswyl/canolfannau dydd, depos a gweithdai, adeiladau mynwentydd, meysydd parcio oddi ar y stryd, cerbydau, peiriannau mecanyddol, gosodion a ffitiadau a chyfarpar arall.

## 20. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR (parhad)

- Asedau diymwad yw asedau seilwaith, a'r unig ffordd y gellir adennill y gwariant arnynt yw drwy barhau i ddefnyddio'r ased a grëwyd, h.y. nid oes gobaith ei werthu na gwneud defnydd arall ohono. Mae'r asedau hyn yn cynnwys priffyrdd, llwybrau troed, pontydd, cyfleusterau dŵr a draenio ac amddiffynfeydd arfordirol.
- Asedau cymunedol yw asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cadw am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac y gallai cyfyngiadau ar y modd y gellir cael gwared arnynt fod yn berthnasol hefyd. Nid oes fawr o obaith eu gwerthu na newid y defnydd a wneir ohonynt. Maent yn cynnwys parciau a mannau agored, caeau chwarae, ardaloedd chwarae a thir mynwentydd.

## 21. EIDDO BUDDSODDI A'R YSTÂD AMAETHYDDOL

## Symudiadau 2010/11

| | **Eiddo Buddsoddi** | **Yr Ystâd Amaethyddol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 31,386 | 14,864 | 46,250 |
| Ychwanegwyd | 16 | 0 | 16 |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | 105 | 0 | 105 |
| Ailbrisiwyd | (469) | 0 | (469) |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 31,038 | 14,864 | 45,902 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | (4,073) | (371) | (4,444) |
| Tâl dibrisiant 2010/11 | 0 | 0 | 0 |
| Tâl amhariad 2010/11 | 0 | 0 | 0 |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | (105) | 0 | (105) |
| Ailbrisiwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | (4,178) | (371) | (4,549) |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2011 | 26,860 | 14,493 | 41,353 |
| Caffaelwyd o brynu AD Waste | 146 | 0 | 146 |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2011 | 27,006 | 14,493 | 41,499 |
| Y fantolen ar 1 Ebrill 2010 | 27,313 | 14,493 | 41,806 |
| **Natur yr Ased** | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 26,860 | 14,493 | 41,353 |
| Prydles gyllid | 0 | 0 | 0 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 26,860 | 14,493 | 41,353 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 21. EIDDO BUDDSODDI A’R YSTÂD AMAETHYDDOL (parhad)

### Symudiadau 2009/10

| | Eiddo Buddsoddi | Yr Ystâd Amaethyddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 29,748 | 12,439 | 42,187 |
| Ychwanegwyd | 69 | 49 | 118 |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisiwyd | 1,569 | 2,376 | 3,945 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 31,386 | 14,864 | 46,250 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | (1,325) | 0 | (1,325) |
| Tâl dibrisiant 2009/10 | 0 | 0 | 0 |
| Tâl amhariad 2009/10 | (2,743) | (371) | (3,114) |
| Gwaredwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailddosbarthwyd | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisiwyd | (5) | 0 | (5) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | (4,073) | (371) | (4,444) |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2010 | 27,313 | 14,493 | 41,806 |
| Y fantolen ar 1 Ebrill 2009 | 28,423 | 12,439 | 40,862 |
| **Natur yr Ased** | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 27,313 | 14,493 | 41,806 |
| Prydles gyllid | 0 | 0 | 0 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 27,313 | 14,493 | 41,806 |
| **Natur yr Ased** | | | |
| Eiddo'r Cyngor | 28,423 | 12,439 | 40,862 |
| Prydles gyllid | 0 | 0 | 0 |
| Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 28,423 | 12,439 | 40,862 |

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**
parhad

## 22. PRISIO ASEDAU

### Prisio asedau nad ydynt yn asedau cyfredol

Cafodd yr eiddo rhydd-ddaliol a phrydlesol sydd ym mhortffolio eiddo'r Awdurdod ei brisio'n unol â Datganiadau o Arferion Prisio Asedau a Nodiadau Cyfarwyddyd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a Chanllaw CIPFA i Gofrestrau Asedau. Caiff y gwahanol fathau o eiddo eu dosbarthu i grwpiau amrywiol yn ôl Cod Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd, ac roedd 2010/11 yn ddechrau cylch newydd pum mlynedd. Yn ystod 2010/11 ailbrisiwyd oddeutu 10% o'r asedau nad ydynt yn anheddau, er y caiff newidiadau pwysig i brisiadau eu haddasu wrth iddynt ddigwydd. Mae'r broses brisio yn cynnwys adolygiadau o amhariadau i gydymffurfio â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 36.

Cafodd anheddau a garejis y Cyngor eu prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol fel tai cymdeithasol. Caiff pob eiddo, peiriant a chyfarpar ei brisio'n awr ar sail gwerth teg (fel sy'n ofynnol wrth weithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 16, ac eithrio asedau seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, a gaiff eu prisio ar sail cost hanesyddol. Mae eiddo buddsoddi a'r ystâd amaethyddol hefyd wedi'u prisio ar sail gwerth teg yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40. Cafodd yr asedau hynny a gafodd eu cynnwys ar sail gwerth teg eu prisio gan briswyr mewnol ac allanol -

| | |
|---|---|
| **Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar -** | |
| Anheddau a garejis y Cyngor | Alex Wheldon BSc (Anrh.) DipConsHistEnv (RICS) MRICS o Asiantaeth Swyddfa Brisio Cymru, Wrecsam a Paula M. Blellock BSc (Anrh.) MRICS o Gyngor Sir y Fflint |
| Cartrefi preswyl | Amherthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon |
| Tir ac adeiladau gweithredol eraill | Paula M. Blellock BSc (Anrh.) MRICS, John Allen FRICS, y ddau o Gyngor Sir y Fflint |
| **Asedau anweithredol** | |
| Eiddo buddsoddi | Paula M. Blellock BSc (Anrh.) MRICS, John Allen FRICS o Gyngor Sir y Fflint |
| Yr ystâd amaethyddol | Amherthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon |

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased nad yw'n ased cyfredol, ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig, ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio ac eiddo buddsoddi anweithredol yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 16 a Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40. Seilir y ffigur ar brisiadau mantolen agoriadol 2010/11, gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol i bob ased nad yw'n ased cyfredol, a chan amrywio'r gwerthoedd ar gyfer oes ddefnyddiol ar draws y portffolio. Os yw'r ased yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau mawr, ac os yw oes economaidd ddefnyddiol y naill yn wahanol iawn i'r llall, rhoddwyd cyfrif ar wahân am bob cydran. Pennwyd lefel pwysigrwydd ar gyfer cydrannu, sef asedau unigol gwerth £2.5 miliwn neu fwy; a nodwyd mai cydrannau sylweddol yw cydrannau sy'n cyfateb i 20% o werth unrhyw ased pwysig. Mae manylion am oes ddefnyddiol at ddibenion dibrisio wedi eu cynnwys yn y Polisïau Cyfrifyddu ar dudalen 7.

Caiff cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar eu prisio ar sail cost hanesyddol, sef £6,941,000, ar ôl dibrisiant (£6,935,000 yn 2009/10).

## 23. GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Cafodd cyfanswm o £29,826,000 o wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ei ariannu fel y manylir ar dudalen 70.

### Cyfarwyddeb Gyfalafu

Dan Adran 16 (2)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2003, cafwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru y gallai'r Cyngor drin gwariant yn ystod y flwyddyn o £201,000, a oedd at ddiben hyrwyddo mentrau gweithio'n ystwyth Buddsoddi i Arbed, fel gwariant at ddibenion cyfalaf.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 23. GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF (parhad)

### Ariannu Cyfalaf

| | Benthyca a gefnogir | Benthyca darbodus | Derbyniadau cyfalaf | Cyfraniadau a grantiau cyfalaf | Cronfeydd cyfalaf wrth gefn/CERA | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5,412 | 757 | 207 | 12,546 | 3,291 | 22,213 |
| Eiddo buddsoddi (a'r ystâd amaethyddol) | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| Cyfanswm | 5,428 | 757 | 207 | 12,546 | 3,291 | 22,229 |
| REFCUS (gweler tudalen 14) | 2,345 | | 10 | 5,237 | 5 | 7,597 |
| Cyfanswm 2010/11 | 7,773 | 757 | 217 | 17,783 | 3,296 | 29,826 |
| Sef :- | | | | | | |
| Cyfrif Refeniw Tai | 0 | 0 | 184 | 5,580 | 2,441 | 8,205 |
| Cronfa'r Cyngor | 7,773 | 757 | 33 | 12,203 | 855 | 21,621 |
| Cyfanswm 2010/11 | 7,773 | 757 | 217 | 17,783 | 3,296 | 29,826 |

### Ymrwymiadau'r dyfodol

Ar 31 Mawrth 2011, mae blaenraglen gyfalaf y Cyngor yn cynnwys (ymhlith cynlluniau rhaglenni dangosol eraill) ymrwymiadau sylweddol mewn perthynas â gwaith sydd wedi ôl-gronni o ran atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion (£11,833,000), gwaith uno ysgolion (£4,230,000) a chynlluniau trafnidiaeth ranbarthol (£4,500,000).

## 24. BUDDSODDIADAU HIRDYMOR

Caiff buddsoddiadau hirdymor eu dangos yn y fantolen ar sail gwerth teg. Mae gwybodaeth gysylltiedig bellach wedi'i chynnwys yn nodyn 38 ar dudalennau 82 i 86.

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Stoc rhyfel | 13 | 12 | 14 |
| Cyfranddaliadau | 613 | 600 | 661 |
| Adneuon mewn banciau/cymdeithasau adeiladu | 2,002 | 0 | 6,448 |
| | 2,628 | 612 | 7,123 |

## 25. DYLEDWYR HIRDYMOR

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Morgeisi | | | |
| Cyn-denantiaid tai Cyngor | 8 | 21 | 45 |
| Benthycwyr preifat | 0 | 0 | 1 |
| | 8 | 21 | 46 |
| Benthyciadau adnewyddu a gwella | 304 | 0 | 0 |
| Benthyciadau â chymorth i brynu car | 241 | 240 | 196 |
| Gwaith stryd preifat | 38 | 38 | 36 |
| | 591 | 299 | 278 |

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**
parhad

## 26. STOCIAU

Roedd gan y Cyngor stociau gwerth cyfanswm o £1,264,000 (£1,031,000 yn 2009/10 a £1,210,000 ar 1 Ebrill 2009) yn y fantolen ar 31 Mawrth 2011.

| | **2011** | **2010** | **1 Ebrill 2009** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cynnal a chadw adeiladau | 145 | 147 | 146 |
| Cynnal a chadw priffyrdd | 378 | 448 | 501 |
| Tanwydd y fflyd | 31 | 33 | 21 |
| Cynnal a chadw tir | 14 | 20 | 16 |
| Cynnal a chadw cerbydau | 47 | 40 | 44 |
| Amrywiol | 649 | 343 | 482 |
| | 1,264 | 1,031 | 1,210 |

Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 2, rhaid datgelu cyfanswm cost pob prif fath o stoc yn ystod y flwyddyn, a ddelir ar ddyddiad y fantolen.

| | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Cynnal a chadw adeiladau | 643 | 917 |
| Cynnal a chadw priffyrdd | 354 | 409 |
| Tanwydd y fflyd (Y Fferi Isaf) | 363 | 237 |
| Tanwydd y fflyd, cynnal a chadw tir a chynnal a chadw cerbydau (Alltami) | 362 | 292 |
| | 1,722 | 1,855 |

## 27. DYLEDWYR BYRDYMOR

| | **2011** | **2010** | **1 Ebrill 2009** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Rhenti tai | 1,160 | 1,154 | 1,068 |
| Trethi lleol | 2,697 | 2,858 | 2,618 |
| Adrannau'r llywodraeth | 3,746 | 2,115 | 2,731 |
| Trethi | 2,276 | 1,449 | 2,052 |
| Benthyciadau | 13 | 13 | 13 |
| Taliadau ymlaen llaw | 3,451 | 3,449 | 3,069 |
| Budd-daliadau a ordalwyd | 1,264 | 1,150 | 983 |
| Asiantaeth ardrethi annomestig | 493 | 8,210 | 1,695 |
| Dyledwyr eraill | 15,656 | 12,640 | 12,337 |
| | 30,756 | 33,038 | 26,566 |
| Namyn darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (nodyn 34) | (2,569) | (2,942) | (2,606) |
| | 28,187 | 30,096 | 23,960 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 28. BUDDSODDIADAU BYRDYMOR

Mae cyfanswm y fantolen, sef £10,410,000 (£6,947,000 yn 2009/10 a £7,889,000 ar 1 Ebrill 2009) yn cynnwys buddsoddiadau o £3,700,000 a adneuwyd yn Landsbanki (gweler hefyd nodyn 4 ar dudalennau 47 i 48), yr amharwyd arnynt er mwyn ystyried yr anawsterau ariannol a brofir gan fanciau Gwlad yr Iâ :-

| Dyddiad buddsoddi | Dyddiad aeddfedu | Swm a fuddsoddwyd £000 | Cyfradd llog % | Gwerth llyfr £000 | Amhariad £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 22/07/08 | 17/10/08 | 1,200 | 5.82 | 954 | 9 |
| 01/09/08 | 14/11/08 | 1,500 | 5.70 | 1,189 | 11 |
| 08/09/08 | 18/11/09 | 1,000 | 5.67 | 794 | 8 |
| | | 3,700 | | 2,937 | 28 |

Mae'r symiau a ddangosir wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio gwerth presennol yr ad-daliadau a ddisgwylir, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd wreiddiol y buddsoddiad. Mae'r ad-daliadau a ddisgwylir (ym mis Rhagfyr bob blwyddyn) wedi'u hamcangyfrif fel a ganlyn, ar sail y datganiadau a wnaed gan y gweinyddwr:-

| 2011 £000 | 2012 £000 | 2013 £000 | 2014 £000 | 2015 £000 | 2016 £000 | 2017 £000 | 2018 £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 817 | 309 | 291 | 275 | 260 | 245 | 232 | 480 | 2,909 |

## 29. ARIAN PAROD AC ELFENNAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | | |
| Buddsoddiadau dros dro (cyfrifon galw) | | 22,500 | | 11,000 | | 8,600 |
| Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod | 22,074 | | 25,441 | | 27,551 | |
| Arian a ordynnwyd | (4,592) | | (7,477) | | (8,356) | |
| | | 17,482 | | 17,964 | | 19,195 |
| | | 39,982 | | 28,964 | | 27,795 |

## 30. ASEDAU A GEDWIR I'W GWERTHU

Mae'r Cyngor newydd gategoreiddio cyfanswm net gwerth £1,170,000 o'i asedau eiddo yn asedau 'a gedwir i'w gwerthu' (£8,438,000 yn 2009/10); mae'r cyfanswm ar gyfer 2010/11 yn cynnwys, am y tro cyntaf, eiddo Hawl i Brynu. Ni chafwyd unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn o wyrdroi colledion blaenorol oherwydd amhariadau (£660,000 yn 2009/10), ac roedd yr asedau a werthwyd yn cyfateb i £1,150,000 (£381,000 yn 2009/10), a arweiniodd at falans terfynol o £9,493,000 ar 31 Mawrth 2011 (£9,473,000 yn 2009/10).

| | 2011 £000 | 2010 £000 |
|---|---|---|
| **Balans yn weddill ar 1 Ebrill** | 9,473 | 756 |
| Asedau newydd eu categoreiddio'n asedau a gedwir i'w gwerthu: | 1,170 | 8,438 |
| Gwyrdroi colledion oherwydd amhariad | 0 | 660 |
| Asedau a werthwyd | (1,150) | (381) |
| **Balans yn weddill ar 31 Mawrth** | 9,493 | 9,473 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 31. BENTHYCIADAU I'W HAD-DALU YN ÔL Y GALW NEU CYN PEN 12 MIS

Mae cyfanswm y fantolen, sef £5,803,000, yn adlewyrchu gwerth y llog a gronnwyd ar fenthyciadau allanol hirdymor, sef £1,141,000 (£1,330,000 yn 2009/10 a £1,329,000 ar 1 Ebrill 2009) ynghyd â benthyciad Buddsoddi i Arbed y bydd angen ei ad-dalu yn 2011/12, a benthyciad rhwng cwmnïau, sy'n cofnodi pris prynu AD Waste – bydd y gwerth hwn yn aros ar y fantolen nes bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben yn derfynol.

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Llog a gronnwyd ar fenthyciadau allanol hirdymor | 1,141 | 1,330 | 1,329 |
| Benthyciad Buddsoddi i Arbed (gan Lywodraeth Cymru) | 131 | 0 | 0 |
| AD Waste - benthyciad rhwng cwmnïau | 4,531 | 0 | 0 |
| | 5,803 | 1,330 | 1,329 |

## 32. CREDYDWYR BYRDYMOR

| | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Adrannau'r llywodraeth | 2,512 | | 2,072 | | 2,740 | |
| Credydwyr eraill | 28,292 | | 24,588 | | 25,313 | |
| | | 30,804 | | 26,660 | | 28,053 |
| **Taliadau a gafwyd ymlaen llaw** | | | | | | |
| Rhenti tai | 184 | | 167 | | 151 | |
| Trethi lleol | 732 | | 737 | | 717 | |
| Arall * | 1,388 | | 960 | | 1,657 | |
| | | 2,304 | | 1,864 | | 2,525 |
| | | 33,108 | | 28,524 | | 30,578 |

* heb gynnwys trosglwyddiad o £2,205,000 (£2,471,000 yn 2009/10 a £2,192,000 ar 1 Ebrill 2009) i rwymedigaethau nad ydynt yn rhai cyfredol

## 33. BENTHYCIADAU HIRDYMOR

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Dadansoddi'r fantolen** | | | |
| Benthyciadau allanol | 173,744 | 173,613 | 173,613 |
| | 173,744 | 173,613 | 173,613 |

| | Cyfraddau llog | | 2010 | 2010 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddi benthyciadau allanol** | **Isafswm %** | **Uchafswm %** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Yn ôl math o fenthyciad (cyfradd sefydlog)** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | Di-log | | 131 | 0 | 0 |
| Llywodraeth (PWLB) | 0.76 | 9.50 | 154,663 | 154,663 | 154,663 |
| Sefydliadau ariannol eraill | 4.48 | 4.58 | 18,950 | 18,950 | 18,950 |
| | | | 173,744 | 173,613 | 173,613 |
| **Yn ôl cyfnod aeddfedu** | | | | | |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | | | 1,631 | 0 | 0 |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | | | 0 | 1,500 | 1,500 |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | | | 11,600 | 1,600 | 1,600 |
| Mwy na 10 mlynedd | | | 160,513 | 170,513 | 170,513 |
| | | | 173,744 | 173,613 | 173,613 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 34. DARPARIAETHAU

### Darpariaethau nad ydynt yn rhai cyfredol
Y symiau a gydnabyddir fel darpariaethau yw'r amcangyfrifon gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i fodloni ymrwymiadau presennol. Mae cyfanswm y darpariaethau, sef £10,140,000, yn cynnwys y balansau a ganlyn:-

| | 2011 | Symud allan | Symud i mewn | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Hawliadau (staff) | 40 | 0 | 0 | 40 | 40 |
| Partneriaeth Camerâu Diogelwch Gogledd Cymru | 1 | (31) | 0 | 32 | 31 |
| Ôl-daliadau cyflog cyfartal | 10,099 | 0 | 5,196 | 4,903 | 0 |
| | 10,140 | (31) | 5,196 | 4,975 | 71 |

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau staff yn cynnwys costau disgwyliedig amryw hawliadau gan y staff yn erbyn y Cyngor; ni ddisgwylir unrhyw alwadau'n syth ar y ddarpariaeth.

- Mae darpariaeth Partneriaeth Camerâu Diogelwch Gogledd Cymru yn darparu ar gyfer rhoi iawndal i yrwyr a gafodd eu dirwyo ar gam am yrru'n rhy gyflym mewn ardal ddynodedig lle nad oedd arwyddion 30mya priodol wedi'u gosod. Mae amseriad a sicrwydd yr ymrwymiadau'n dibynnu'n llwyr ar b'un a fydd y gyrwyr hynny nad ydynt eisoes wedi cyflwyno hawliadau yn penderfynu gwneud hynny.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliadau cyflog cyfartal yn darparu ar gyfer hawliadau posibl am gyflog cyfartal pe gellid pennu atebolrwydd, ac mae'n ofynnol datgelu'r ddarpariaeth am resymau'n ymwneud â gofal a'r angen i gydymffurfio â'r Cod. Caiff y cyfrif ôl-daliadau cyflog cyfartal sydd wedi'i gynnwys yn y fantolen ar dudalen 37 ei ddefnyddio i gadw swm cyfwerth ag ôl-daliadau, y gohiriwyd ei ddangos yng Nghronfa'r Cyngor dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllido Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru).

### Darpariaethau Cyfredol – Absenoldebau Cronedig
Y ddarpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig yn 2010/11 yw £3,598,000 (£2,810,000 yn 2009/10 a £3,762,000 ar 1 Ebrill 2009).

| | 2011 | Symud allan | Symud i mewn | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Absenoldebau cronedig | 3,598 | 0 | 788 | 2,810 | 3,762 |
| | 3,598 | 0 | 788 | 2,810 | 3,762 |

Mae absenoldebau cronnol byrdymor y digolledir amdanynt yn cyfeirio at fuddion a gaiff gweithwyr yn rhan o'u contract cyflogaeth, y bydd eu hawl iddynt yn cronni wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r Awdurdod. Y budd mwyaf sylweddol y mae'r pennawd hwn yn ymdrin ag ef yw tâl gwyliau. Bydd gweithwyr yn cronni hawl i wyliau gyda thâl wrth iddynt weithio. Dan y Cod, mae'n ofynnol i gost darparu gwyliau a buddion tebyg gael ei chydnabod pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau yn y dyfodol y digolledir amdanynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gronni ar gyfer unrhyw wyliau blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Dan y trefniadau cyfrifyddu blaenorol, nid oedd croniad o'r fath yn ofynnol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n golygu mai'r unig adeg y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyllido tâl gwyliau a buddion tebyg yw pan gânt eu defnyddio, yn hytrach na phan fydd gweithwyr yn eu hennill. Caiff symiau eu trosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig nes caiff y buddion eu defnyddio.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 34. DARPARIAETHAU (parhad)

### Darpariaethau Cyfredol – Darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (drwgddyledion)

Mae’r symiau sy’n ddyledus i’r Cyngor wedi’u gostwng yn ôl darpariaethau amcan ar gyfer colledion oherwydd amhariadau.

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhenti tai | 435 | 492 |
| Y Dreth Gyngor | 830 | 954 |
| Dyledwyr eraill | 1,304 | 1,496 |
| | 2,569 | 2,942 |

## 35. RHWYMEDIGAETHAU GOHIRIEDIG

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Prydlesi cyllid nad ydynt yn gyfredol | 1,040 | 717 | 873 |
| AD Waste Limited | 1,025 | 1,025 | 0 |
| | 2,065 | 1,742 | 873 |

Bydd cyfanswm o £1,040,000 mewn perthynas â phrydlesi cyllid yn dod yn ddyledus y tu hwnt i 2011/12 (£717,000 yn 2009/10 a £873,000 ar 1 Ebrill 2009) yn rhan o daliadau gofynnol prydlesi sy’n ddyledus, fel y cânt eu datgelu yn nodyn 15 ar dudalen 61. Bydd y rhwymedigaeth o ran AD Waste Limited, sef £1,025,000 (£1,025,000 yn 2009/10 hefyd) mewn perthynas ag ôl-ofal amgylcheddol i safleoedd gwaredu gwastraff blaenorol, yn parhau ar y fantolen nes bydd y cwmni’n cael ei ddirwyn i ben yn derfynol yn ystod 2011/12.

## 36. CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Ceir manylion am symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, y gellir eu defnyddio, yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a nodyn 9.

**Cronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf**
Mae’r gronfa wrth gefn ar gyfer derbyniadau cyfalaf yn cynnwys derbyniadau o werthu asedau, sydd eto i’w defnyddio i ariannu cyfalaf neu ad-dalu dyled.

**Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd**
Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd yw symiau a dderbyniwyd ond na ddefnyddiwyd eto i ariannu gwariant cyfalaf.

**Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer Cyfalaf Penodol**
Mae’r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfalaf penodol yn cofnodi gwerth cyllid refeniw Cyfrif Refeniw Tai 2010/11 y cytunwyd arno (ond na ddefnyddiwyd) at ddibenion gwariant cyfalaf – mae gwariant y rhaglen gysylltiedig wedi llithro i mewn i 2011/12.

**Cronfa’r Cyngor**
Mae cyfanswm cronfeydd refeniw wrth gefn Cronfa’r Cyngor, sef £34,111,000 (£27,246,000 yn 2009/10 a £27,581,000 ar 1 Ebrill 2009), yn cynnwys balansau na glustnodwyd o £5,962,000 (£6,277,000 yn 2009/10 a £7,257,000 ar 1 Ebrill 2009), balansau a glustnodwyd o £5,795,000 (£2,876,000 yn 2009/10 a £5,144,000 ar 1 Ebrill 2009), y balans statws sengl/cyflog cyfartal o £20,380,000 (£16,643,000 yn 2009/10 a £12,677,000 ar 1 Ebrill 2009), a’r gwargedau a gynhyrchwyd gan ysgolion a reolir yn lleol, sef £1,974,000 (£1,450,000 yn 2009/10 a £2,503,000 ar 1 Ebrill 2009). Nid yw balansau’r ysgolion ar gael at ddibenion cyffredinol y sir.

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 36. CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer Refeniw Penodol

Mae cronfeydd wrth gefn ar gyfer refeniw penodol yn cynnwys rhai ar gyfer cefnogi pobl, gwaredu gwastraff, a chronfeydd yswiriant.

| | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | | | |
| Heb eu clustnodi | 5,962 | | 6,277 | | 7,257 | |
| Wedi eu clustnodi (balansau gwasanaethau) | 5,795 | | 2,876 | | 5,144 | |
| Statws sengl/cyflog cyfartal | 20,380 | | 16,643 | | 12,677 | |
| Ysgolion | 1,974 | | 1,450 | | 2,503 | |
| | | 34,111 | | 27,246 | | 27,581 |
| **Cronfeydd wrth gefn penodol** | | | | | | |
| Cefnogi pobl | 1,209 | | 1,026 | | 474 | |
| Gwaredu gwastraff | 895 | | 894 | | 1,363 | |
| Cronfeydd yswiriant | 1,233 | | 1,453 | | 1,437 | |
| Arall (gan gynnwys theatr - gweler isod) | 1,353 | | 1,631 | | 373 | |
| | | 4,690 | | 5,004 | | 3,647 |
| | | 38,801 | | 32,250 | | 31,228 |

### Cyfrif Refeniw Tai

Mae gwarged cronfa wrth gefn y cyfrif refeniw tai, sef £1,614,000 (£1,492,000 yn 2009/10) yn adlewyrchu gwarged cyfrif refeniw tai 2010/11, sef £122,000 (£575,000 yn 2009/10), fel y nodir ar dudalen 91.

### Clwyd Theatr Cymru

Mae Cyngor Sir y Fflint yn berchen ar y theatr ac yn ei rhedeg wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau dan Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ymhlith eraill.

Caiff ei rheoli dan gynllun dirprwyo sy’n golygu bod Cyngor Sir y Fflint yn darparu ar gyfer llywodraethu’r theatr a chyflawni holl swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau’r Cyngor yn y cyswllt hwnnw. Dan y cynllun dirprwyo, mae’r Cyngor yn awr yn dirprwyo ac yn ymddiried ei holl swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau mewn perthynas â’r theatr i’r Prif Weithredwr. Mae Cyfarwyddwr y theatr yn atebol i’r bwrdd llywodraethu am ofalu bod unrhyw wariant adrannol yn cael ei gadw o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd. Mae’n ofynnol i’r Prif Weithredwr roi adroddiad i’r Pwyllgor Gweithredol ar weithrediadau a materion ariannol y theatr, gan gynnwys y sefyllfa bresennol o ran dwyn ymlaen unrhyw warged/diffyg, a’r camau a gymerir i ymdrin â hynny. Yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11 roedd gan y theatr warged gweithredu o £5,000 (gwarged o £1,000 yn 2009/10).

Pe bai’r theatr yn cau, Cyngor Sir y Fflint fyddai’n gyfrifol am ysgwyddo unrhyw ddiffygion dyledus a/neu gostau net eraill a fyddai ynghlwm wrth ei chau.

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 37. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Mae manylion am symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio fel a ganlyn –

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio | 114,579 | 112,792 | 44,082 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 254 | 240 | 306 |
| Cyfrif addasu cyfalaf | 574,061 | 586,629 | 807,631 |
| Cyfrif addasu offerynnau ariannol | (9,679) | (11,131) | (11,394) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau | (203,303) | (248,930) | (180,704) |
| Cyfrif ôl-daliadau cyflog cyfartal | (10,099) | (4,903) | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 16 | 33 | 57 |
| Cyfrif absenoldebau cronedig | (3,598) | (2,810) | (3,762) |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** | **462,231** | **431,920** | **656,216** |

### Cronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio

Mae’r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod, a oedd yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei beiriannau a’i gyfarpar. Caiff y balans ei ostwng pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- eu hailbrisio tuag i lawr, neu pan amherir arnynt a phan gollir yr enillion
- eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu llyncu gan ddibrisiant
- eu gwerthu a chaiff yr enillion eu gwireddu.

Mae’r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cofnodi enillion ailbrisio na wireddwyd sydd wedi codi ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y gronfa wrth gefn ei chreu. Mae asedau nad ydynt yn asedau cyfredol yn y fantolen yn cyfateb i’r gronfa wrth gefn – nid yw’r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill * | | 112,792 | | 44,082 |
| Ailbrisio asedau tuag i fyny * | 5,661 | | 74,887 | |
| Ailbrisio asedau tuag i lawr a cholledion oherwydd amhariadau na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | (1,431) | | (2,974) | |
| Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau nad ydynt yn rhai cyfredol na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | 4,230 | | 71,913 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | (2,443) | | (3,203) | |
| Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a sgrapiwyd | 0 | | 0 | |
| Swm a ddilewyd i'r cyfrif addasu cyfalaf | | (2,443) | | (3,203) |
| Balans ar 31 Mawrth | | 114,579 | | 112,792 |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol

### Cronfa wrth Gefn ar gyfer Offerynnau Ariannol sydd ar gael i’w Gwerthu

Mae’r gronfa wrth gefn ar gyfer offerynnau ariannol sydd ar gael i’w gwerthu yn cofnodi enillion ailbrisio na wireddwyd sy’n deillio o ddal buddsoddiadau sydd ar gael i’w gwerthu, ynghyd ag unrhyw golledion na wireddwyd nad ydynt wedi deillio o amhariad ar yr asedau. Mae benthyciadau a

## 37. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### Cronfa wrth Gefn ar gyfer Offerynnau Ariannol sydd ar gael i'w Gwerthu (parhad)

buddsoddiadau yn y fantolen yn cyfateb i'r gronfa wrth gefn - nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | 240 | | 306 |
| Ailbrisio buddsoddiadau tuag i fyny * | 14 | | 0 | |
| Ailbrisio buddsoddiadau tuag i lawr na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 0 | | (66) | |
| | | 14 | | (66) |
| Balans ar 31 Mawrth | | 254 | | 240 |

### Cronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn gyfrif addasu sy'n amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer buddion ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer cyllido buddion yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ar ôl cyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff y buddion eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth. Caiff y rhwymedigaethau a gydnabyddir yn y cyfrifon eu diweddaru i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid ac elw buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau.

Mae trefniadau statudol yn mynnu y dylai'r buddion a enillir gael eu hariannu pan fydd yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiynau, neu pan fydd maes o law yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol yn uniongyrchol amdanynt. Felly, mae'r balans o ran debyd yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a gweithwyr y presennol, a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddion.

Mae'r enillion a'r colledion actiwaraidd a nodir fel symudiadau yn y gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn 2010/11 fel y maent yn nodyn 5 ar dudalennau 49 i 53 :-

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Datganiad o (Enillion) a Cholledion Actiwaraidd -** | | | |
| (Enillion)/Colledion asedau | 6,281 | (66,913) | 96,343 |
| (Enillion)/Colledion rhwymedigaethau | (22,010) | 133,034 | (104,007) |
| **(Enillion)/Colledion Net -** | (15,729) | 66,121 | (7,664) |

### Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaeth o ran amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am ddefnyddio asedau nad ydynt yn asedau cyfredol ac ar gyfer ariannu gwaith caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol. Caiff y cyfrif ei ddebydu'n unol â chost caffael, adeiladu neu wella wrth i ddibrisiant, colledion oherwydd amhariadau, ac amorteiddiadau gael eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cysoni o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailbrisio i drosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
Parhad

## 37. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar eiddo buddsoddi ac enillion ailbrisio a gronnwyd ar eiddo, peiriannau a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio ei chreu i ddal enillion o'r fath.

Mae nodyn 9 yn rhoi manylion ffynhonnell pob un o'r trafodion a gofnodir yn y cyfrif, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio.

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | 586,629 | | 807,631 |
| Gwyrdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | | | |
| - Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | (34,039) | | (251,794) | |
| - Amorteiddio asedau anniriaethol | (65) | | (64) | |
| - Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | (7,597) | | (4,126) | |
| - Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r enillion/colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (2,104) | | (1,409) | |
| | | (43,805) | | (257,393) |
| Addasiadau dyledwyr hirdymor | | 1,020 | | 483 |
| Addasu symiau a ddilewyd o'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio | | 2,443 | | 3,203 |
| Swm net a ddilewyd allan o gost asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | (40,342) | | (253,707) |
| Dulliau cyllido cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn: | | | | |
| - Defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfalaf | 615 | | 612 | |
| - Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, sydd wedi'u defnyddio i ariannu cyfalaf | 17,782 | | 14,521 | |
| - Defnyddio grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd | 0 | | 7,130 | |
| - Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf, sydd i'w ddangos yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 6,315 | | 7,030 | |
| - Gwariant cyfalaf a ddangoswyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 3,296 | | 1,036 | |
| | | 28,008 | | 30,329 |
| Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad, a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (234) | | 2,376 | |
| | | (234) | | 2,376 |
| Balans ar 31 Mawrth | | 574,061 | | 586,629 |

## 37. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

Mae'r cyfrif addasu offerynnau ariannol yn darparu system gydbwyso rhwng pa mor fuan y caiff enillion a cholledion (megis taliadau premiwm am dalu dyledion yn gynnar) eu cydnabod dan y Cod a pha mor fuan y mae'n ofynnol yn ôl statud iddynt gael eu bodloni o gronfa'r Cyngor. Unwaith eto, mae benthyciadau a buddsoddiadau yn y fantolen yn cyfateb i'r gronfa wrth gefn, ac nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | (11,131) | | (11,394) |
| Premiymau a dalwyd yn ystod y flwyddyn ac a ddangoswyd yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (87) | | 0 | |
| Cyfran y premiymau a dalwyd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol sydd i'w dangos yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor yn unol â gofynion statudol | 613 | | 613 | |
| Trosglwyddiadau buddsoddiadau yr amharwyd arnynt - Landsbanki | 926 | | (350) | |
| Y swm y mae costau cyllid a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | | 1,452 | | 263 |
| Balans ar 31 Mawrth | | (9,679) | | (11,131) |

Mae Rheoliadau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009 yn caniatáu i'r Cyngor ohirio dangos symiau'n ymwneud â'i fuddsoddiadau yr amharwyd arnynt yn Landsbanki (gweler tudalen 47 hefyd). Manteisiodd y Cyngor ar y rheoliadau a throsglwyddodd £926,000 i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn ystod y cyfnod 2008/09 - 2010/11; mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn cofnodi'r gwahaniaethau o ran amseru rhwng dangos y symiau hyn yng Nghronfa'r Cyngor yn unol ag arferion priodol, a'u dangos yn unol â'r rheoliadau. Dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r Cyngor drosglwyddo'r balans yn y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol i Gronfa'r Cyngor erbyn 31 Mawrth 2011 fan bellaf, a rhaid hefyd iddo gredydu'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol â'r llog a enillwyd nes bod y balans wedi'i drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor; digwyddodd y trosglwyddiad yn ystod 2010/11.

### Cyfrif Ôl-daliadau Cyflog Cyfartal

Mae'r cyfrif ôl-daliadau cyflog cyfartal yn gwneud iawn am y gwahaniaethau rhwng gallu'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer costau posibl setliadau ôl-daliadau'n ymwneud â chyflog cyfartal, a'r gallu dan ddarpariaethau statudol i ohirio'r effaith ar falans Cronfa'r Cyngor nes gallai arian fod yn cael ei dalu i'r sawl sy'n ei hawlio.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

## 37. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | 4,903 | | 0 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliadau yng nghyswllt achosion cyflog cyfartal | 5,196 | | 4,903 | |
| Setliadau arian parod a dalwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | | 0 | |
| Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | | 5,196 | | 4,903 |
| Balans ar 31 Mawrth | | 10,099 | | 4,903 |

### Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Derbyniadau cyfalaf gohiriedig yw symiau sy'n deillio o werthu asedau, a dderbynnir ar ffurf rhandaliadau dros gyfnodau o amser y cytunwyd arnynt. Mae'r gronfa wrth gefn yn dal yr enillion a gydnabyddir o achosion o werthu asedau nad ydynt yn asedau cyfredol, ond nad oes arian parod wedi dod i law mewn perthynas â nhw eto. Maent yn codi o forgeisi wrth werthu tai cyngor.

Dan drefniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel enillion y gellir eu defnyddio at ddiben ariannu gwariant cyfalaf newydd, nes cânt eu cefnogi gan dderbyniadau arian parod. Pan fydd y setliad arian parod gohiriedig yn digwydd maes o law, caiff symiau eu trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer derbyniadau cyfalaf.

| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Tai Cyngor | 16 | 33 | 57 |
| | 16 | 33 | 57 |

### Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r cyfrif absenoldebau cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn ymddangos ym malans Cronfa'r Cyngor o waith cronni ar gyfer absenoldebau y digolledir amdanynt, a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddo i mewn ac allan o'r cyfrif.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | | (2,810) | | (3,762) |
| Setlo neu ddiddymu croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 2,810 | | 3,762 | |
| Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | (3,598) | | (2,810) | |
| Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | | (788) | | 952 |
| Balans ar 31 Mawrth | | (3,598) | | (2,810) |

## 38. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r offerynnau ariannol sydd yn y fantolen yn cynnwys y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol canlynol:

| | Hirdymor | | | Cyfredol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 | 2011 | 2010 | 1 Ebrill 2009 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Rhwymedigaethau ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio | 173,744 | 173,613 | 173,613 | 1,141 | 1,330 | 1,329 |
| Symiau taladwy | 0 | 0 | 0 | 29,922 | 25,627 | 27,035 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | 173,744 | 173,613 | 173,613 | 31,063 | 26,957 | 28,364 |
| Benthyciadau | 304 | 0 | 0 | 10,410 | 6,947 | 7,889 |
| Symiau derbyniadwy | 2,002 | 0 | 6,448 | 18,762 | 13,577 | 16,302 |
| Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 626 | 612 | 675 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | 2,932 | 612 | 7,123 | 29,172 | 20,524 | 24,191 |

Roedd gwerth cyfrifon taladwy a symiau taladwy eraill ar y fantolen yn cyfateb i £29,922,000 (£25,627,00 yn 2009/10 a £27,035,000 ar 1 Ebrill 2009) fel y datgelir uchod, ac roedd cyfrifon derbyniadwy yn cyfateb i £18,762,000 (£13,577,000 yn 2009/10 a £16,302,000 ar 1 Ebrill 2009).

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Parhad

## 38. OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | 2011 | | | | 2010 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhwymedigaethau ariannol | Asedau ariannol | | | Rhwymedigaethau ariannol | Asedau ariannol | | |
| | Rhwymedigaethau wedi'u mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio | Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy | Asedau ar gael i'w Gwerthu | Cyfanswm | Rhwymedigaethau wedi'u mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio | Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy | Asedau ar gael i'w Gwerthu | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost llog | (9,443) | 0 | 0 | (9,443) | (10,060) | 0 | 0 | (10,060) |
| Colledion oherwydd amhariadau | 0 | 135 | 0 | 135 | 0 | (351) | 0 | (351) |
| **Llog taladwy a thaliadau tebyg** | (9,443) | 135 | 0 | (9,308) | (10,060) | (351) | 0 | (10,411) |
| Incwm llog | 0 | 535 | 0 | 535 | 0 | 755 | 0 | 755 |
| **Incwm llog a buddsoddi** | 0 | 535 | 0 | 535 | 0 | 755 | 0 | 755 |
| Elw wrth ailbrisio | | | 0 | | | | 4 | |
| **Diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau ariannol** | | | 0 | | | | 4 | |
| Enillion/(colledion) net ar gyfer y flwyddyn | (9,443) | 670 | 0 | | (10,060) | 404 | 4 | |

## Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau a gariwyd ar sail Cost wedi'i hamorteiddio

Caiff y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy eu cario yn y fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth pre sennol y llifoedd arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2010). Mae ffigur benthyca 2010 ar gyfer benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi'i gyfrifo drwy gyfeirio at y gyfres o gyfraddau ar gyfer 'ad-daliadau cynamserol' a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2011 (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2010).

Mae'r ffigur ar gyfer benthyciadau Opsiwn Echwynnwr Opsiwn Benthyciwr (LOBO) 2011 wedi'i gyfrifo yn yr un modd â benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, namyn 0.65% ar gyfer gwerth opsiynau chwemisol i'r echwynnwr (unwaith eto, yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2010).

Caiff gwerth teg cyfranddaliadau a stoc rhyfel ei gyfrifo drwy ddefnyddio gwerth stociau ymyl aur heb ddyddiad fel y cawsant eu cyhoeddi ar 31 Mawrth 2011.

Cymerir mai gwerth teg cyfrifon derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yw'r swm a anfonebwyd, ac ni chydnabyddir unrhyw daliadau cynnar neu amhariadau.

Caiff y gwerthoedd teg eu cyfrifo fel a ganlyn:

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

## 38. OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth llyfr | Gwerth teg | Gwerth llyfr | Gwerth teg | Gwerth llyfr | Gwerth teg |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | | | |
| PWLB | 155,576 | 193,686 | 155,766 | 188,975 | 155,766 | 198,169 |
| LOBOs | 19,177 | 22,647 | 19,176 | 21,994 | 19,176 | 17,923 |
| | 174,753 | 216,333 | 174,942 | 210,969 | 174,942 | 216,092 |

Yn achos benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, mae'r gwerth teg yn uwch na'r gwerth llyfr oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sefydlog lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy'n uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog sy'n uwch na chyfraddau presennol y farchnad yn cynyddu'r swm y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ei dalu pe bai'r echwynnwr yn gofyn i'r benthyciadau gael eu had-dalu'n gynnar, neu pe bai'n cytuno iddynt gael eu had-dalu'n gynnar. Mae'r un peth yn wir am fenthyciadau LOBO, gyda'r cyfraddau llog yn uwch na chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus sydd ar gael ar ddyddiad y fantolen, sy'n arwain at werth teg uwch.

| | 2011 | | 2010 | | 1 Ebrill 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth llyfr | Gwerth teg | Gwerth llyfr | Gwerth teg | Gwerth llyfr | Gwerth teg |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy** | | | | | | |
| Stoc rhyfel | 13 | 13 | 12 | 12 | 14 | 14 |
| Cyfranddaliadau | 613 | 613 | 600 | 600 | 661 | 661 |
| Buddsoddiadau hirdymor | 2,002 | 2,002 | 0 | 0 | 6,448 | 6,448 |
| | 2,628 | 2,628 | 612 | 612 | 7,123 | 7,123 |

### Datgelu Natur a Maint y Risgiau sy'n codi o'r Offerynnau Statudol

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg o ran Rheoli'r Trysorlys drwy fabwysiadu Cod Ymarfer 2009 CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cod Darbodaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan adran 15 (1) (a) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi (o leiaf) Datganiad Polisi a Strategaeth (adroddiad canol blwyddyn) ac adroddiad alldro blynyddol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn mynnu terfynau buddsoddi ar fuddsoddiadau penodol (buddsoddiadau sy'n cynnig lefel uchel o ddiogelwch a hylifedd), buddsoddiadau amhenodol (buddsoddiadau sydd â mwy o risg bosibl) a buddsoddiadau yr ymrwymir iddynt am ragor na blwyddyn. Yn ogystal, rhaid pennu dangosyddion darbodaeth allweddol a chofnodi Arferion Rheoli'r Trysorlys. Mae'r arferion hynny'n cynnwys risgiau ariannol megis Risg o ran Credyd, Risg o ran Hylifedd a Risg o ran y Farchnad.

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risg o ran credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Parhad

### 38. OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- Risg o ran hylifedd – y posibilrwydd na fyddai gan yr Awdurdod arian ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau

- Risg o ran y farchnad – y posibilrwydd y gallai'r Awdurdod ddioddef colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn cyfraddau llog, er enghraifft, neu symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risg gyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod yn anodd rhagweld sefyllfa marchnadoedd ariannol, ac mae'n ceisio lleihau'r effeithiau posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i gyllido gwasanaethau. Tîm trysorlys canolog sy'n ymgymryd â gwaith rheoli risg, dan bolisïau a gymeradwyir gan Gyngor Sir y Fflint yn y Datganiad Polisi a Strategaeth. Mae Sir y Fflint yn darparu egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig sy'n ymwneud â meysydd penodol, megis risg o ran cyfraddau llog, risg o ran credyd a risg o ran buddsoddi arian dros ben.

### Risg - rhwymedigaethau

Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian hirdymor naill ai drwy fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, neu gan y farchnad drwy fenthyciadau LOBO.

- Benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – Mae'r rhan fwyaf o'r ddyled hon ar gyfradd sefydlog, ac felly ceir risg o ran cyfraddau llog. Os bydd cyfraddau'n gostwng yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn talu cyfradd uwch na chyfradd bresennol y farchnad. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn fwy buddiol cael sicrwydd cyllidebol ynghylch taliadau llog y dyfodol mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn isel; ar hyn o bryd mae 6% o'r ddyled i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfradd newidiol, sy'n lleihau'r risg o ran cyfraddau llog ond sy'n cynyddu ansicrwydd cyllidebol. Yn y Datganiad o Bolisi Rheoli'r Trysorlys ceir opsiwn i gael dyled newidiol sy'n gyfwerth â 35% os bernir bod hynny'n briodol. Caiff risg o ran hylifedd ei rheoli drwy'r proffil aeddfedrwydd dyledion a dangosydd darbodaeth nad yw'n caniatáu i ragor na 10% o'r ddyled aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn.

- Benthyciadau LOBO – Mae gan bob benthyciad LOBO gyfradd llog sefydlog am gyfnod o rhwng 12 a 23 mis, a ddilynir gan gyfradd sefydlog arall dros gyfnod y benthyciad. Fodd bynnag, gall yr echwynnwr ofyn i'r benthyciad gael ei ad-dalu ar ôl cyfnod sefydlog penodol. Caiff benthyciadau LOBO eu defnyddio oherwydd bod eu cyfradd llog yn is na benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, a chaiff hynny ei gydbwyso yn erbyn y perygl o gyfraddau'n codi a'r posibilrwydd y bydd yn rhaid ad-dalu'r benthyciad, sy'n arwain at risg ailariannu pan fydd cyfraddau llog yn uwch. Caiff swm benthyciadau LOBO ei gyfyngu i 35% o fenthyciadau hirdymor.

Pe bai cyfraddau llog yn codi 1%, dengys dadansoddiad mai'r effaith ariannol fyddai cynnydd o £231,000 mewn costau dyledion. Pe bai cyfraddau llog yn gostwng 1%, byddai costau'n gostwng £79,000.

### Risg – Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

### Buddsoddiadau Hirdymor -

- Cyfeirir at fuddsoddiadau sy'n para dros flwyddyn, neu fuddsoddiadau mewn cymdeithasau adeiladu ag asedau sy'n werth o leiaf £1 biliwn, na chawsant eu hasesu o ran statws credyd, fel buddsoddiadau amhenodol, oherwydd y risg ychwanegol o ran cyfraddau llog. Ceir terfyn

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

### 38. OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

o £20m ar gyfer buddsoddiadau hirdymor, a cheir gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer eu hawdurdodi gan y Pennaeth Cyllid.

- Mae rhywfaint o risg o ran credyd ynghlwm wrth adneuon gyda banciau neu gymdeithasau adeiladu, a chaiff y risg honno ei rheoli drwy ddefnyddio tair asiantaeth asesu statws credyd a thrwy fuddsoddi mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu sydd â statws uchel o ran credyd ac sydd ag asedau sy'n werth dros £1 biliwn. Caiff y meini prawf eu dangos yn y tabl isod :-

| | FITCH | | MOODY'S | | STANDARD & POORS | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o radd | Banciau yn y DU a Thramor | Cymdeithasau Adeiladu | Banciau yn y DU a Thramor | Cymdeithasau Adeiladu | Banciau yn y DU a Thramor | Cymdeithasau Adeiladu |
| Byrdymor | F1 | F2 | P1 | P2 | A-1 | A-2 |
| Hirdymor | A | A- | A2 | A3 | A | A- |

Pe bai cyfraddau llog yn codi 1%, dengys dadansoddiad mai'r effaith ariannol fyddai cynnydd o £585,000 mewn incwm buddsoddi. Pe bai cyfraddau llog yn gostwng 1%, byddai'n arwain at golli incwm a fyddai'n cyfateb i'r un swm.

Mae gan y Cyngor £3,700,000 wedi'i adneuo ym manc Landsbanki yng Ngwlad yr Iâ, a aeth i'r wal ym mis Hydref 2008. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu na chaiff y swm a fuddsoddwyd ei ad-dalu'n llawn.

**Bondiau -**

Risg gyfyngedig o ran credyd sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau mewn bondiau oherwydd eu bod wedi'u gwarantu gan y llywodraeth, ond bydd y farchnad yn amrywio'n ôl cyfraddau llog cyfredol, gan newid y gwerth teg felly.

**Cyfranddaliadau -**

Roedd cyfranddaliadau'r Cyngor yn 2009/10 a 2010/11 yn ymwneud ag AD Waste Limited; nid oes risg o ran credyd yn bodoli mwyach oherwydd daeth y cwmni'n rhan o'r Cyngor yn ystod 2010/11.

**Symiau derbyniadwy eraill -**

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid wneud trefniadau i dalu symiau sy'n parhau'n ddyledus i'r Cyngor, ar sail eu gallu i dalu. Gofynnir i gwsmeriaid lenwi ffurflen asesu ariannol a chadarnhau'n ysgrifenedig y swm y cytunwyd arno a'r dyddiad y bydd y trefniant yn dechrau, a sicrhau bod y Cyngor yn hollol ymwybodol o unrhyw amgylchiadau o ran eu gallu i dalu, yr hoffent iddynt gael eu hystyried wrth gynnal yr asesiad.

### 39. YSGOLION SEFYDLEDIG

Newidiodd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 statws ysgolion a gynhelir â grant, ac fe'u trowyd yn ysgolion sefydledig a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Gwnaed hynny am resymau cyllido, a daeth y newidiadau i rym ar 1 Ebrill 1999. Arweiniodd hynny at gynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau cyfredol a reolir gan unig ysgol sefydledig Sir y Fflint (Ysgol Gynradd Derwen, Higher Kinnerton) yn y fantolen. Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol o hyd am yr asedau sefydlog a'r rhwymedigaethau hirdymor, ac felly nid yw'r gwerthoedd a'r symiau wedi'u

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**
parhad

crynhoi yn y fantolen.

## 40. CWMNÏAU CYSYLLTIEDIG

Mae gwybodaeth am gwmnïau cysylltiedig wedi'i chynnwys yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon grŵp ar dudalen 95.

## 41. CRONFEYDD ERAILL A WEINYDDIR GAN YR AWDURDOD

Roedd y Cyngor Sir yn gweinyddu 33 o gronfeydd ymddiriedolaeth addysg hyd 2010/11, a phob un yn cynnwys symiau gweddol fach o arian a dderbyniwyd gan unigolion ac a fuddsoddwyd er mwyn darparu incwm blynyddol ar gyfer gwobrau ac ati. Cafodd gwaith gweinyddu wyth o'r cronfeydd ei drosglwyddo i'w hysgolion cysylltiedig yn ystod 2010/11; mae'r 25 o gronfeydd sy'n weddill wrthi'n cael eu hadolygu. Cyfanswm balans y gronfa ar 31 Mawrth 2011 oedd £280,453 (£283,059 yn 2010), nad adlewyrchir yn y fantolen.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu cronfa ymddiriedolaeth ar ran Optec D.D. (UK) Limited. Mae'r gronfa yn rhoi cymorth ariannol i'r cynllun cyfnewid ieuenctid rhwng Cyngor Sir y Fflint a Murata a Kuga Cho yn Japan. Balans y gronfa ar 31 Mawrth 2011 oedd £137,447 (£152,697 yn 2009/10), ac nid yw wedi'i gynnwys yn y fantolen.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw Mynwent Santes Margaret, Rhewl. Mae gan yr elusen gofrestredig hon dri chyfrif banc y mae cyfanswm eu gwerth presennol yn cyfateb i £357 (£357 yn 2009/10 hefyd). Ni ddangosir y cyfrifon banc yn y fantolen.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel awdurdod arweiniol yn y broses o weinyddu Cronfa Deddf Eglwys Cymru, ar ran Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Caiff incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau, ar ôl ystyried treuliau rheoli canolog, ei ddyrannu i bob awdurdod i'w ddefnyddio i roi grantiau sy'n cyd-fynd ag amcanion penodol. Ar 31 Mawrth 2011 balans y gronfa oedd £577,867 (£574,794 yn 2009/10). Roedd gan Sir y Fflint falans incwm heb ei ddefnyddio o £3,383 (£413 yn 2009/10). Nid yw'r ffigyrau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y fantolen.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol yn cynnal cyfrifon banc unigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu ymdopi â'u materion ariannol oherwydd eu hanalluedd meddyliol; caiff aelodau unigol o'r tîm Dirprwyaeth eu cymeradwyo i weithredu fel penodai corfforaethol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Y cyfanswm a oedd gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2011 oedd £2,246,000 mewn 295 o gyfrifon ar wahân (£1,880,000 mewn 264 o gyfrifon yn 2009/10).

## 42. RHWYMEDIGAETH BOSIBL

Mae'r Cyngor yn ailystyried ei sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â nifer o hawliadau cyflog cyfartal a gofrestrwyd yn y Tribiwnlys Cyflogaeth o ganlyniad i ddyfarniadau'n ymwneud ag awdurdodau eraill gan gynnwys Sheffield a Birmingham. Mae'n rhy gynnar i benderfynu beth fydd y sefyllfa honno'n ôl pob tebyg, ond mae cynnig wedi'i gyflwyno i undebau llafur perthnasol i drafod y posibilrwydd o setlo'r hawliadau; bydd costau setlo'r hawliadau'n dod o'r gronfa wrth gefn ar gyfer statws sengl/cyflog cyfartal. Mae nifer o hawliadau eraill yn erbyn y Cyngor, a disgwylir i rai ohonynt gyrraedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd; ac eithrio un achos, ni ragwelir unrhyw benderfyniadau anffafriol ar hyn o bryd.

## 43. ASED POSIBL

Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ar drywydd ad-daliadau TAW gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn dilyn penderfyniadau gan Dŷ'r Arglwyddi yn achosion Fleming (yn masnachu dan yr enw

Bodycraft) a Conde Nast Publications Ltd. Yn 1996, cafodd y terfyn amser ar gyfer hawlio TAW a ordalwyd ei leihau i dair blynedd; yn 2008 dyfarnwyd bod diffyg trefniadau pontio yn mynd yn groes i gyfraith y Gymuned, a chafodd y terfyn o dair blynedd ei ddileu. Mae'r ceisiadau unigol yn ymwneud â chyfnodau amrywiol rhwng mis Ebrill 1973 a mis Rhagfyr 1996. Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl yn achos Compass Contract Services yn 2006, ac yn amodol ar achos presennol Littlewoods yn yr Uchel Lys, bydd y Cyngor yn mynd ar drywydd apeliadau i'r Tribiwnlys Trethi a/neu yn yr Uchel Lys am log cyfansawdd os yw'r ad-daliadau hyd yma wedi'u gwneud gan ychwanegu llog syml yn unig.

## 44. DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN

Mae'r penderfyniad i godi pensiynau gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu wedi'i gydnabod yn y cyfrifon hyn (cyfeirir at hynny yn nodyn 5 ar dudalen 50). Mae'r penderfyniad hwn gerbron y llysoedd ar hyn o bryd ac yn destun adolygiad barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn amddiffyn yr achos, ac felly nid yw'r cyfrifon wedi'u haddasu o gwbl ar gyfer y mater hwn. Nid yw'r goblygiadau ariannol pe bai'r adolygiad yn dod i gasgliad sy'n mynd yn erbyn y Llywodraeth wedi eu hasesu.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

## 45. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llifoedd arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llog a gafwyd | 820 | 1,124 |
| Llog a dalwyd | (9,910) | (9,963) |

## 46. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (22,335) | (26,942) |
| Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor | (5,479) | 0 |
| Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi | (305) | (44) |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 2,024 | 3,640 |
| Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 20,021 | 18,328 |
| **Llifoedd arian net o weithgareddau buddsoddi** | (6,074) | (5,087) |

## 47. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau arian o fenthyciadau byrdymor a hirdymor | 262 | 0 |
| Taliadau arian ar gyfer lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill sy'n ymwneud â phrydlesi cyllid | 232 | 0 |
| Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor | 0 | 1,025 |
| **Llifoedd arian net o weithgareddau ariannu** | 494 | 1,025 |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | 2011 | 2011 | 2010 | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant** | | | | |
| Atgyweirio a chynnal a chadw | | 9,124 | | 7,783 |
| Rheoli a goruchwylio | | 2,693 | | 2,634 |
| Rhenti, ardrethi, trethi a thaliadau eraill | | 816 | | 1,377 |
| Cymhorthdal taladwy o ran y cyfrif refeniw tai | | 6,391 | | 6,448 |
| Dibrisant ac amhariad yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cy | | 6,873 | | 124,178 |
| Costau rheoli dyledion | | 16 | | 11 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | | 166 | | 142 |
| **Cyfanswm gwariant*** | | **26,079** | | **142,573** |
| **Incwm** | | | | |
| Rhenti anheddau (gros) | 23,179 | | 22,790 | |
| Rhenti safleoedd heblaw anheddau (gros) | 279 | | 277 | |
| | | 23,458 | | 23,067 |
| Taliadau am wasanaethau a chyfleusterau | | 600 | | 609 |
| **Cyfanswm incwm** | | **24,058** | | **23,676** |
| **Cost net gwasanaethau'r cyfrif refeniw tai, fel y maent wedi'u cynnwys yn natganiad incwm a gwariant yr awdurdod cyfan*** | | **2,021** | | **118,897** |
| Cyfran y cyfrif refeniw tai o symiau eraill sydd wedi eu cynnwys yng Nghost Net Gwasanaethau'r awdurdod cyfan ond na chawsant eu dyrannu i | | 142 | | 151 |
| **Cost net gwasanaethau'r cyfrif refeniw tai*** | | **2,163** | | **119,048** |
| Llog taladwy a thaliadau tebyg | | 1,509 | | 1,596 |
| Colled net ar ôl gwerthu asedau'r cyfrif refeniw tai | | 465 | | 0 |
| Incwm buddsoddi'r cyfrif refeniw tai | | (8) | | (15) |
| Cost llog pensiynau ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn | | 469 | | 633 |
| **Cyfanswm (gwarged) / diffyg ar ddatganiad incwm a gwariant y cyfrif refeniw tai*** | | **4,598** | | **121,262** |

* ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfnod blaenorol

# DATGANIAD O SYMUDIADAU YN Y CYFRIF REFENIW TAI

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Mae’r datganiad hwn yn dangos sut y mae’r gwarged/diffyg yn Natganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn yn cysoni â’r gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn yn y Cyfrif Refeniw Tai Statudol.

| | **Nodyn nodiadau craidd)** | **2011 £000** | **2010 £000** |
|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill1 2010 | | 1,492 | 917 |
| Gwarged/(diffyg) ar ddatganiad incwm a gwariant y cyfrif refeniw tai * | | (4,598) | (121,262) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr** | | **(4,598)** | **(121,262)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau | **9** | 4,720 | 121,837 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi** | | **122** | **575** |
| Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi | | 0 | 0 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | | **122** | **575** |
| Ar 31 Mawrth | | 1,614 | 1,492 |

* prior period adjusted figures

* Mae cyfanswm y balans a ddygir ymlaen ar gyfer 2010/11 yn cynnwys gwarged wedi ei neilltuo of £128k ).
sy'n ymwneud â chynllun gwresogi cyffredin y tenantiaid (gwarged o
£41,000 yn 2009/10)

**NODIADAU AR DDATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI**
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

## 1. DEDDFWRIAETH

Mae'r cyfrif refeniw tai, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn adlewyrchu rhwymedigaeth statudol i roi cyfrif ar wahân am ddarpariaeth awdurdod lleol o ran tai. Mae'n dangos prif elfennau'r gwariant refeniw ar dai – gwaith cynnal a chadw, ad-daliadau rhent, gwaith gweinyddu – a chostau ariannu cyfalaf, a sut y telir am y rhain gan renti, cymorthdaliadau ac incwm arall.

## 2. STOC TAI

Dyma nifer yr anheddau a'u math ar 31 Mawrth 2011 :-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| **Math** | **No.** | **No.** |
| Tai | 4,089 | 4,098 |
| Fflatiau | 1,377 | 1,377 |
| Maisonettes | 199 | 199 |
| Byngalos | 1,796 | 1,796 |
| | 7,461 | 7,470 |

## 3. ÔL-DDYLEDION RHENT

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| **Dadansoddi ôl-ddyledion** | **£000** | **£000** |
| **Rhenti** | | |
| Tenantiaid presennol | 802 | 737 |
| Cyn-denantiaid | 177 | 255 |
| | 979 | 992 |

| **Darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau** | **£000** | **£000** |
|---|---|---|
| Darpariaeth agoriadol | 599 | 508 |
| Dilewyd yn ystod y flwyddyn | (284) | (51) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 166 | 142 |
| | 481 | 599 |

Mae cyfanswm y rhenti, sef £979,000 (£992,000 yn 2009/10) yn cynnwys, yn ychwanegol at yr elfen rent sylfaenol, symiau sy'n ddyledus am drethi dŵr/carthffosiaeth, taliadau gwresogi, yswiriant cartref, trwyddedau teledu cyffredin a threth ar werth ar rai rhenti garejis. Nid oes modd nodi'r elfennau rhent unigol hyn ar wahân i'r cyfanswm.

**NODIADAU AR DDATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI**
parhad

## 4. CYFRIFYDDU ASEDAU NAD YDYNT YN ASEDAU CYFREDOL

### Ariannu Cyfalaf

Cafodd gwariant cyfalaf y cyfrif refeniw tai, sef £8,205,000 (£6,020,000 yn 2009/10), ei ariannu fel a ganlyn :-

| | Capital Receipts | Capital Grants & Contributions | Revenue Contributions | Total |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ariannu cyfalaf | 184 | 5,580 | 2,441 | 8,205 |
| | 184 | 5,580 | 2,441 | 8,205 |

### Lwfans Atgyweiriadau Mawr

Cynhwysir yng nghyfanswm y cyfraniadau a'r grantiau cyfalaf (£5,580,000) y swm a ddyrannwyd ar gyfer atgyweiriadau mawr yn 2010/11, sef £5,200,000 (£5,200,000 yn 2009/10 hefyd). Caiff y swm a ddyrannwyd ar gyfer atgyweiriadau mawr ei gynnwys yng ngrantiau'r llywodraeth – llinell gyffredinol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cafodd y grant hwn gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio'n llawn yn 2010/11 i ariannu gwariant cyfalaf cymwys.

### Derbyniadau Cyfalaf

Gwireddwyd derbyniadau cyfalaf gros gwerth £1,287,000 (£1,494,000 yn 2009/10) drwy werthu anheddau, gwerthu tir, gwerthu perchnogaeth a rennid ac ad-dalu morgeisi :-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Anheddau'r Cyngor | 585 | 514 |
| Morgeisi | 17 | 24 |
| Gwerthu tir | 685 | 956 |
| | 1,287 | 1,494 |

### Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig, nad yw'n ased cyfredol yn y cyfrif refeniw tai, ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio. Seilir y swm o £5,208,000 a ddangosir (£5,219,000 yn 2009/10) ar brisiadau mantolen net agoriadol 2010/11 (rhestr brisio namyn dibrisiant cronnus) gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol.

| | 2011 | 2010 | |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | |
| Anheddau | 5,200 | 5,200 | (yn cyfateb i werth y Lwfans Atgyweiriadau Mawr) |
| Garejys | 0 | 8 | |
| Peiriannau a chyfarpar | 8 | 11 | |
| | 5,208 | 5,219 | |

### Colledion oherwydd amhariadau a gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud

Roedd cyfanswm yr addasiadau oherwydd amhariadau ar anheddau, y rhoddwyd cyfrif amdano yn y cyfrif refeniw tai yn 2010/11, yn cyfateb i £1,604,000 (£94,498,000 yn 2009/10). Ni chafwyd dim gwariant refeniw a gyllidwyd o gyfalaf dan statud yn 2010/11 (fel yn 2009/10).

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR GRŴP

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | | 2011 | | | 2010 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| **Dadansoddiad o Wariant ar Wasanaethau** | **1** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gofal cymdeithasol i oedolion | | 58,969 | 16,921 | 42,048 | 56,020 | 16,414 | 39,606 |
| Gwasanaethau canolog i'r cyhoedd | | 2,953 | 1,569 | 1,384 | 3,569 | 1,754 | 1,815 |
| Addysg a gwasanaethau plant | | 158,369 | 24,768 | 133,601 | 236,470 | 26,009 | 210,461 |
| Gwasanaethau diwylliannol, amgylcheddol, rheoleiddio a chynllunio | 2 | 64,999 | 24,768 | 40,231 | 70,512 | 17,644 | 52,868 |
| Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth | | 27,094 | 8,677 | 18,417 | 24,782 | 9,083 | 15,699 |
| Gwasanaethau tai: | | | | | | | |
| Tai - Cronfa'r Cyngor | | 54,840 | 49,658 | 5,182 | 51,397 | 48,382 | 3,015 |
| Cyfrif Refeniw Tai * | | 26,079 | 24,058 | 2,021 | 142,573 | 23,676 | 118,897 |
| Craidd corfforaethol a democrataidd | | 2,350 | 16 | 2,334 | 1,756 | 16 | 1,740 |
| Costau na ddosbarthwyd | | 3,697 | 0 | 3,697 | 6,837 | 0 | 6,837 |
| Costau eithriadol na ddosbarthwyd | | (34,157) | 0 | (34,157) | 0 | 0 | 0 |
| Gostwng gwerth costau peiriannau a chyfarpar | | 0 | 0 | 0 | 3,871 | 0 | 3,871 |
| **Cost net gwasanaethau *** | | **365,193** | **150,435** | **214,758** | **597,787** | **142,978** | **454,809** |
| **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | | | | |
| Elw net o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | | | | (323) | | | (648) |
| Ardoll - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | | | | 7,119 | | | 6,973 |
| Praesept - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | | | | 12,186 | | | 11,793 |
| Praeseptwyr eraill - cynghorau cymuned | | | | 2,119 | | | 2,040 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu Arall** | | | | **21,101** | | | **20,158** |
| **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | | | | |
| Llog taladwy a thaliadau tebyg | | | | 9,985 | | | 10,117 |
| Colledion buddsoddi a gwariant buddsoddi | | | | 5,326 | | | 8,605 |
| Incwm llog a buddsoddiadau | | | | (6,198) | | | (8,009) |
| Cost llog pensiynau | | | | 32,897 | | | 30,299 |
| Elw disgwyliedig ar asedau pensiynau | | | | (22,906) | | | (17,024) |
| Treth endidau grwp | | | | 16 | | | 55 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | **19,120** | | | **24,043** |
| **Gwariant gweithredu net *** | | | | **254,979** | | | **499,010** |
| **Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol** | | | | | | | |
| Incwm o'r Dreth Gyngor | | | | (67,384) | | | (65,151) |
| Dosbarthiad o'r gronfa ardrethi annomestig | | | | (42,236) | | | (40,437) |
| Grantiau - refeniw (cyffredinol) a chyfalaf (pob un) | | | | (166,478) | | | (161,621) |
| **Cyfanswm Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol** | | | | **(276,098)** | | | **(267,209)** |
| **(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau *** | | | | **(21,119)** | | | **231,801** |
| (Gwarged)/diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol * | | | | (4,231) | | | (109,559) |
| (Gwarged)/diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | | | (14) | | | 66 |
| (Enillion) neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau | | | | (15,729) | | | 66,190 |
| Incwm a gwariant cynhwysfawr arall | | | | 353 | | | (320) |
| **Cyfanswm incwm neu wariant cynhwysfawr** | | | | **(40,740)** | | | **188,178** |

* ffigurau a addaswyd o'r cyfnod blaenorol (cyfrif refeniw tai)

# NODIADAU AR Y CYFRIFON GRŴP

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

## 1. IS-GWMNI

Yn ystod y flwyddyn roedd gan y Cyngor fuddiannau sylweddol yn AD Waste Limited, a gadarnhawyd yn is-gwmni. Roedd yn gwmni 'hyd braich' gwaredu gwastraff awdurdod lleol, fel y caniateir dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Roedd AD Waste Limited yn is-gwmni i'r Cyngor yn yr ystyr:

- Bod y Cyngor yn gallu rheoli polisïau gweithredu a pholisïau ariannol yr endid, a
- Bod y Cyngor yn gallu cael manteision o'r endid, neu'i fod yn agored i'r risg y gallai colledion posibl ddeillio o'r rheolaeth honno.

Breiniwyd AD Waste Limited yn ystod 1993/94. Fe'i corfforwyd yn gwmni preifat yn 1991, a'i wneud yn gyfyngedig drwy gyfranddaliadau. Rhyddhawyd cyfranddaliadau ar sail 100 o gyfranddaliadau £1 cyffredin a 654,900 o flaengyfranddaliadau £1 cyffredin (cafodd 300,000 ohonynt eu hadbrynu ar sail eu gwerth llawn yn 1995/96). Cyngor Sir y Fflint oedd yr unig gyfranddaliwr. Roedd cytundeb cyfranddalwyr cynhwysfawr rhwng y cwmni a'r Cyngor, a oedd yn egluro'r holl faterion a oedd yn ymwneud â pholisi difidendau, cynnal busnes y cwmni a chyflwyno adroddiadau ariannol.

Ar gyfer y cyfnod 184 diwrnod a ddaeth i ben ar 1 Hydref 2010, mae cyfrif elw a cholled AD Waste yn dangos elw gweithredu o £139,000 (elw o £241,000 i gyd ar gyfer 2009/10) ar weithrediadau y rhoddwyd y gorau iddynt, ac mae cyfanswm asedau net y fantolen yn cyfateb i £4,068,000 (£1,049,000 yn 2009/10).

Gellir cael copïau o gyfrifon AD Waste Limited o'r cyfeiriad canlynol: AD Waste Limited, 5/7 Grosvenor Court, Foregate Street, Chester, CH1 1HG.

## 2. INCWM A GWARIANT

Yn ystod y flwyddyn talodd y Cyngor £3,642,000 i AD Waste Limited, yn bennaf mewn perthynas â ffïoedd tipio, trethi tirlenwi a ffïoedd rheoli (£7,000,000 yn 2009/10). Roedd derbyniadau gan y cwmni, yn bennaf ar ffurf breindaliadau, difidendau a chyfraniadau i'r gronfa bensiynau, yn cyfateb i £214,000 (£441,000 yn 2009/10).

## 3. TROSGLWYDDO GWEITHGAREDDAU

Ar 29 Hydref 2008, penderfynodd Cyngor Sir y Fflint reoli gweithgareddau'r cwmni'n fewnol. Cafodd masnach ac asedau'r cwmni, ar sail gwerthoedd teg, eu trosglwyddo ar 30 Medi 2010; mae'r trafodyn wedi'i gofnodi yn y Rhagair Esboniadol ar dudalen 3, dan y pennawd 'Asedau a Gaffaelwyd a Rhwymedigaethau yr Aethpwyd Iddynt'.

## 4. IS-GWMNÏAU ERAILL

Nid oes dim is-gwmnïau eraill sydd wedi'u heithrio o'r broses grynhoi.

## 5. TREFNIADAU AR Y CYD NAD YDYNT YN ENDIDAU

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwneud ar hyn o bryd â phedwar trefniant ar y cyd nad ydynt yn endidau (trefniadau dan gontract, sy'n golygu bod y cyfranogwyr yn ymwneud â gweithgareddau ar y cyd nad ydynt yn creu endid, gan nad yw'r cyfranogwyr yn ymgymryd â'u masnach neu'u busnes eu hunain). Dyma'r pedwar trefniant :-

- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru
- Canolfan Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
- Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru.

Nid ystyrir bod cyfran y Cyngor o asedau a rhwymedigaethau pob un o'r trefniadau uchod yn bwysig at ddibenion cyfrifyddu/llunio adroddiadau.

**CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

## DULL RHEOLI AC AELODAETH CRONFA BENSIYNAU CLWYD

Caiff Cronfa Bensiynau Clwyd ei gweinyddu gan Gyngor Sir y Fflint, sy'n awdurdod arweiniol. Ystyrir a chytunir ar strategaeth fuddsoddi a gweinyddu'r Gronfa bob chwarter gan Banel Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n cynnwys pum Aelod etholedig, y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd, ymgynghorydd i'r Gronfa, ac aelod o'r cynllun sy'n sylwedydd. Yn ystod 2010/11 cafodd trefniadau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa eu gweithredu gan bymtheg o reolwyr buddsoddi.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) statudol a sefydlwyd i ddarparu buddion marwolaeth a buddion ymddeol i weithwyr llywodraeth leol yng ngogledd-ddwyrain Cymru heblaw athrawon, heddweision ac ymladdwyr tân. Yn ogystal derbyniwyd cyrff cymwys eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg i rai awdurdodau lleol yn aelodau o'r CPLlL, ac yn aelodau o'r Gronfa hefyd felly.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn gweithredu cynllun buddion diffiniedig lle caiff buddion ymddeol eu seilio ar gyflog terfynol gweithwyr a hyd eu gwasanaeth. Cafodd y Gronfa ei hariannu gan gyfraniadau ar sail canran newidiol gan weithwyr a chyflogwyr, sy'n ystyried y berthynas rhwng asedau a rhwymedigaethau (gweler Nodyn 17). Caiff buddion y cynllun eu pennu'n genedlaethol gan Reoliadau a luniwyd dan Ddeddf Budd-dâl Ymddeol 1972.

Caiff aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth 2011 ei dangos isod:-

| | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| | **No.** | **No.** |
| Cyfraniadau | 14,960 | 15,073 |
| Pensiynwyr: | | |
| Cyn-weithwyr | 7,641 | 7,395 |
| Gweddwon/dibynyddion | 1,450 | 1,425 |
| Buddion a ddiogelwyd | 6,910 | 5,969 |
| Cyfanswm yr aelodau | 30,961 | 29,862 |

Dyma'r cyrff rhestredig a gyfrannodd i'r Gronfa yn ystod 2010/11:-

| | |
|---|---|
| Siroedd: | Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam. |
| Colegau: | Prifysgol Glyndŵr, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Llysfasi, Coleg Iâl Wrecsam. |
| Cynghorau cymuned: | Argoed, Coedpoeth, Cei Connah, Penarlâg, Rhosllannerchrugog, Bwcle, Prestatyn, Offa, Yr Wyddgrug, Parc Caia, Y Rhyl, Shotton, Llanasa. |
| Eraill: | Yale Enterprise Ltd, Bwrdd Prawf Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru. |

Dyma'r cyrff a dderbyniwyd ac sy'n cyfrannu i'r Gronfa:-

| | |
|---|---|
| Eraill: | Gyrfa Cymru, AD Waste, Cartref y Dyffryn Ceiriog, Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Clwyd Leisure, Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan. |

Mae cynnwys y cyfrifon yn cydymffurfio â safonau cyfrifo, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd, a gyflwynir bob blwyddyn i'r Cydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ar gyfer cyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau a gynhelir ym mis Tachwedd.

# CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD
# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

## SAFONAU CYFRIFO

Ar 6 Mai 2010, cyhoeddodd y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol ddogfen o'r enw "Improving disclosures about financial instruments (Amendments to IFRS 7)". Er mwyn gwella'r wybodaeth a gaiff ei datgelu am y modd y mae endidau'n mesur gwerth teg eu hofferynnau ariannol, mae'r gofynion datgelu yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 wedi'u hymestyn i gyflwyno hierarchaeth gwerth teg a datgeliadau risg mwy manwl. Mae'r datgeliadau newydd yn berthnasol i gyfnodau o flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2011 neu wedi hynny.

Felly, hon yw'r flwyddyn gyntaf i Awdurdodau Lleol orfod paratoi eu cyfrifon ar sail y ffaith eu bod wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn llawn. Côd Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol 2010/11 yw'r Côd cyntaf i gael ei seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac o ganlyniad mae Cyfrifon 2010/11 yn wahanol iawn i'r rhai a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd a fu.

## POLISÏAU CYFRIFO

Yr egwyddorion cyffredinol a fabwysiadwyd wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon llawn yw'r egwyddorion a argymhellir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Maent yn bodloni gofynion Rheoliadau Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol ac argymhellion "Côd Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11" (y Côd) sydd wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r gofynion datgelu ar gyfer cyfrifon cryno'r gronfa bensiynau wedi'u cyfyngu i'r rheini a argymhellir gan y Côd.

Ceir mwy o fanylion yn yr adrannau perthnasol am y polisïau cyfrifo a fabwysiadwyd, ac ar wahân i'r un cyntaf a nodir yma, maent yr un fath â pholisïau cyfrifo'r flwyddyn flaenorol. Yn gryno –

- Mae gan y Cynllun ei gyfrif banc ei hun lle cafodd gweddill arian parod y cynllun ei gadw o 1 Ebrill 2011 ymlaen. Mae hynny'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Cyn hynny, câi gweddill arian parod y cynllun ei gadw yng nghyfrifon banc yr awdurdod gweinyddu.
- Caiff cyfraniadau, buddion ac incwm buddsoddi sy'n ddyledus ar 31 Mawrth eu cynnwys ar sail croniadau.
- Caiff buddsoddiadau eu cynnwys yn y cyfrifon yn ôl eu gwerth ar y farchnad, ar sail y pris cynnig fel rheol.
- Caiff dyledwyr a chredydwyr eu llunio ar gyfer pob swm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth.
- Mae gwerthoedd trosglwyddo a dderbyniwyd ac a dalwyd wedi'u cyfrifo ar sail arian parod.
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl y cyfnod cyfrifo yr adroddir yn ei gylch.
- Caiff treuliau rheoli buddsoddiadau eu dangos ar wahân i gostau gweinyddu'r cynllun yng Nghyfrif y Gronfa, ac maent yn cynnwys y ffïoedd a dalwyd ac sy'n ddyledus i reolwyr a cheidwad y Gronfa, ffïoedd actiwaraidd a ffïoedd ymgynghorwyr mesur perfformiad a buddsoddi.
- Mae costau caffael buddsoddiadau yn cynnwys holl gostau uniongyrchol trafodion, a chaiff derbyniadau yn sgîl gwerthu eu dangos heb gynnwys holl gostau uniongyrchol trafodion.
- Caiff contractau deilliadol sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos ar sail gwerth teg fel asedau a rhwymedigaethau buddsoddi.

# CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | | 2011 | | | 2010 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfraniadau a buddion** | | | | | | | |
| Cyfraniadau derbyniadwy : | | | | | | | |
| gan gyflogwyr | **1** | 51,433 | | | 50,713 | | |
| gan weithwyr neu aelodau | **1** | 15,102 | | | 14,915 | | |
| | | | 66,535 | | | 65,628 | |
| Trosglwyddwyd i mewn | | 9,801 | | | 6,774 | | |
| Incwm arall | | 1,622 | | | 2,571 | | |
| | | | 11,423 | | | 9,345 | |
| | | | | 77,958 | | | 74,973 |
| Buddion taladwy : | | | | | | | |
| Pensiynau | **1** | 39,479 | | | 37,637 | | |
| Cyfandaliadau (ymddeoliad) | **1** | 12,953 | | | 11,444 | | |
| Cyfandaliadau (grantiau marwolaeth) | **1** | 1,152 | | | 897 | | |
| | | | 53,584 | | | 49,978 | |
| Taliadau i'r rhai a adawodd y cynllun neu o'u herwydd : | | | | | | | |
| Ad-dalu cyfraniadau | | 10 | | | 18 | | |
| Trosglwyddwyd allan (unigol) | | 4,690 | | | 4,869 | | |
| Arall | | 213 | | | 179 | | |
| Costau gweinyddol a threuliau eraill | **2** | 1,262 | | | 1,280 | | |
| | | | 6,175 | | | 6,346 | |
| | | | | 59,759 | | | 56,324 |
| **YCHWANEGIADAU NET (TYNNWYD ALLAN)** | | | | 18,199 | | | 18,649 |
| **Enillion ar fuddsoddiadau** | | | | | | | |
| Incwm buddsoddiadau | **4** | | 2,898 | | | 2,466 | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad (wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu) | **4** | | 79,965 | | | 241,627 | |
| Costau rheoli buddsoddiadau | **2** | | (5,080) | | | (4,321) | |
| **ENILLION NET AR FUDDSODDIADAU** | | | | 77,783 | | | 239,772 |
| **(GOSTYNGIAD)/CYNNYDD NET YN Y GRONFA** | | | | 95,982 | | | 258,421 |
| **ASEDAU NET AGORIADOL** | | | | 955,833 | | | 697,412 |
| **ASEDAU NET WRTH GAU'R CYFRIFON** | | | | 1,051,815 | | | 955,833 |

# CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 2011 £000 | 2010 £000 | 2009 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Datganiad asedau net** | | | | |
| **Asedau buddsoddiadau :** | **5** | | | |
| Cronfa â llof sefydlog a reolir | | 123,024 | 111,825 | 88,246 |
| Cronfa Ecwiti'r DU a reolir | | 161,383 | 241,446 | 132,111 |
| Cronfa Ecwiti Tramor a reolir | | 263,366 | 271,001 | 197,178 |
| Cronfeydd amlstrategaeth a reolir | | 88,318 | 44,318 | 37,974 |
| Cronfeydd eiddo | | 65,317 | 52,077 | 45,485 |
| Cronfeydd seilwaith | | 20,753 | 16,243 | 12,831 |
| Cronfeydd coed | | 12,212 | 11,120 | 9,641 |
| Cronfeydd nwyddau | | 39,814 | 14,847 | 11,119 |
| Cronfeydd ecwiti preifat | | 112,563 | 86,810 | 74,730 |
| Cronfa fantoli o gronfeydd | | 50,646 | 52,121 | 34,848 |
| Cronfeydd arian cyfred | | 0 | 28,400 | 29,440 |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | | 16,346 | 20,043 | 14,514 |
| Cytundeb 'Futures' | **11** | 665 | 0 | 0 |
| Asedau buddsoddiadau eraill | **9** | 1,218 | 0 | 2,002 |
| Arian parod | **7** | 97,373 | 2,944 | 4,062 |
| **Rhwymedigaethau buddsoddiadau :** | | | | |
| Cytundeb 'Futures' | **11** | (169) | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau buddsoddi eraill | **9** | (1,195) | 0 | 0 |
| **Asedau cyfredol :** | | | | |
| Dyledus cyn pen blwyddyn | **8** | 4,157 | 3,909 | 3,708 |
| Dyledus ar ôl blwyddyn | **8** | 359 | 471 | 0 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | **8** | (4,335) | (1,742) | (477) |
| **ASEDAU NET AR 31 MAWRTH** | | 1,051,815 | 955,833 | 697,412 |

**NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

## 1. DADANSODDIAD O GYFRANIADAU I'W DERBYN/BUDDION I'W TALU

Y cyfraniadau yw'r symiau hynny sydd i'w derbyn gan wahanol awdurdodau cyflogi parthed eu cyfraniadau eu hunain a chyfraniadau gweithwyr pensiynadwy. Roedd cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn ystod 2010/11 yn cyfateb i £51.433m (£50.713m yn 2009/10). Roedd y swm hwnnw'n cynnwys £29.823m (£29.426m yn 2009/10) a oedd yn ymwneud â'r gyfradd gyfrannu gyffredin o 12.5% a delir gan bob cyflogwr, a £21.610m (£21.287m yn 2009/10) a oedd yn ymwneud â'r cyfraddau addasedig unigol a chyfraniadau ychwanegol a delir mewn perthynas â chyllido diffygion ar gyfer cyflogwyr unigol.

Cafodd buddion sydd i'w talu ac ad-daliadau cyfraniadau eu cynnwys yn y cyfrifon ar sail yr holl hawliadau dilys a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Gwelir dadansoddiad o gyfraniadau a dderbyniwyd a buddion i'w talu isod:-

| | **Buddion Taladwy** | **Cyfraniadau Derbyniadwy** |
|---|---|---|
| **Cyrff Rhestredig -** | **£000** | **£000** |
| Cyngor Sir y Fflint | 18,034 | 22,550 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 17,487 | 20,026 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 11,140 | 16,018 |
| Dosrannwyd y gronfa â : | | |
| Chynghorau Sir Gwynedd a Phowys | 2,477 | 0 |
| Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru | 1,208 | 1,527 |
| Colegau | 2,120 | 4,102 |
| Cynghorau Cymuned | 191 | 194 |
| Eraill - cyrff rhestredig | 533 | 1,233 |
| Eraill - cyrff a dderbyniwyd | 394 | 885 |
| | 53,584 | 66,535 |

Dim ond adlewyrchu'r ffigurau sydd yn y cyfrifon a wna'r uchod. Mae amgylchiadau pob un o'r cyrff a restrir yn wahanol am amrywiaeth o resymau (proffiliau cyfraniadau a phensiynwyr, cyfraddau cyfrannu gweithwyr, profiad o ymddeoliadau cynnar ac ati) ac mae llunio cymariaethau uniongyrchol yn ddiystyr i raddau helaeth felly.

Mae Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych wedi cydnabod rhwymedigaeth, yn eu cyfrifon eu hunain, i dalu cyfraniadau pensiwn ar yr elfen ôl-daliadau yn eu setliadau cyflog cyfartal. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yn ymwneud â gwerth ac amseriad y taliadau hyn, nid yw'r symiau hyn wedi'u cydnabod eto yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn.

## 2. TREULIAU RHEOLI BUDDSODDIADAU A GWEINYDDU

Mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r Cyngor Sir godi cost gweinyddu'r cynllun ar y Gronfa. Cyfrifwyd am ffïoedd y rheolwyr allanol ar sail yr hyn sydd yn eu cytundeb rheoli.

NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

parhad

## 2. TREULIAU RHEOLI BUDDSODDIADAU A GWEINYDDU (parhad)

Caiff cost gweinyddu pensiynau a rheoli buddsoddiadau ei dangos isod:-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ffioedd rheoli buddsoddiadau | 5,080 | 4,321 |
| Gweinyddu | 1,262 | 1,280 |
| | 6,342 | 5,601 |

Caiff ffïoedd rheoli buddsoddiadau eu seilio ar brisiadau'r buddsoddiadau. Mae'r Gronfa wedi'i buddsoddi mewn cronfeydd cyfun, a chaiff mwyafrif eu ffïoedd eu codi o fewn y Cronfeydd. Er mwyn gweithredu mewn modd tryloyw, mae'r Gronfa yn datgelu'r ffïoedd hynny. Roedd y ffïoedd a gafodd eu cynnwys yn y Cronfeydd Cyfun yn cyfateb i £3.9m yn ystod y flwyddyn (nodyn 4).

## 3. BUDDSODDIADAU A PHERFFORMIAD

Ceir rhagor o fanylion am y strategaeth fuddsoddi yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sydd ar gael drwy gysylltu â'r Pennaeth Cyllid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA (gwefan: www.clwydpensionfund.org.uk neu ffôn: 01352 702264).

Mae'r Cyngor Sir yn defnyddio gwasanaethau perfformiad buddsoddiadau Cwmni WM. Dangosodd adroddiad y cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11 fod y Gronfa wedi gwneud elw cyffredinol o +7.8% o'i buddsoddiadau (+33.3% yn 2009/10). Mae hynny'n cymharu ag elw meincnod o +6.2% i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn.

Aeth y Gronfa ati i adolygu trefniadau rheoli'r gronfa yn 2010/11. Effaith y newidiadau, a wnaed gan mwyaf ym mis Mawrth 2011, sydd i gyfrif am y gwahaniaethau a welir mewn trafodion a gwerthoedd rhwng 2009/10 a 2010/11. Caiff y prif drafodion eu hamlinellu yn nodyn 10, ond mae'r newidiadau eraill a wnaed yn cynnwys:

- Newidiadau i'r gorchmynion dyrannu a buddsoddi asedau (nodyn 5)
- Cynnydd mewn achosion o brynu a gwerthu o ganlyniad i'r newid (nodyn 4)
- Cynnydd mewn gweddill arian parod ar 31 Mawrth 2011 (nodyn 7)

## 4. DADANSODDIAD O DRAFODION AC ELW AR FUDDSODDIADAU

### Trosolwg

Mae'r Gronfa'n buddsoddi unrhyw warged sydd ganddi mewn asedau trwy ystod eang o reolwyr. Mae'r prif fuddsoddiadau hyn i gyd yn digwydd trwy gronfeydd cyfun lle mae'r Gronfa yn un o nifer o fuddsoddwyr a lle caiff yr arian cyfun ei fuddsoddi ar sail gyffredin. Er hynny, ymhlith asedau amgen y Gronfa ceir un neu ddau o ddaliannau a ddyfynnir. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oes gan y Gronfa ddaliannau uniongyrchol o safbwynt soddgyfrannau, bondiau, eiddo, cwmnïau ecwiti preifat, nwyddau neu offerynnau ariannol eraill.

### Trafodion ac Elw ar Fuddsoddiadau

Isod gwelir manylion trafodion buddsoddi 2010/11 a'r elw net o £44.275m o werthu (£11.192m yn 2009/10) ynghyd ag incwm buddsoddi o £2.828m (£2.466m yn 2009/10). Yr oedd yr elw nas gwireddwyd ar gyfer 2010/11, o ganlyniad i newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad, yn cyfateb i £35.690m (£230.435m yn 2009/10). Y cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau (a wireddwyd ac nas gwireddwyd) ar y farchnad felly yw £79.965m (£241.627m yn 2009/10).

## 4. DADANSODDIAD O DRAFODION AC ELW AR FUDDSODDIADAU (parhad)

Caiff costau uniongyrchol trafodion eu cynnwys yng nghost prynu ac enillion o werthu. Costau trafodion yw costau ychwanegol y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i waith caffael a gwerthu buddsoddiad. Maent yn cynnwys ffïoedd a thaliadau comisiwn a delir i asiantiaid, ymgynghorwyr, broceriaid a delwyr, ardollau gan asiantaethau rheoleiddio a chyfnewidfeydd gwarannau, a threthi a thollau trosglwyddo. Cânt eu hychwanegu at gostau prynu neu'u gosod yn erbyn enillion o werthu, fel y bo'n briodol. Ni ellir adnabod y costau hyn yn uniongyrchol gan fod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei buddsoddi bron yn gyfan gwbl drwy gronfeydd cyfun. Mae incwm buddsoddi yn cynnwys difidendau cyfranddaliadau, llog ar fuddsoddiadau ac incwm net o rentu eiddo. Gwneir croniadau ar gyfer difidendau sydd i'w derbyn, llog sydd i'w dderbyn a threth y gellir ei hadennill ar ddifidendau.

| | Gwerth ar y farchnad 2009/10 | Pryndiadau ac ychwanegi | Gwerthiannau a Take Off | Elw a wireddwyd (Colled) | Elw heb ei wireddu (Colled) | Gwerth ar y farchnad 2010/11 | Incwm buddsoddiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwarannau â llog sefydlog | 111,825 | 18,082 | 17,995 | 70 | 11,042 | 123,024 | 0 |
| Ecwitïau Gweithredol y DU | 241,446 | 151,557 | 345,516 | (7,564) | 23,736 | 63,659 | 254 |
| Ecwitïau Goddefol y DU | 0 | 97,753 | 0 | 0 | (29) | 97,724 | 0 |
| Ecwitïau Tramor Gweithredol | 271,001 | 230,463 | 347,474 | 45,637 | (25,407) | 174,219 | 521 |
| Ecwitïau Tramor Goddefol | 0 | 89,237 | 0 | 0 | (90) | 89,147 | 0 |
| Amlstrategaeth | 44,318 | 41,276 | 0 | 0 | 2,724 | 88,318 | 0 |
| Eiddo | 52,077 | 12,861 | 3,566 | 0 | 3,945 | 65,317 | 1,778 |
| Seilwaith | 16,243 | 4,087 | 365 | 0 | 788 | 20,753 | 213 |
| Coed | 11,120 | 1,141 | 175 | 0 | 126 | 12,212 | 0 |
| Nwyddau | 14,847 | 20,042 | 0 | 0 | 4,925 | 39,814 | 0 |
| Ecwiti preifat | 86,810 | 24,241 | 12,253 | 1,638 | 12,127 | 112,563 | 62 |
| Cronfa fantoli o gronfeydd ) | 52,121 | 8,000 | 12,325 | (1,008) | 3,858 | 50,646 | 0 |
| Arian cyfred | 28,400 | 0 | 26,612 | 860 | (2,648) | 0 | 0 |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | 20,043 | 0 | 5,165 | 1,361 | 97 | 16,346 | 0 |
| | 950,251 | 698,740 | 771,446 | 40,994 | 35,194 | 953,742 | 2,828 |
| Arian parod | 2,944 | 0 | 0 | 0 | 0 | 97,373 | 0 |
| Cytundebau Futures | 0 | 0 | 0 | (656) | 496 | 496 | 0 |
| Ffioedd cyfryngau cronedig | 0 | 0 | 0 | 3,900 | 0 | 0 | 0 |
| Llog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 |
| Arian cyfred | 0 | 0 | 0 | 37 | 0 | 0 | 0 |
| | 2,944 | 0 | 0 | 3,281 | 496 | 97,869 | 70 |
| Cyfanswm 2010/11 | 953,195 | 698,740 | 771,446 | 44,275 | 35,690 | 1,051,611 | 2,898 |
| 2009/10 | 692,179 | 88,962 | 64,791 | 11,192 | 230,435 | 953,195 | 2,466 |

## 5. GWERTH BUDDSODDIADAU AR Y FARCHNAD (AC EITHRIO ARIAN A BLAENDRAFODION)

£856.413m yw cost y buddsoddiadau ar bapur ar 31 Mawrth (£888.116m yn 2009/10). £953.742m yw gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 (£950.251m yn 2009/10) a gellir eu dadansoddi fel a ganlyn.

### Yn ôl Cyfandir

Mae'r daliannau yn y DU ar 31 Mawrth 2011 yn cyfateb i 27% o gyfanswm y buddsoddiadau yn ôl gwerth ar y farchnad

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| DU | 254,729 | 330,881 |
| Ewrop | 114,927 | 114,931 |
| Asia a'r Môr Tawel | 79,608 | 75,486 |
| Gogledd America | 78,688 | 88,643 |
| Marchnadoedd sy'n datblygu | 72,463 | 44,545 |
| Buddsoddiadau byd-eang | 353,327 | 295,765 |
| | 953,742 | 950,251 |

### Yn ôl Rheolwr Cronfa

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| Fidelity | 0 | 0 | 31,568 | 3 |
| BlackRock | 59,043 | 6 | 77,737 | 8 |
| Gottex | 61,415 | 7 | 108,480 | 11 |
| Wellington | 66,165 | 7 | 59,392 | 6 |
| Aberdeen | 50,075 | 5 | 43,918 | 5 |
| T Rowe Price | 0 | 0 | 52,399 | 5 |
| TT International | 0 | 0 | 20,898 | 2 |
| BlackRock (Quellos) | 0 | 0 | 10,108 | 1 |
| State Street (Transition Manager) | 48,512 | 5 | 0 | 0 |
| Pioneer | 3,645 | 0 | 5,501 | 1 |
| Liongate | 23,269 | 2 | 18,050 | 2 |
| SSARIS | 23,732 | 3 | 18,462 | 2 |
| Goldman Sachs | 0 | 0 | 28,400 | 3 |
| Standard Life | 0 | 0 | 132,966 | 14 |
| Investec | 51,525 | 5 | 44,254 | 5 |
| Stone Harbor | 123,024 | 13 | 111,825 | 12 |
| SSgA | 186,871 | 20 | 0 | 0 |
| Pyrford | 29,275 | 3 | 0 | 0 |
| Eiddo | 65,317 | 7 | 52,077 | 6 |
| Seilwaith | 20,753 | 2 | 16,243 | 2 |
| Coed | 12,212 | 1 | 11,120 | 1 |
| Ecwiti preifat | 112,563 | 12 | 86,810 | 9 |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | 16,346 | 2 | 20,043 | 2 |
| | 953,742 | 100 | 950,251 | 100 |

**NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

parhad

## 6. GWERTH TEG BUDDSODDIADAU

### Offerynnau ariannol

Er mai prin iawn y bydd y Gronfa'n buddsoddi mewn unrhyw beth ond cronfeydd cyfun, mae rheolwyr y cronfeydd hynny'n buddsoddi mewn amrywiaeth o offerynnau ariannol gan gynnwys adneuon, offerynnau ecwiti a ddyfynnir, gwarannau llog sefydlog, daliannau eiddo uniongyrchol, cynnyrch ecwiti anrhestredig, blaendrafodion nwyddau a deilliadau eraill. Mae hynny'n golygu bod y Gronfa'n agored i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys risg o ran credyd a phartïon eraill cytundebau, risg o ran hylifedd, risg o ran y farchnad a risg o ran y gyfradd gyfnewid.

Benthyca stoc yw'r hyn a wna un buddsoddwr wrth fenthyca gwarannau penodol i fuddsoddwr arall, gan gadw'r hawl i barhau i dderbyn incwm a gynhyrchir gan y stoc ynghyd â thaliad ychwanegol gan y sawl sy'n cael ei fenthyg. Caiff lefel y risg ei lleihau wrth i'r sawl sy'n cael benthyg y stoc ddarparu sicrwydd cyfochrog o safon (arian parod, gwarannau neu stociau ymyl aur). Gweithgaredd masnachu i gynhyrchu incwm ydyw i bob pwrpas, yn hytrach na buddsoddiad. Nid yw'r Gronfa yn ymwneud yn uniongyrchol â benthyca stoc, ond mae rheolwr ecwiti goddefol y Gronfa yn defnyddio'r arfer o fenthyca stoc yn ei gronfeydd cyfun er mwyn cynhyrchu incwm i'w roi yn erbyn costau trafodion.

### Gwerth teg – Seiliau Prisio

Caiff buddsoddiadau eu dangos yn y cyfrifon yn ôl eu gwerth teg ar 31 Mawrth 2011, ar sail y canlynol:

- Caiff gwarannau rhestredig yn y DU a thramor eu prisio o fewn y cronfeydd cyfun priodol gan ddefnyddio'r prisiau cynnig swyddogol a ddyfynnwyd ar y gyfnewidfa stoc berthnasol. Caiff daliannau tramor eu trosi i sterling ar sail cyfradd gyfnewid a ddyfynnwyd pan gaeodd y marchnadoedd ar 31 Mawrth 2011.
- Caiff unedau buddsoddi eu prisio ar sail y pris cynnig ar y farchnad.
- Caiff cronfeydd cyfun eraill eu prisio ar bwynt cynnig y broses ddiweddaraf a ddyfynnwyd gan eu rheolwyr neu'u gweinyddwyr cronfa priodol ar 31 Mawrth 2011. Os nad oes pris cynnig ar gael, caiff yr asedau eu prisio ar sail y gwerth net a ddarparwyd ar gyfer yr ased.
- Caiff cronfeydd eiddo eu prisio ar sail y pris cynnig ar y farchnad, sydd wedi'i seilio ar brisiad annibynnol rheolaidd o ddaliannau eiddo gwaelodol y gronfa gyfun.
- Mae daliannau ecwiti preifat yn fuddiannau mewn partneriaethau cyfyngedig. Caiff y daliannau hyn eu prisio ar sail cyfran y Gronfa o asedau net y bartneriaeth yn ôl y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd gan y rheolwyr priodol. Os nad yw'r prisiadau hyn yn cyd-daro â dyddiad mantolen y Gronfa, caiff y prisiadau eu haddasu gan ystyried y prynu a'r gwerthu diweddaraf, gwerth asedau a gwybodaeth ariannol arall sydd ar gael adeg paratoi'r datganiadau hyn, er mwyn adlewyrchu dyddiad mantolen y Gronfa. Caiff datganiadau prisio'r rheolwyr eu paratoi yn unol â Chanllawiau Cymdeithas Cyfalaf Menter ac Ecwiti Preifat Ewrop (EVCA), heb gynnwys y llog a ddygir. Mae'r rhain yn cynnwys protocol FAS157 yr Unol Daleithiau ar ddulliau prisio –
    - Dull Marchnad – mae'n defnyddio prisiau a data perthnasol arall a gynhyrchir gan drafodion y farchnad, sy'n cynnwys yr un asedau/rhwymedigaethau'n union neu asedau/rhwymedigaethau cyffelyb (e.e. lluosrifau arian)
    - Dull Incwm – mae'n defnyddio technegau prisio i drosi symiau y disgwylir eu cael yn y dyfodol yn un swm cyfredol (enillion neu lifau arian gostyngol)
    - Dull Cost – wedi'i seilio ar y swm y byddai ei angen ar hyn o bryd i gymryd lle'r capasiti gwasanaeth sy'n perthyn i ased (wedi'i addasu ar gyfer darfodiant).

  Mae gofyn i reolwyr ddefnyddio'r dull sy'n briodol yn yr amgylchiadau a'r dull y defnyddir digon o ddata ar ei gyfer, a defnyddio'r dull hwnnw'n gyson tan nad yw'n briodol mwyach. Mae hefyd yn bosibl defnyddio sawl dull neu gyfuniad o ddulliau. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr ecwiti preifat yn defnyddio cyfuniad o ddulliau "marchnad" a dulliau "incwm".

## 6. GWERTH TEG BUDDSODDIADAU (parhad)

- At ei gilydd, caiff buddsoddiadau isadeiledd eu dwyn ar sail cost neu werth teg, pa bynnag un sydd isaf, ac eithrio lle ceir prisiadau penodol am i fyny neu am i lawr. Mae rheolwyr yn defnyddio eu doethineb wrth amcangyfrif gwerth teg, gan ystyried y canllawiau EVCA a nodwyd uchod ar gyfer prisio buddsoddiadau heb eu dyfynnu. Ni chaiff prisiadau am i fyny eu hystyried oni bai bod yr amcanion buddsoddi wedi'u dilysu a bod modd dangos cynnydd o'r fath. Os yw'r rheolwr o'r farn bod diffyg ar y buddsoddiad gwaelodol, caiff prisiadau am i lawr eu gweithredu ni waeth ym mha gyfnod y mae'r buddsoddiad.
- Caiff buddsoddiadau coetir eu dwyn ar sail gwerth net yr ased fel y pennwyd gan y Partner Cyffredinol. Gan amlaf, bydd gwerth teg yn deillio o'r datganiadau ariannol archwiliedig a ddarperir gan y rheolwyr neu'r cronfeydd gwaelodol. Os nad oes datganiadau ariannol archwiliedig ar gael hyd 31 Mawrth, bydd y prisiadau'n deillio o adroddiadau chwarterol anarchwiliedig y rheolwyr neu'r cronfeydd gwaelodol. Os yw'r buddsoddiadau coetir yn rhai uniongyrchol yn hytrach nag yn fuddsoddiadau a wnaed trwy reolwyr gwaelodol, caiff y prisiadau eu seilio ar brisiad annibynnol rheolaidd o'r daliannau hyn.
- Caiff cyswllt â nwyddau ei reoli'n weithredol trwy ddefnyddio offerynnau deilliadol dros y cownter ac offerynnau deilliadol a gaiff eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa (Blaendrafodion, Opsiynau a Chyfnewidiadau) a rhai gwarannau. Caiff deilliadau a gaiff eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa eu prisio gan ddefnyddio ffeil gwerthwr a gaiff ei hanfon yn ddyddiol o Bloomberg gydag IDC yn ail ffynhonnell. Daw'r prisiau hyn yn uniongyrchol o'r cyfnewidfeydd deilliadau. Caiff opsiynau eu prisio ar sail y pris masnachu olaf ar y brif gyfnewidfa. Os na cheir masnach mewn opsiwn, defnyddir y pris cynnig i brisio'r opsiwn. Daw prisiadau ar gyfer opsiynau dros y cownter o froceriaid/delwyr sydd fel rheol yn barti i'r cytundeb. Os yw'r mewnbynnau angenrheidiol ar gael gan werthwyr ar restr sy'n caniatáu prisio ar yr un diwrnod, gellir prisio opsiynau dros y cownter gan ddefnyddio cyfrifwr opsiynau a ddarperir gan y gwerthwr, a chan ddefnyddio pris y deliwr i ddilysu canlyniadau'r model. Caiff arian sy'n weddill ei fuddsoddi'n bennaf mewn rhwymedigaethau dyled ar ffurf doleri'r UD, sydd o radd fuddsoddi ac sydd dros gyfnod byr.
- Caiff cronfeydd o gronfeydd ymddiogelu a chronfeydd ymddiogelu amlstrategaeth eu prisio bob mis i greu gwerth asedau net ar sail cyfran gymesur y Gronfa o werth y cronfeydd cyfun gwaelodol, fesul rheolwr. At ei gilydd, mae gwerth teg buddsoddiad y Gronfa mewn cronfa gyfun gysylltiedig yn cyfateb i'r swm y gallai'r Gronfa ddisgwyl yn rhesymol ei gael o'r gronfa gyfun pe bai buddsoddiad y Gronfa'n cael ei adbrynu ar ddyddiad y prisiad, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael yn rhesymol adeg paratoi'r prisiad ac y mae'r Gronfa o'r farn ei bod yn ddibynadwy.
- Mae cronfeydd dyrannu asedau'n dactegol yn fyd-eang (GTAA) yn buddsoddi'n bennaf mewn marchnadoedd nad ydynt wedi'u seilio ar gyfnewidfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys marchnadoedd dros y cownter neu farchnadoedd lle mae delwyr yn masnachu â'i gilydd, a chaiff trosoledd ei ddefnyddio'n sylweddol gan gronfeydd o'r fath. Os nad oes prisiau ar y farchnad ar gael neu os nad ydynt yn adlewyrchu'r prisiau cyfredol ar y farchnad, bydd y Gronfa'n defnyddio'i pholisïau prisio ei hun gan gyfeirio at y prisiau perthnasol sydd ar gael i bennu gwerth teg yr asedau a ddelir.

### Gwerth teg - Hierarchaeth

Dan yr hierarchaeth gwerth teg a gyflwynwyd yn rhan o'r Côd cyfrifo newydd dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, rhaid dosbarthu asedau yn gategorïau ar sail 3 lefel o fewnbynnau prisio asedau –

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer offerynnau tebyg
- Lefel 2 – mewnbynnau marchnad y gellir eu gweld yn uniongyrchol, heblaw mewnbynnau Lefel 1

## NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

parhad

### 6. GWERTH TEG BUDDSODDIADAU (parhad)

- Lefel 3 – mewnbynnau nad ydynt wedi'u seilio ar ddata marchnad y gellir ei weld

Mae'r tabl canlynol yn dangos sefyllfa asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2011 ar sail yr hierarchaeth hon.

| | **Gwerth ar y farchnad 2010/11** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gwarannau â Llog Sefydlog | 123,024 | 104,251 | 1,341 | 17,432 |
| Ecwitïau Gweithredol y DU | 63,659 | 24,562 | 30,425 | 8,672 |
| UK Equities Passive | 97,724 | 0 | 97,724 | 0 |
| Ecwitïau Tramor Gweithredol | 174,219 | 173,209 | 5 | 1,005 |
| Ecwitïau Tramor Goddefol | 89,147 | 0 | 89,147 | 0 |
| Amlstrategaeth | 88,318 | 72,810 | 15,278 | 230 |
| Eiddo (1) | 65,317 | 0 | 0 | 65,317 |
| Seilwaith (1) | 20,753 | 3,965 | 0 | 16,788 |
| Coed (1) | 12,212 | 0 | 0 | 12,212 |
| Nwyddau | 39,814 | 20,814 | 19,000 | 0 |
| Ecwiti preifat (2) | 112,563 | 4,922 | 0 | 107,641 |
| Cronfe Fantoli o Gronfeydd | 50,646 | 215 | 45,584 | 4,847 |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | 16,346 | 0 | 0 | 16,346 |
| | 953,742 | 404,748 | 298,504 | 250,490 |
| Arian parod | 97,373 | 97,373 | 0 | 0 |
| Cytundebau 'Futures' | 496 | 0 | 496 | 0 |
| | 97,869 | 97,373 | 496 | 0 |
| Cyfanswm 2010/11 | 1,051,611 | 502,121 | 299,000 | 250,490 |

(1)Eiddo/Isadeiledd/Coed – defnyddir seiliau prisio amrywiol. Caiff daliannau uniongyrchol cronfeydd eu prisio ar sail prisiadau annibynnol, ond yn aml bydd gan gronfeydd fuddiannau'n ymwneud â mentrau ar y cyd a phartneriaethau, y defnyddir amrywiaeth o ddulliau i'w prisio. Er mwyn bod yn geidwadol, mae'r holl gronfeydd wedi'u dosbarthu i gategori Lefel 3, oni bai bod y gronfa ei hun yn un sydd wedi'i dyfynnu.

(2) Ecwiti preifat – defnyddir seiliau prisio amrywiol – cost, prisiau a ddyfynnwyd (wedi'u gostwng yn aml ar gyfer cyfnodau "cloi"), lluosrifau trafodion, lluosrifau marchnad, enillion o sylweddu yn y dyfodol, rhagolygon cwmni, barn trydydd parti ac ati. Yn aml, bydd prisiadau cwmnïau a chronfeydd yn adlewyrchu cyfuniadau o'r seiliau prisio hyn. Er mwyn bod yn geidwadol, mae'r holl gronfeydd wedi'u dosbarthu i gategori Lefel 3, oni bai bod y gronfa ei hun yn un sydd wedi'i dyfynnu.

Er nad yw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Gronfa wedi'u rhestru, mae buddsoddiadau gwaelodol y cronfeydd hynny wedi'u rhestru. O fewn y benthyciadau Ecwiti Preifat a'r Benthyciadau wedi'u Trosoli a'r portffolios Eiddo/Seilwaith/Coed, er bod rhai wedi'u rhestru, mae gan y Gronfa ddaliannau sylweddol mewn buddsoddiadau heb eu dyfynnu (£218.304m). Caiff y rhain eu prisio yn ôl gwerth teg gan reolwyr cronfeydd drwy ddefnyddio sylfaen brisio briodol. Mae'r prisiadau'n dibynnu i raddau helaeth ar farn, ac oherwydd natur oddrychol ac amrywiol y prisiadau mae'n fwy tebygol na fyddai'r prisiadau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn cael eu gwireddu pe baent yn cael eu gwerthu. Gallai'r gwahaniaeth fod yn sylweddol uwch neu is.

## 7. DADANSODDIAD O'R ARIAN SY'N WEDDILL

Gellir dadansoddi'r arian sy'n weddill fel a ganlyn:-

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Mantolen rheolwr y gronfa (nodyn 10) | 78,544 | 491 |
| Arian pontio (nodyn 10) | 15,384 | 0 |
| Mantolen fewnol | 3,445 | 2,453 |
| | 97,373 | 2,944 |

## 8. DYLEDWYR/CREDYDWYR

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau cyfredol : | | | | |
| Cyrff a dderbyniwyd | 3,106 | | 3,248 | |
| Blynyddoedd ychwanegol | 82 | | 191 | |
| Cylllid a Thollau EM | 69 | | 59 | |
| Straen pensiynau | 801 | | 378 | |
| Amrywiol | 99 | | 33 | |
| | | 4,157 | | 3,909 |
| Asedau dros flwydd oed | | | | |
| Straen pensiynau | 359 | | 471 | |
| | | 359 | | 471 |
| Llai rhwymedigaethau cyfrediol : | | | | |
| Cyfandaliadau | (3,423) | | (1,277) | |
| Grantiau marwolaeth | (119) | | (16) | |
| Awdurdod gweinyddu | (146) | | 0 | |
| Blynyddoedd ychwanegol | (31) | | 0 | |
| Amrywiol | (616) | | (449) | |
| | | (4,335) | | (1,742) |
| Asedau cyfredol net | | 181 | | 2,638 |

## 9. BUDDSODDIADAU ERAILL

| | 2011 | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau buddsoddiadau eraill:: | | | | |
| Incwm a gronnwyd | 1,218 | | 0 | |
| | | 1,218 | | 0 |
| Rhwymedigaethau buddsoddi eraill: | | | | |
| Prynu buddsoddiadau | (1,195) | | 0 | |
| | | (1,195) | | 0 |
| Mantolen buddsoddiadau eraill | | 23 | | 0 |

## NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

parhad

## 10. TRAFODION O BWYS

Bob tair blynedd, bydd y Gronfa'n adolygu trefniadau rheoli'r gronfa. Cynhaliwyd adolygiad llawn yn ystod 2010/11 a chafodd y Gronfa ei hadbrynu o 6 rheolwr ecwiti gweithredol a GSAM, Rheolwr y Gronfa Arian. Caiff y newidiadau i'r Gronfa eu dangos yn y tabl isod.

| Rheolwr | Mandad | Dyraniad | Nodyn (Asedau a ddyrannwyd yn flaenorol [%] ) |
|---|---|---|---|
| SSgA | Ecwitïau datblygedig godde | 19% | Disodli Rheolwyr Ecwiti Datblygedig Gweithredol (42%)<br>Standard Life UK Equities(15%)<br>Gottex UK Portable Alpha (12%)<br>BlackRock Europe (4%)<br>TT International Europe (2%)<br>T Rowe Price US (5%)<br>Fidelity Japanese Equities (4%) |
| Duet | Ecwitïau byd-eang | 5% | Mandad newydd |
| Pyrford | Dyrannu asedau'n dactegol | 3% | Mandad newydd |
| Bluecrest | Dyrannu asedau'n dactegol | 3% | Mandad newydd |

Ni chafodd Cronfa Ecwiti Fyd-eang Duet a Chronfa Dyrannu Asedau'n Dactegol Bluecrest eu buddsoddi tan 1 Ebrill 2011, ond roedd rheolwr y Gronfa gyntaf yn dal £48m a rheolwr yr ail Gronfa yn dal £29m mewn arian (gweler nodyn 7). Roedd y rheolwr trawsnewid yn dal £15.4m mewn arian, ac roedd £1.2m o hwnnw i dalu am y trafodyn a oedd i ddod ac a oedd heb ei dalu ar gyfer Cronfa Dyrannu Asedau'n Dactegol Pyrford wedi diwedd y flwyddyn (gweler nodiadau 7 a 9).

Arweiniodd yr adolygiad hefyd at gynnydd o 1% yn y dyraniad i'r Gronfa Fyd-eang Dyrannu Asedau'n Dactegol a oedd yn bodoli'n barod, a weithredwyd erbyn 31 Mawrth 2011, a chynnydd yn y dyraniadau i'r Gronfa Nwyddau (2%), y Gronfa Egin-farchnadoedd (3%), Cronfa Asia Basiffig (3%), Y Gronfa Incwm Sefydlog Fyd-eang (2%), Eiddo a Choed (1%) a Buddsoddiadau Ecwiti Preifat ac Isadeiledd (2%). Caiff y rhain eu gweithredu ar ôl 1 Ebrill 2011 gyda chronfa Gottex UK Equity Portable Alpha yn cael ei hadbrynu.

## 11. RISGIAU BUDDSODDI

Fel y dangosir uchod, mae gan y Gronfa fudd mewn amrywiaeth o offerynnau ariannol gan gynnwys adneuon, offerynnau ecwiti a ddyfynnir, gwarannau llog sefydlog, daliannau eiddo uniongyrchol, cynnyrch ecwiti anrhestredig, blaendrafodion nwyddau a deilliadau eraill. Mae hynny'n golygu bod y Gronfa'n agored i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys risg o ran credyd a phartïon eraill cytundebau, risg o ran hylifedd, risg o ran y farchnad a risg o ran y gyfradd gyfnewid.

### Gweithdrefnau Rheoli Risg

Mae'r prif bwerau buddsoddi wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009, a than y rheoliadau mae'n ofynnol i Awdurdod Gweinyddu fuddsoddi unrhyw arian o'r gronfa bensiwn nad oes ei angen yn syth i wneud taliadau o'r Gronfa Bensiwn. Dan y rheoliadau hynny, rhaid i'r Gronfa Bensiwn lunio polisi ar gyfer buddsoddi arian y gronfa. Mae gweithdrefnau rheoli risg cyffredinol yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anwadal y marchnadoedd arian a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Bob blwyddyn, bydd y Gronfa Bensiwn yn adolygu ei Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Ariannu cyfatebol, sy'n egluro polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion megis y math o fuddsoddiadau i'w dal, y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau ar fuddsoddiadau a'r modd y caiff risg ei rheoli. Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Ariannu i'w gweld ar wefan y Gronfa (www.clwydpensionfund.org.uk) yn yr adran "Llywodraethu a Buddsoddiadau".

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Mae'r Gronfa'n adolygu ei strwythur yn ffurfiol o leiaf unwaith bob 4 blynedd, ac fel rheol bydd yn gwneud hynny bob 3 blynedd. Fel y nodwyd uchod roedd yr adolygiad diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2010 ac a oedd yn weithredol o Ebrill 2011 ymlaen, wrthi'n cael ei roi ar waith ar 31 Mawrth 2011, a bydd yn cael ei weithredu'n llawn yn gynnar yn 2011/12. Mae cyswllt mwy helaeth nag arfer y Gronfa â blaendrafodion ar 31 Mawrth 2011 yn adlewyrchu'r trefniadau trawsnewid hyn. Mae model optimeiddio'r Gronfa, a ddefnyddir i helpu i bennu meincnod strategol y Gronfa, yn awgrymu y dylai'r cymysgedd o asedau a bennwyd felly, ynghyd â'r gofynion i reolwyr cronfeydd penodol berfformio'n well na mynegeion eu marchnad, arwain at elw hirdymor o ychydig dros 9% gydag anwadalrwydd o ryw 10%. Mae ystyried risg yn elfen allweddol yn y broses adolygu hon, ac ers nifer o flynyddoedd mae'r Gronfa wedi dilyn polisi o leihau risg trwy amrywio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau o asedau, rhanbarthau buddsoddi a rheolwyr cronfeydd. At hynny, mae gan asedau amgen eu gofynion amrywio eu hunain a rhoddir rhai enghreifftiau isod.

- ecwiti preifat – yn ôl cyfnod, daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf os na ddefnyddir cronfeydd o gronfeydd
- eiddo – yn ôl math, proffil risg, daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf (ar gronfeydd caeëdig)
- isadeiledd – yn ôl math (cynradd/eilaidd), daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf
- cronfeydd ymddiogelu – cronfeydd amlstrategaeth neu gronfeydd o gronfeydd

### Risg o ran Rheolwyr

Mae'r Gronfa hefyd wedi'i hamrywio'n dda yn ôl rheolwr, ac nid yw'r un rheolwr unigol yn rheoli mwy na 15% o asedau'r Gronfa. Wedi i reolwyr cronfeydd gael eu penodi dirprwyir y pŵer iddynt, trwy gytundeb rheoli buddsoddiadau, i brynu a gwerthu fel y gwelant yn dda dan y mandad perthnasol. Mae gan bob mandad feincnod neu darged i'w gyflawni neu ragori arno, ar sail cyfnodau treigl o 3 blynedd fel rheol. Mae'n ofynnol i bob rheolwr gyflwyno diweddariad, bob chwarter o leiaf, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr i drafod eu mandadau a'u perfformiad o safbwynt pob un. Mae'r trefniadau ychydig yn wahanol yn achos rhai o'r asedau amgen. O ran ecwiti preifat, eiddo, isadeiledd a choed/amaeth, mae'r buddsoddiad yn benodol i gronfa yn hytrach nag i reolwr, a chaiff cronfeydd penodol eu dewis gan y tîm mewnol gan ddangos diwydrwydd dyladwy gofalus. Mae'r ymrwymiadau hyn yn tueddu i fod yn llai na'r buddsoddiadau sy'n perthyn i'r prif ddosbarthiadau o asedau, ond unwaith eto caiff adroddiadau ar berfformiad eu cyflwyno'n rheolaidd a chaiff buddsoddiadau o'r fath eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda rheolwyr.

### Risg o ran Credyd

Risg o ran credyd yw'r risg y bydd parti arall mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth neu ymrwymiad y mae wedi cytuno iddi/iddo gyda'r Gronfa. Fel y nodir uchod mae'r Gronfa'n buddsoddi'n bennaf drwy gronfeydd cyfun, ac mae nifer o'r rhain yn ymwneud â phrynu a gwerthu deilliadau o wahanol fathau, gan gynnwys blaendrafodion, cyfnewidiadau ac opsiynau. Er nad yw'r Gronfa ei hun yn barti uniongyrchol i brynu a gwerthu o'r fath ac nad yw, felly, yn wynebu risg uniongyrchol o ran credyd, mae'n amlwg bod unrhyw drafodion sy'n ymwneud â deilliadau yn golygu rhyw elfen o risg, a phe bai un o'r partïon i'r gronfa gyfun yn methu, gallai hynny gael effaith negyddol ar werth y gronfa gyfun, a daliant y Gronfa hefyd felly. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r diwydrwydd dyledus gweithredol a gyflawnir mewn perthynas â rheolwr posibl cyn ei benodi yn ymwneud ag ansawdd prosesau risg y rheolwr hwnnw yng nghyswllt partïon cytundebau, a cheisir cael sicrwydd bod y prosesau hynny'n lleihau'r graddau y mae'r Gronfa'n agored i risg o ran credyd. Wedi iddynt gael eu penodi, mae'n ofynnol i reolwyr ddarparu copïau o'u hadroddiadau blynyddol ar reolaeth fewnol at ddibenion adolygu er mwyn sicrhau bod y safonau a ddisgwylir yn cael eu cynnal.

**NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

parhad

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Fel rheol nid oes gan y Gronfa ddaliannau uniongyrchol mewn contractau blaendrafodion ond, fel y nodir uchod, roedd trefniadau trawsnewid yn cael eu gweithredu ar 31 Mawrth 2011 er mwyn cyflwyno'r strwythur newydd a oedd yn deillio o ymarfer adolygu strwythur y Gronfa, a gynhaliwyd yn 2010. O ganlyniad ceisiodd rheolwr trawsnewid y Gronfa, State Street, ddarparu cyswllt dros dro tymor byr â daliannau o'r fath, a oedd yn cyfateb yn fras i ddyraniadau targed rheolwyr. O ganlyniad, trodd State Street oddeutu £27 miliwn yn ecwiti ar ffurf blaendrafodion ymyl aur hirdymor fel procsi i ddyraniad ychwanegol i Stone Harbor, a throdd oddeutu £22 miliwn yn soddgyfrannau Asia/Pasiffig heb gynnwys Japan fel procsi i ddyraniad ychwanegol i Aberdeen (gweler nodyn 10 Trafodion o Bwys uchod). Mae'r cyswllt â chyfraddau cyfnewid ansefydlog, sy'n cyfateb i £49.104 miliwn, yn cynrychioli gwerth tybiannol stoc a brynwyd dan y contractau blaendrafodion, a'r gwerth yn amodol ar symudiadau, felly, er mai dim ond £0.496 miliwn yw'r cyswllt real net. Mae'r manylion i'w gweld isod.

| **Gwlad** | **Cyfnewid** | **Hyd** | **Gwerth Economaidd £'000** | **Ased £'000** | **Rhwymedigaeth £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| DU | Long Gilt Future | Llai na blwyddyn | 26,832 | 0 | 169 |
| Asia a'r Môr Tawel | MSCI Taiwan | Llai na blwyddyn | 1,705 | 10 | 0 |
| Asia a'r Môr Tawel | SGX S&P CNX Nifty | Llai na blwyddyn | 3,456 | 90 | 0 |
| Asia a'r Môr Tawel | Hang Seng Index Future | Llai na blwyddyn | 4,243 | 77 | 0 |
| Asia a'r Môr Tawel | Mynegai Future KOSPI2 | Llai na blwyddyn | 2,475 | 170 | 0 |
| Asia a'r Môr Tawel | Mynegai MSCI Singapore | Llai na blwyddyn | 5,920 | 98 | 0 |
| Asia a'r Môr Taw | Mynegai SPI 200 | Llai na blwyddyn | 4,473 | 220 | 0 |
| | | | 49,104 | 665 | 169 |

O fewn y Gronfa, bondiau a rhai o'r categorïau asedau amgen yw'r meysydd y canolbwyntir arnynt o safbwynt risg o ran credyd.

- Caiff portffolio bondiau'r Gronfa ei reoli heb gyfyngiadau, ac mae ganddo gyswllt sylweddol â chredyd, benthyciadau a dyledion egin-farchnadoedd. Ar 31 Mawrth 2011, roedd cyswllt y Gronfa â bondiau nad ydynt o radd fuddsoddi yn cyfateb i £37.4 miliwn neu 30.4% o'r portffolio llog sefydlog (36.1% ar 31 Mawrth 2010).
- O ran ecwiti preifat ac isadeiledd, mae bron y cyfan o fuddsoddiadau'r Gronfa yn perthyn i ecwiti'r cwmnïau dan sylw. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod elfen o risg o ran credyd ynghlwm wrth y benthyciadau a drosolwyd yn y portffolio (gweler y tabl isod).

| | **Cost llyfr £000** | **Gwerth ar y farchnad £000** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau wedi'u trosoli** | | |
| ECM | 8,609 | 13,111 |
| Opus Credit | 4,564 | 3,235 |
| | 13,173 | 16,346 |

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

O ran cronfeydd ymddiogelu o gronfeydd a chronfeydd amlstrategaeth, mae gan reolwyr gwaelodol ystod eang o ddeilliadau. Mae cyswllt y Gronfa â chronfeydd ymddiogelu trwy ei rheolwyr ar 31 Mawrth 2011 i'w weld isod, ynghyd â'r swm o fewn hynny sy'n perthyn yn uniongyrchol i fuddsoddiadau ym maes llog sefydlog (mae'n bosibl bod cyswllt arall â chredyd ynghlwm wrth elfennau amlstrategaeth ac elfennau eraill y cronfeydd hyn).

| | Cost llyfr | Gwerth ar y farchnad | Gwerth credyd |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cronfa fantoli o gronfeydd** | | | |
| Liongate | 21,801 | 23,269 | 2,641 |
| SSARIS | 22,000 | 23,732 | 3,985 |
| Gottex | 67,822 | 61,415 | 11,853 |
| Cyfanswm | 111,623 | 108,416 | 18,479 |

At hynny, mae gan y Gronfa ddaliannau gweddillol sydd mewn cyfrif ar wahân gyda rheolwyr blaenorol, sydd naill ai'n gaeth neu ar ffurf arian ond a gaiff eu dal yn ôl ar hyn o bryd dan y telerau hylifedd yn y cytundebau rheoli. Mae manylion y daliannau hyn i'w gweld isod hefyd.

| | Gwerth llyfr | Gwerth ar y farchnad | Arian parod | Arall |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cronfa fantoli** | | | | |
| BlackRock (Quellos) | 3,344 | 3,645 | 0 | 2,641 |
| Pioneer | 0 | 1,032 | 1,032 | 0 |
| | 3,344 | 4,677 | 1,032 | 2,641 |

## Risg o ran Hylifedd

Erbyn hyn, mae gan y Gronfa Bensiwn ei chyfrif banc ei hun. Risg o ran hylifedd, yn ei hystyr symlaf, yw'r risg na fydd y Gronfa yn gallu bodloni ei rhwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus, yn enwedig taliadau pensiwn i'w haelodau. Ar lefel strategol mae'r Awdurdod Gweinyddu, ynghyd â'r actiwari sy'n ymgynghorydd iddo, yn adolygu sefyllfa'r Gronfa bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod modd i'r Gronfa fodloni ei holl rwymedigaethau'n briodol. At hynny, mae'n hanfodol cynllunio llif arian yn barhaus o safbwynt cyfraniadau, taliadau buddion, incwm buddsoddi a galwadau/dosraniadau cyfalaf. Mae hynny'n digwydd, a chaiff sefyllfa'r Gronfa ei diweddaru yn llawer mwy rheolaidd na hynny.

Gan edrych yn benodol ar fuddsoddiadau, mae'r Gronfa trwy ei rheolwyr yn dal cymysgedd o asedau hylifol, asedau lled-hylifol ac asedau caeth. Er bod gan reolwyr buddsoddi'r Gronfa bwerau dewisol sylweddol yng nghyswllt eu portffolios unigol a'r modd y maent yn rheoli eu sefyllfa o ran arian, mae ganddynt yn eu cronfeydd cyfun lawer iawn o warannau hylifol iawn y gellir eu sylweddu yn hawdd, megis soddgyfrannau a bondiau a ddyfynnir ar y prif gyfnewidfeydd stoc. Erbyn hyn, mae soddgyfrannau a bondiau traddodiadol yn cyfateb i 58% o werth y Gronfa, ac er y bydd rhai elfennau ychydig yn llai hylifol yn y ffigurau hyn (dyled a soddgyfrannau egin-farchnadoedd, er enghraifft), mae'r cronfeydd sy'n buddsoddi yn y gwarannau hyn yn cynnig cyfleoedd i brynu a gwerthu bob mis ar y gwaethaf – ac yn aml bob wythnos neu bob pythefnos.

## NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

parhad

### 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Mae'r sefyllfa'n fwy cymysg yn achos asedau amgen. Er bod un neu ddwy o gronfeydd a ddyfynnir i'w cael yma, mae gan y rhan fwyaf ohonynt eu telerau hylifedd eu hunain, neu yn achos eiddo, mae rheolau adbrynu yn berthnasol iddynt. I bob pwrpas mae cronfeydd caeëdig, megis y rhan fwyaf o gronfeydd ecwiti preifat a rhai cronfeydd eiddo ac isadeiledd, yn gaeth am gyfnod penodedig y gronfa (10 mlynedd fel rheol), er y gellir eu gwerthu ar y farchnad eilaidd, am bris gostyngol fel rheol.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi gwerth buddsoddiadau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2011 yn ôl proffil hylifedd.

| | Gwerth ar y farchnad 2010/11 | 1 mis | 2 - 3 mis | 3 - 6 mis | 6 - 12 mis | wedi cau - dod i ben | wedi'i gloi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwarannau â llog sefydlog | 123,024 | 123,024 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ecwitïau Gweithredol y DU | 63,659 | 2,244 | 0 | 61,415 | 0 | 0 | 0 |
| Ecwitïau Goddefol y DU | 97,724 | 97,724 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ecwitïau Tramor Gweithredol | 174,219 | 174,219 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ecwitïau Tramor Goddefol | 89,147 | 89,147 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amlstrategaeth | 88,318 | 88,318 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eiddo | 65,317 | 0 | 0 | 0 | 32,972 | 32,345 | 0 |
| Seilwaith | 20,753 | 3,965 | 0 | 0 | 0 | 16,788 | 0 |
| Coed | 12,212 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12,212 | 0 |
| Nwyddau | 39,814 | 39,814 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ecwiti preifat | 112,563 | 4,922 | 0 | 0 | 0 | 107,641 | 0 |
| Cronfa fantoli o gronfeydd | 50,646 | 0 | 23,269 | 23,732 | 0 | 0 | 3,645 |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | 16,346 | 0 | 16,346 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 953,742 | 623,377 | 39,615 | 85,147 | 32,972 | 168,986 | 3,645 |

Dylid nodi bod gwahanol reolau talu yn berthnasol i wahanol fuddsoddiadau a ddyfynnir, ond fel rheol bydd taliadau/derbyniadau yn ddyledus cyn pen 7 diwrnod i'r dyddiad prynu/gwerthu. Gan fod y Gronfa'n defnyddio cronfeydd cyfun ar gyfer buddsoddiadau a ddyfynnir, bydd dyddiadau prynu a gwerthu bob dydd, bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis yn berthnasol iddynt yn aml. Mae pob buddsoddiad o'r fath wedi'i ddynodi'n fuddsoddiad "cyn pen 1 mis" at ddibenion dadansoddi hylifedd. Mae rheolau adbrynu yn berthnasol i gronfeydd eiddo penagored, a bennir gan eu byrddau rheoli. Mae gan lawer ohonynt adbryniadau chwarterol, ond gellir dal y rhain yn ôl mewn marchnadoedd anodd er mwyn peidio â gorfodi gwerthu a pheri anfantais i fuddsoddwyr parhaus. At ddibenion dadansoddi hylifedd defnyddiwyd dull ceidwadol, ac mae pob buddsoddiad o'r fath wedi'i ddynodi'n fuddsoddiad "cyn pen 6-12 mis".

Mae cronfeydd caeëdig wedi'u dynodi'n gaeth at ddibenion dadansoddi hylifedd. Fodd bynnag, mae patrwm llif arian y cronfeydd caeëdig hynny'n wahanol iawn i fuddsoddiadau traddodiadol, gan mai dim ond wrth wneud y buddsoddiadau gwaelodol y caiff yr arian a neilltuwyd ei dynnu i lawr (fel rheol dros gyfnod o 5 mlynedd) a chaiff dosraniadau eu dychwelyd cyn gynted ag yr ymadewir â'r buddsoddiadau gwaelodol (mor gynnar â'r bedwaredd flwyddyn yn aml). O ran llif arian, felly, dim ond uchafswm o ryw 60-70% o'r swm a neilltuwyd y bydd y llif arian net ar gyfer cronfa o'r fath yn ei gyrraedd, ac fel rheol bydd dosraniadau cronnol yn fwy na'r symiau cronnol a dynnwyd i lawr ymhell cyn diwedd y cyfnod a bennwyd, gan fod y cronfeydd hyn yn rheolaidd yn cynnig elw sydd 1½ i 2½ gwaith yn fwy na'r arian a fuddsoddwyd. Ar yr un pryd, bu'n arfer gan y Gronfa fuddsoddi arian yn rheolaidd bob blwyddyn, ac felly mae blwyddyn fuddsoddi gyntaf y cronfeydd sy'n weithredol yn amrywio o 1997 i 2011. Felly, er bod yr holl arian hwn wedi'i ddynodi'n gaeëdig a'i fod felly'n gaeth ar sail ei "oes 10 mlynedd" arferol, mae hynny'n golygu bod llawer ohono'n nes i'w ddyddiad aeddfedu nag y mae'r dynodiad cyffredinol yn ei awgrymu. Mewn gwirionedd, o'r £254 miliwn a neilltuwyd i ecwiti preifat rhwng 1997 a 2011, cafodd hanner ei neilltuo rhwng 1997 a 2006.

**NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

parhad

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Fel y gwelir o'r tabl, hyd yn oed o ddefnyddio'r sail geidwadol a amlinellir uchod, byddai modd sylweddu oddeutu 65% o'r portffolio cyn pen 1 mis a sylweddu 70% cyn pen 3 mis.

### Risg o ran y Farchnad

Risg o ran y farchnad yw'r risg y bydd newidiadau ym mhris y farchnad yn arwain at amrywiadau yng ngwerth teg neu lif arian sefydliad ariannol yn y dyfodol. Mae'r Gronfa'n agored i'r risg o golled ariannol o ganlyniad i newid yng ngwerth ei buddsoddiadau, a'r perygl o ganlyniad i hynny y bydd ei hasedau'n methu â chynnig enillion yn unol â'r enillion a ragwelwyd sy'n sail i'r prisiad o'i rhwymedigaethau dros y tymor hir. Mae dwy elfen yn perthyn i risg o ran y farchnad –

- Y risgiau sy'n gysylltiedig ag anwadalrwydd ym mherfformiad y dosbarth o asedau (beta);
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â gallu rheolwyr i symud oddi wrth bwysiadau mynegai a chynhyrchu alffa, os caniateir iddynt wneud hynny, gan wrthbwyso risg beta trwy ragori ar berfformiad y farchnad.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o sefyllfa'r Gronfa yng nghyswllt risg o ran y farchnad ar 31 Mawrth 2011, trwy ddangos y swm a fuddsoddwyd ym mhob dosbarth o asedau a thrwy bob rheolwr ym mhob un o'r prif ddosbarthiadau o asedau, y mynegai a ddefnyddiwyd fel meincnod, y targed a bennwyd ar gyfer rheolwyr yn erbyn y meincnod hwnnw, ac uchafswm anwadalrwydd (neu risg) targed rheolwyr yn erbyn mynegai wrth gyflawni hynny. Mae'r anwadalrwydd targed hwn yn mesur graddau eithaf gwasgaru canlyniadau tebygol o'u cymharu â'r meincnod a ddewiswyd.

| | **Rheolwr** | **Gwerth ar y farchnad 2010/11 £000** | **Meincnod** | **Targed (Crynswth)** | **Risg (<) %** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarannau â llog sefydlog | Stone Harbor | 123,024 | FT All Stocks | +1.5% | 4.0 |
| Ecwitïau'r DU - gweithredol | Gottex | 61,415 | FTSE 100 | +4.0% | 3.0 |
| Ecwitïau'r DU - goddefol | SSgA | 97,724 | FTSE All Share | Match | 0.5 |
| Ecwitïau tramor - gweithredol | Investec | 51,526 | MSCI AC World NDR | +3.5% | 10.0 |
| | Aberdeen | 50,075 | MSCI AC Asia/P ex Japan | +3.0% | 12.0 |
| | Wellington | 47,165 | MSCI EM Free | +2.5% | 8.0 |
| | BlackRock | 59,043 | 7 day LIBID | +15.0% | 20.0 |
| | Pyrford | 29,275 | RPI | +5.0% | 8.0 |
| Ecwitïau tramor–goddefol | SSgA | 29,753 | FTSE AWD Europe ex UK | Match | 0.5 |
| | SSgA | 29,861 | FTSE AWD North America | Match | 0.5 |
| | SSgA | 29,533 | FTSE AWD Japan | Match | 0.5 |
| Cronfa fantoli o gronfeydd | Liongate | 23,269 | Absolute | +8-10% | 6.0 |
| | SSARIS | 23,732 | Absolute | +8-10% | 5.0 |
| | Pioneer | 3,645 | Absolute | +8-10% | 4.0 |
| Cronfeydd nwyddau | Wellington | 19,000 | GCSI Equally Weighted | +1.5% | 4.0 |
| Cronfeydd eiddo | Amrywiol | 65,317 | IPD Balanced PUTs | Exceed | |
| Cronfeydd seilwaith | Amrywiol | 20,753 | Absolute | +15.0% | |
| Cronfeydd coed | Amrywiol | 12,212 | Absolute | +15.0% | |
| Cronfeydd ecwiti preifat | Amrywiol | 112,563 | Absolute | +15.0% | |
| Benthyciadau wedi'u trosoli | Amrywiol | 16,346 | 7 day LIBID | +15.0% | |
| Trawsnewid | Custodian | 48,511 | Temporary holdings | | |
| | | 953,742 | | | |

## NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD

parhad

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Caiff y risgiau sy'n gysylltiedig ag anwadalrwydd gwerthoedd ar y farchnad eu rheoli yn bennaf trwy bolisi o gael amrywiaeth eang o asedau. Mae'r Gronfa'n pennu cyfyngiadau ar y math o fuddsoddiadau y gall eu dal, trwy derfynau buddsoddi, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae'r Gronfa hefyd yn mabwysiadu meincnod strategol penodol (mae manylion i'w cael yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa) ac mae pwysiadau'r gwahanol ddosbarthiadau o asedau o fewn y meincnod yn sail i waith dyrannu asedau o fewn y Gronfa. Dan amodau arferol cynhelir ymarfer ailfantoli chwarterol yn erbyn y meincnod strategol hwn o fewn terfynau goddefiant penodol. Bwriad y gwaith dyrannu hwn, a bennir trwy fodel dyrannu asedau'r Gronfa, yw amrywio asedau a lleihau risg ar gyfer perfformiad ar lefel benodol trwy ystod eang o fuddsoddiadau ar draws y prif ddosbarthiadau o asedau a buddsoddiadau amgen, ac ar draws rhanbarthau daearyddol ym mhob dosbarth o asedau. Bwriedir i'r meincnod strategol cyfredol gynhyrchu elw hirdymor o ychydig dros 9% gydag anwadalrwydd o ryw 10%.

Caiff risg o ran y farchnad ei rheoli hefyd trwy amrywio rheolwyr – gan greu portffolio amrywiol ar draws nifer o reolwyr buddsoddi. Bob dydd, bydd rheolwyr yn rheoli risg yn unol â'r meincnodau, y targedau a'r terfynau risg a bennwyd ar gyfer y mandad, ac yn unol â'u polisïau a'u prosesau eu hunain. Mae'r Gronfa ei hun yn monitro rheolwyr yn rheolaidd (bob chwarter o leiaf) yng nghyswllt pob un o'r agweddau hyn. O ran eiddo ac ecwiti preifat, mae amrywio cronfeydd a rheolwyr yn hollbwysig, ac er na roddir rhestr lawn o fuddsoddiadau yma, mae gan y Gronfa gyswllt â gwahanol fuddsoddiadau fel y gwelir isod.

| | Gwerth ary farchnad 2011 | Rheolwyr | Cronfeydd | Eiddo / Cwmnïau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | No. | No. | No. |
| Eiddo / Coed | 77,529 | 17 | 22 | >260 |
| Ecwiti preifat / Seilwaith | 149,662 | 22 | 60 | >4,000 |

Mae gan y Gronfa nifer o asedau ariannol mewn marchnadoedd tramor, ac felly mae'n agored hefyd i'r risg o golled a all godi o symudiadau yn y gyfradd gyfnewid ar gyfer arian tramor. Nid yw'r Gronfa'n mynnu bod ei rheolwyr yn trosi daliannau yn sterling, ac nid yw'r Gronfa ei hun yn gweithredu unrhyw drefn gyffredinol ar gyfer ymddiogelu rhag symudiadau mewn arian tramor. Ar 31 Mawrth 2011, roedd cyswllt y Gronfa â symudiadau mewn arian tramor fel y dangosir isod.

| | Gwerth ar y farchnad 2010/11 |
|---|---|
| | £000 |
| Ecwitïau Tramor Gweithredol | 174,219 |
| Ecwitïau Tramor Goddefol | 89,147 |
| Amlstrategaeth | 88,318 |
| Eiddo | 22,766 |
| Seilwaith | 8,095 |
| Coed | 12,212 |
| Ecwiti preifat | 90,772 |
| | 485,529 |

## 11. RISGIAU BUDDSODDI (parhad)

Mae sefyllfa ariannu'r Gronfa yn sensitif iawn i newidiadau mewn soddgyfrannau (sef y dyraniad mwyaf o hyd, sydd felly'n allweddol wrth benderfynu perfformiad y Gronfa) ac elw bondiau (sy'n effeithio ar y gwerth a roddir ar rwymedigaethau'r Gronfa). Yn rhan o ymarfer adolygu strwythur y Gronfa a gynhaliwyd yn 2010, gwnaed cryn dipyn o waith i wella model optimeiddio'r Gronfa ar ôl 2008, trwy ystyried nid yn unig yr angen i amrywio asedau ond yr angen i amrywio risgiau hefyd. Yn amlwg, mae gwahanol gyfuniadau o nodweddion risg yn perthyn i wahanol ddosbarthiadau o asedau (risg o ran ecwiti, risg o ran credyd, risg o ran hylifedd, risg o ran chwyddiant ac ati) a dim ond trwy nodi pwysiadau'r rhain ar gyfer pob dosbarth unigol o asedau y gellir mesur i ba raddau y caiff risg ei hamrywio ar gyfer gwahanol gyfuniadau o asedau, a rhoi prawf ar hynny ar lefel y Gronfa gyfan. Yn ei dro, anogodd hynny'r Gronfa i ddechrau meddwl am asedau mewn ffordd wahanol gan awgrymu yn y pen draw y dylid creu grwpiau diwygiedig a oedd yn fwy ystyrlon o ran proffil risg, a strwythur a rhwymedigaethau'r Gronfa.

O ran rhwymedigaethau, mae'n amlwg mai'r elfennau perthnasol yw "Llog Sefydlog" ac "Asedau Gwirioneddol". Roedd y gwelliannau i'r model yn nodi'r cysylltiadau rhwng yr asedau hyn a'u potensial i helpu i amrywio risg ac ymddiogelu (rhag chwyddiant a chyfraddau llog). O ganlyniad, cafwyd cynnydd o 2% yn y dyraniadau i "Log Sefydlog" a chynnydd o 3½% yn y dyraniadau i "Asedau Gwirioneddol". O ran asedau, cafwyd gostyngiad yn y cyswllt ag ecwiti, yn enwedig mewn marchnadoedd datblygedig lle bu'n anodd sicrhau alffa, a ffocws cynyddol ar y gwledydd sy'n datblygu.

Cafwyd newid allweddol arall yng nghyswllt llywodraethu a'r broses Dyrannu Asedau'n Dactegol, lle'r oedd y Gronfa'n cydnabod yr angen am fwy o gyswllt a mwy o hyblygrwydd. Cynyddodd y pwysiad o ran Dyrannu Asedau'n Dactegol o 5% i 12%, ac erbyn hyn caiff ei ddarparu trwy 3 darparwr sydd â strategaethau gwahanol iawn. Ar yr un pryd, rhoddwyd rhyddid i'r tîm mewnol ystwytho dyraniadau ecwiti/bondiau yn dactegol (+/- 15%) pan fyddai amodau'r farchnad yn cyfiawnhau hynny. Prif ddiben y newidiadau hyn yw lliniaru'r risg o ran y farchnad.

## 12. DIGWYDDIAD AR ÔL LLUNIO'R FANTOLEN

Mae'r cyfrifon a amlinellir yn y datganiad yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2011. Ers y dyddiad hwnnw, gallai perfformiad marchnadoedd ecwiti'r byd fod wedi effeithio ar werth ariannol buddsoddiadau cronfeydd pensiwn. Nid yw'r symudiad hwnnw'n effeithio ar allu'r Gronfa i dalu ei phensiynwyr.

## 13. CYFRANIADAU YCHWANEGOL GWIRFODDOL (CYG)

Ni chafodd gwerth buddsoddiadau CYG prynu arian ar y farchnad nac amcangyfrif o'u gwerth ar y farchnad eu cynnwys. Mae'r asedau hyn wedi eu neilltuo'n benodol i ddarparu buddion ychwanegol ar gyfer aelodau penodol. Caiff Cronfa Bensiynau Clwyd wasanaethau dau ddarparwr CYG ar gyfer buddion ychwanegol i aelodau, a buddsoddir y cronfeydd fel a ganlyn mewn ystod o gynnyrch buddsoddi sy'n cynnwys cronfeydd llog sefydlog, ecwiti, arian, adnau, eiddo a chronfeydd cyfrifol o safbwynt cymdeithasol:-

| | | |
|---|---|---|
| Cyfraniadau a dalwyd | £ | 492,962 |
| Unedau a brynwyd | No. | 100,958 |
| Unedau a werthwyd | No. | 108,688 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 | £ | 3,683,250 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2010 | £ | 3,456,797 |

## 14. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2004, mae gan Gynghorwyr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn. Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2011, nid yw'r un o Aelodau'r Panel Pensiynau wedi manteisio ar y cyfle hwn. Nid yw Aelodau'r Panel Cronfa Bensiynau yn cael unrhyw ffïoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau penodol fel aelodau o'r Panel.

Nid yw'r un o'r uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa wedi ymrwymo i unrhyw gontract, heblaw am eu contract cyflogaeth gyda'r Cyngor, i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i'r Gronfa.

Wrth gyflawni ei rôl fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa, darparodd Cyngor Sir y Fflint wasanaethau i'r Gronfa y codwyd £847,104 amdanynt (£904,671 yn 2009/10). Mae'r costau hynny ar gyfer y staff a gaiff eu cyflogi i sicrhau bod y gwasanaeth pensiynau'n cael ei ddarparu, a chostau eraill megis y gyflogres a thechnoleg gwybodaeth. Caiff y costau eu cynnwys yn y cyfrifon dan gostau gweinyddu (gweler nodyn 2). Yn ystod 2010/11, cafodd y Gronfa log o £2,317 gan Gyngor Sir y Fflint mewn perthynas â gweddill arian parod Cronfa Bensiynau Clwyd, a nodwyd ar wahân i arian y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gweddill o £146,370 yn ddyledus i Gyngor Sir y Fflint yn gysylltiedig â chostau gwasanaethau cynnal, nad oeddent ar gael ar 31 Mawrth 2011.

## 15. YMRWYMIADAU CONTRACT A RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

Ar 31 Mawrth 2011, mae gan y Gronfa ymrwymiadau contract sy'n cyfateb i £353.7m mewn cronfeydd ecwiti preifat ac eiddo. Mae £248.9m o'r swm hwnnw wedi'i fuddsoddi, sy'n golygu bod ymrwymiad o £104.8m yn weddill.

## 16. COSTAU TRAFODION

Costau trafodion yw costau ychwanegol y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i waith caffael neu werthu buddsoddiad. Maent yn cynnwys ffïoedd a thaliadau comisiwn a delir i asiantiaid, ymgynghorwyr, broceriaid a delwyr, ardollau gan asiantaethau rheoleiddio a chyfnewidfeydd gwarannau, a threthi a thollau trosglwyddo. Gellir eu hychwanegu at gostau prynu neu gellir eu gosod yn erbyn enillion o werthu, fel y bo'n briodol. Ni ellir nodi'r costau hyn yn uniongyrchol gan fod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei buddsoddi'n gyfan gwbl mewn cronfeydd cyfun.

## 17. PRISIAD ACTIWARAIDD A GWERTH BUDDION YMDDEOL A ADDAWYD AT DDIBEN SAFON CYFRIFO RYNGWLADOL 26 (Darparwyd gan Actiwari'r Gronfa)

Hwn yw'r datganiad sy'n ofynnol dan Reoliad 34(1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd o Gronfa Bensiynau Clwyd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010 i bennu'r cyfraddau cyfrannu a fyddai mewn grym o 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2014. Mae canlyniadau'r prisiad i'w gweld yn ein hadroddiad dyddiedig 30 Mawrth 2011.

Ar sail y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd, dangosodd y prisiad fod gwerth asedau'r Gronfa, sef £956 miliwn, yn cyfateb i 72% o rwymedigaethau'r Targed Ariannu, sef £1,332 miliwn, ar ddyddiad y prisiad. Dangosodd y prisiad hefyd fod angen i gyflogwyr dalu cyfradd gyfrannu gyffredin o 11.7% o gyflog pensiynadwy y flwyddyn. Cyfrifir bod y gyfradd gyffredin, ynghyd â'r cyfraniadau a delir gan aelodau, yn ddigon i fodloni'r holl rwymedigaethau sy'n codi mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad.

**NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
parhad

## 17. PRISIAD ACTIWARAIDD A GWERTH BUDDION YMDDEOL A ADDAWYD AT DDIBEN SAFON CYFRIFO RYNGWLADOL 26 (Darparwyd gan Actiwari'r Gronfa) (parhad)

Wrth fabwysiadu'r un dull a'r un rhagdybiaethau ag a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu, gallai'r diffyg gael ei ddileu gan gyfraniad ychwanegol cyfartalog o 9.0% o gyflog pensiynadwy dros gyfnod o 20 mlynedd. Byddai hynny'n awgrymu cyfradd gyfrannu gyfartalog o 20.7% o gyflog pensiynadwy i gyd ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr.

Yn ymarferol caiff sefyllfa pob cyflogwr unigol ei hasesu ar wahân, ac mae'r cyfraniadau sy'n ofynnol i'w gweld yn ein hadroddiad dyddiedig 30 Mawrth 2011. Yn ogystal â'r cyfraniadau a ardystiwyd, bydd y cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i fodloni rhwymedigaethau ychwanegol sy'n codi o ymddeoliadau cynnar (ar wahân i ymddeoliadau ar sail afiechyd).

Mae'r cynllun ariannu a fabwysiadwyd wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mae'r gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd wrth weithredu codiadau mewn cyfraniadau a chyfnodau adennill diffyg yn unol â'r hyn a bennwyd drwy broses ymgynghori'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Gwnaed lwfans ychwanegol yn achos rhai cyflogwyr, yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu, ar gyfer enillion buddsoddi tybiedig ar asedau sy'n bodoli a chyfraniadau'r dyfodol, ar gyfer holl gyfnod adennill diffyg y cyflogwr.

Y dull actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gynnal y prisiad oedd y dull uned ragamcanol. Mae manylion llawn y rhagdybiaethau actiwaraidd i'w gweld yn ein hadroddiad dyddiedig 30 Mawrth 2011, ond roedd y prif ragdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu a'r gyfradd gyfrannu gyffredin fel a ganlyn:

| | Rhwymedigaethau ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol (Targed Ariannu) | Rhwymedigaethau ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol (Cyfradd Gyfrannu Gyffredin) |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt: | | |
| - cyn ymddeol | 6.5% y flwyddyn | 6.75% y flwyddyn |
| - ar ôl ymddeol | 5.5% y flwyddyn | 6.75% y flwyddyn |
| Cyfradd codiadau cyflog: | 4.5% y flwyddyn | 4.5% y flwyddyn |
| Cyfradd codiadau mewn pensiynau a delir (yn fwy na'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig): | 3.0% y flwyddyn | 3.0% y flwyddyn |

Cafodd yr asedau eu hasesu ar sail eu gwerth ar y farchnad.

Disgwylir y bydd y prisiad actiwaraidd teirblynyddol nesaf o'r Gronfa yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2013. Caiff y cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwyr unigol eu hadolygu ar sail canlyniadau'r prisiad hwn, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

## NODIADAU YNGHYLCH CYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD
parhad

### 17. PRISIAD ACTIWARAIDD A GWERTH BUDDION YMDDEOL A ADDAWYD AT DDIBEN SAFON CYFRIFO RYNGWLADOL 26 (Darparwyd gan Actiwari'r Gronfa) (parhad)

#### Gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol a addawyd at ddibenion Safon Cyfrifo Ryngwladol 26

Dan Safon Cyfrifo Ryngwladol 26 mae'n rhaid datgelu gwerth presennol buddion ymddeol a addawyd o safbwynt y Gronfa, ac i'r diben hwn dylai'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg actiwaraidd a ddefnyddir fod wedi'u seilio ar Safon Cyfrifo Ryngwladol 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd at ddibenion ariannu.

Er mwyn asesu gwerth y buddion ar y sail honno, rydym wedi defnyddio'r un rhagdybiaethau actiwaraidd ag a ddefnyddiwyd at ddibenion ariannu, ar wahân i'r gyfradd ddisgownt lle defnyddiwyd cyfradd o 5.6% y flwyddyn ar gyfer y gyfradd cyn ymddeol a'r gyfradd ar ôl ymddeol yn hytrach na'r cyfraddau a amlinellir uchod. Rydym hefyd wedi defnyddio methodoleg prisio yng nghyswllt buddion afiechyd a buddion marwolaeth sy'n gyson â Safon Cyfrifo Ryngwladol 19. Ar sail hynny, roedd gwerth buddion ymddeol a addawyd o safbwynt y Gronfa ar 31 Mawrth 2010 yn cyfateb i £1,414 miliwn.

Rydym hefyd wedi cynnal cyfrifiadau tebyg i rai prisiad actiwaraidd blaenorol y Gronfa ar 31 Mawrth 2007, gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau actiwaraidd ag a ddefnyddiwyd at ddibenion ariannu ar y dyddiad hwnnw, ar wahân i'r gyfradd ddisgownt lle defnyddiwyd cyfradd o 5.4% y flwyddyn ar gyfer y gyfradd cyn ymddeol a'r gyfradd ar ôl ymddeol. Ar sail hynny, roedd gwerth buddion ymddeol a addawyd o safbwynt y Gronfa ar y dyddiad hwnnw yn cyfateb i £1,276 miliwn at ddibenion Safon Cyfrifo Ryngwladol 26.

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn wedi'i seilio ar y penderfyniad i godi pensiynau'r sector cyhoeddus drwy ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Adwerthu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae'r penderfyniad hwn yn dal gerbron y llysoedd mewn adolygiad barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn amddiffyn yr achos a, chan hynny, ni chafodd y nodyn ei addasu yng nghyswllt y mater hwn. Nid yw'r goblygiadau ariannol a fyddai'n wynebu'r Gronfa pe bai'r llysoedd yn barnu yn erbyn y Llywodraeth wedi'u hasesu.

**Paul Middleman**
Cymrawd y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid
Mercer Limited
Mehefin 2011

### 18. DIGWYDDIAD DILYNOL NAD YW'N EFFEITHIO AR Y FANTOLEN

Ar 1 Ebrill 2011, cafodd cyfraniadau staff Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a oedd yn aelodau o Gronfa Bensiynau Clwyd eu trosglwyddo i Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn cynnwys 470 o aelodau a gwerth trosglwyddo o £20m at ei gilydd. Gan fod trosglwyddiadau i mewn ac allan o gynlluniau pensiwn eraill yn cael eu cyfrifo ar sail arian parod, mae'r swm hwn yn cael ei ddangos yn y Datganiadau o Asedau Net ar 31 Mawrth 2011, ac yng ngwerth presennol actiwaraidd buddion ymddeol a addawyd ar y dyddiad hwnnw, fel y datgelir yn nodyn 17.